

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-2023

cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru
© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ........ 4

Adroddiad ar berfformiad ........ 6

Datganiad y Prif Weithredwr ........ 6

Cyflwyno CNC ........ 10

Ein gwerthoedd newydd ........ 11

CNC mewn ffigurau ........ 13

Crynodeb o risgiau allweddol ........ 14

Crynodeb ariannol ........ 15

Crynodeb o berfformiad ........ 18

Dadansoddi perfformiad ........ 19

Adroddiad Atebolrwydd ........ 42

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ........ 43

Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 43

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 46

Datganiad Llywodraethiant ........ 47

Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio) ........ 68

Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio) ........ 82

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ........ 83

Datganiadau Ariannol ........ 87

# Rhagair y cadeirydd

Mae effaith amlwg yr argyfwng natur a hinsawdd ar ein cymunedau bellach yn glir i bawb. O lifogydd dinistriol, tanau gwyllt, a sychder, i'r bygythiad bod rhywogaethau poblogaidd fel y gylfinir yn mynd i ddiflannu, mae digon o dystiolaeth i sicrhau bod pawb yn deall bod y rhain yn argyfyngau yn ystyr go iawn y gair, a bod angen cymryd camau gweithredu trawsnewidiol ar frys nawr.

Gydag ansicrwydd y sefyllfa economaidd a geowleidyddol bresennol yn gefndir i hyn, hawdd fyddai teimlo bod maint y dasg o dan sylw yn llethol. Ac eto, wrth i'r argyfyngau cysylltiedig hyn godi mewn pwysigrwydd ar agendâu gwleidyddol yn fyd-eang, ac yma yng Nghymru, rydym wedi gweld mwy o lywodraethau, busnesau ac aelodau o'r cyhoedd yn ymuno â'r alwad frys i weithredu i atal dirywiad byd natur a lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

I'r perwyl hwn mae ein cynllun corfforaethol newydd yn nodi ein gweledigaeth hyd at 2030, gan egluro'r hyn sydd bwysicaf, a'n harwain trwy'r anawsterau anochel a fydd yn codi yn y blynyddoedd i ddod. Bydd angen i ni ddangos arweiniad gwirioneddol wrth i ni ysbrydoli ein gilydd, ein partneriaid, a phobl Cymru i gydweithio a gweithredu ar y cyd. Rwyf wedi mwynhau'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda'n staff ar wahanol ymweliadau ledled Cymru drwy gydol y flwyddyn, a hoffwn dalu teyrnged iddynt am eu holl waith caled o ddydd i ddydd, ac am yr ymdrech a'r egni y maent wedi'u dangos wrth ddatblygu ein glasbrint ar gyfer y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol.

Ar ôl gwrando ar ein cydweithwyr ac ar bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, mae'r cynllun yn edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn i'w ragflaenydd. Rydym wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i fabwysiadu dull mwy strategol ac integredig, gan ganolbwyntio ar sut rydym yn gweithio ar draws ein timau, fel y gallwn, drwy gydweithio, arwain yr ymateb i'r argyfyngau byd-eang o ran byd natur, yr hinsawdd a llygredd yma yng Nghymru.

I mi, un o'r prif feysydd lle mae'n rhaid i ni ysgogi gwelliannau wrth weithio ar y cyd, yw dŵr. Fel rhan o'n hymroddiad i wella ansawdd dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wedi sefydlu Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd stormydd yng Nghymru, ac i nodi cynlluniau manwl i ysgogi newid a gwelliant cyflym. Ond cam bach yw hwn ar hyd y daith i sicrhau bod ein hafonydd yn ffynnu am genedlaethau i ddod, a bydd yn rhaid cymryd nifer fawr o gamau gweithredu er mwyn gwarchod cynefinoedd ledled Cymru o ystyried yr heriau sydd i ddod.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu nifer o newidiadau i'n bwrdd wrth i aelodau ddod i ddiwedd tymor eu gwasanaeth gyda ni. Yn anffodus, rydym wedi ffarwelio â Karen Balmer a Zoe Henderson, y ddwy yn aelodau rhagorol sydd wedi gwneud cyfraniad aruthrol i'n gwaith. Yn fwy diweddar, mae pedwar aelod newydd wedi cael eu penodi, gyda Dr Peter Fox yn ymuno fel Cadeirydd y Pwyllgor Llifogydd, yr Athro Rhys Jones yn Gadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, Helen Pittaway yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Kathleen Palmer yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae Mark McKenna a'r Athro Calvin Jones yn aros ymlaen fel aelodau bwrdd llawn yn dilyn eu rolau interim.

Gyda'r cynllun corfforaethol wedi'i ddatblygu ac unigolion wedi'u penodi i bob swydd ar y bwrdd, rydym bellach yn awyddus i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni. Rwy’n hyderus bod gennym y fframweithiau ar waith i wneud hyn a’i wneud yn dda.

**Syr David Henshaw**

**Cadeirydd** **18 Hydref 2023**

# Adroddiad ar berfformiad

Ar y tudalennau canlynol, mae Clare Pillman, ein Prif Weithredwr, yn cynnig ei safbwynt ar ein perfformiad eleni ac rydym yn amlinellu diben ein sefydliad, ein gweledigaeth newydd, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'r risgiau a'r problemau allweddol rydym yn eu hwynebu, yn ogystal ag esbonio sut rydym wedi rheoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion eleni.

Mae'n bwysig cydnabod mai hwn yw'r adroddiad olaf y byddwn yn ei lunio sy'n cyd-fynd â'n hen gynllun corfforaethol “Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol”. Yn ystod 2022/23 mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi arwain y gwaith o lunio ein cynllun corfforaethol newydd, “Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'i Gilydd”, gan adnewyddu ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion llesiant. Cafodd y cynllun hwn ei lansio ddiwedd mis Mawrth 2023.

## Datganiad y Prif Weithredwr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid wrth i ni ganolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgais o ysgogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion ac effaith yr argyfwng natur a hinsawdd. Fe wnaethom osod nodau heriol wrth i ni ddatblygu ein cynllun corfforaethol newydd hyd at 2030, gan herio ein hunain, a phartneriaid allweddol, i fynegi'n glir ddyheadau a disgwyliadau CNC – fel y gallwn, gyda'n gilydd, gynyddu ein heffaith wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd fel rhan o'n huchelgais i weld Cymru yn wlad lle mae byd natur a phobl yn wirioneddol ffynnu gyda'i gilydd.

Rydym wedi gweithio'n ddiwyd i ddeall ein gallu a'n galluoedd ein hunain yn well. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gwneud llawer iawn o waith gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i adolygu gweithgareddau sylfaenol CNC, gan feithrin cyd-ddealltwriaeth gref o'r adnoddau sydd ar gael i ni i gyflawni ein cylch gwaith.

Gan weithio'n agos gyda swyddogion polisi a chyllid Llywodraeth Cymru rydym wedi datblygu a chytuno ar gytundebau lefel gwasanaeth mewn 10 maes blaenoriaeth, sef rheoli perygl llifogydd, ystâd CNC, rheoli digwyddiadau llygredd, gorfodi, ansawdd dŵr, galluogi plannu coed, monitro dŵr croyw, monitro morol, monitro daearol a'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru). Mae pob cytundeb lefel gwasanaeth yn manylu ar yr adnoddau sydd eu hangen i'n galluogi i ddarparu lefel o wasanaeth sy'n bodloni ein cyfrifoldebau statudol a'r amcanion a nodir gan Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw'r rhain yn cwmpasu pob maes o'n busnes a byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth pellach drwy 2023/24.

Yn dilyn y trafodaethau drwy gydol yr adolygiad sylfaenol, rydym wedi dadlau bod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r lefel o uchelgais a ddisgwylir gan CNC yn uwch na'r hyn y mae setliadau cyllideb blaenorol wedi'i ganiatáu. Gan roi ystyriaeth lawn i'r hinsawdd economaidd bresennol a'r pwysau ar gyllidebau ar draws pob maes gwariant cyhoeddus, rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog Newid Hinsawdd am yr ymrwymiad a wnaed i fynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r blynyddoedd i ddod.

Gwyddom fod llawer o’n cwsmeriaid a’n rhanddeiliaid hefyd yn wynebu heriau sy’n deillio o’r argyfwng costau byw, ac felly bu’n rhaid ymdrin yn sensitif â’n hymgynghoriad cyhoeddus ar adolygu ein taliadau ar gyfer rhai o’n trwyddedau. Arweiniodd yr ymatebion at gytuno ar nifer o ddiwygiadau i'n cynlluniau codi tâl arfaethedig. Er ein bod yn deall y gallai hyn fod yn anodd mewn rhai achosion, dyma'r tro cyntaf i ni gynyddu ein taliadau i adennill ein costau ers ein sefydlu 10 mlynedd yn ôl. O 1 Ebrill 2023 ymlaen, cynyddodd taliadau parhau blynyddol CNC 6% mewn wyth maes o’n gwaith. Bydd y taliadau ar gyfer gwneud cais am drwyddedau yn parhau ar yr un cyfraddau â 2022/23 tra byddwn yn aros am gytundeb gan y Gweinidog ar gyflwyno cynllun codi tâl newydd.

Mae ein cyfraniad at liniaru’r newid yn yr hinsawdd wedi canolbwyntio ar adfer mawndiroedd, sef yr arwr di-glod ym maes dal carbon, i raddau helaeth. Gwnaethom alw am wahardd y defnydd o gynhyrchion mawn yma yng Nghymru pan wnaethom groesawu 12fed cynhadledd Rhaglen Mawndiroedd y DU IUCN (yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur) a gynhaliwyd yn ystod yn yr hydref ac a gafodd dderbyniad da. Rydym yn croesawu cytundeb y Gweinidog i wahardd gwerthu mawn a byddwn yn parhau i gyflwyno’r achos i fynd ymhellach o lawer yng Nghymru fel y gallwn ddiogelu’r cynefin gwerthfawr hwn.

Fel rhan o’n hymrwymiadau i addasu i’r newid yn yr hinsawdd, gwnaethom gwblhau gwaith mawr er mwyn sicrhau bod Llyn Tegid yn y Bala, llyn naturiol mwyaf Cymru, yn parhau'n ddiogel dros yr hirdymor. Er bod Llyn Tegid yn llyn naturiol, mae angen ei reoli dan ddeddfwriaeth cronfeydd dŵr gan fod ei argloddiau yn amddiffyn tref y Bala rhag llifogydd. Roedd y gweithgareddau’n cynnwys cryfhau argloddiau ac ailosod y cyfan o amddiffynfeydd creigiau glan y llyn. Mae hyn yn rhan o’n gwaith i reoleiddio Llyn Tegid o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, ac mae’n rhan o raglen ehangach barhaus o waith diogelwch cronfeydd dŵr ledled Cymru.

Mae gennym hefyd brosiectau ledled y wlad i gryfhau cydnerthedd safleoedd tirol a morol gwarchodedig Cymru, a ariennir drwy Raglen Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i atal a gwrthdroi colledion a dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau a rhoi Cymru ar sylfaen gadarn ar y llwybr i adfer byd natur. Mae prosiectau wedi cael eu cynnal ar dros 200 o SoDdGAau (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) ac maent yn amrywio o raddfa fach i raddfa tirwedd gyfan; o'r mynyddoedd i'r môr ac o ymchwil a chasglu tystiolaeth i weithredu ymarferol. Yn ogystal â’n gwaith ein hunain, rydym wedi gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru i gynnig grantiau i sefydliadau ledled Cymru i gyflawni eu huchelgeisiau bioamrywiaeth eu hunain. Ym mis Ionawr eleni, dyfarnwyd grantiau gwerth £3.78 miliwn i 17 o brosiectau i wella cyflwr a chydnerthedd y rhwydwaith o safleoedd tirol a morol gwarchodedig yng Nghymru. Roedd y prosiectau hyn hefyd yn rhoi cymorth i gymunedau o amgylch y safleoedd gwarchodedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth natur.

Rydym yn gweithio'n galed i gefnogi targed Llywodraeth Cymru o greu 43,000 hectar o goetiroedd newydd yng Nghymru erbyn 2030. Ar ôl prynu parseli o dir ledled Cymru i'w plannu, rydym yn chwilio am gyfleoedd i greu amrywiaeth o fathau o goetir a fydd yn darparu ystod o fanteision i'r amgylchedd, i fywyd gwyllt, ac i gymunedau lleol. Yn Nhynymynydd ar Ynys Môn ac yng Nghoed Abermorlais yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gymuned ffermio i helpu i hybu adferiad byd natur.

Eleni rydym wedi llwyddo i orfodi sawl erlyniad, a gosodwyd nifer o ddirwyon sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys erlyn Persimmon Homes a gafodd ddirwy o dros £433,000 ar ôl methu â rhoi mesurau priodol ar waith i atal sawl digwyddiad llygredd a effeithiodd ar Afon Gafeni yn Sir Fynwy yn 2019, ac atafaelu bron i £62,000 oddi wrth arweinydd ymgyrch anghyfreithlon hirsefydlog i botsio brithyll ac eog ar afon Teifi. Hefyd, cafwyd perchennog tir o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr ger Abertawe yn euog o gwympo dros wyth hectar o goetir yn anghyfreithlon.

Ond bu siomedigaethau hefyd. Yn dilyn yr ymchwiliad helaeth a thrwyadl i'r hyn a achosodd i drên ddod oddi ar y cledrau yn Llangennech, bu'n rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd i beidio ag erlyn gan nad oeddem yn gallu penderfynu heb amheuaeth resymol pwy oedd yn gyfrifol am achosi i'r wagen drên ddod oddi ar y cledrau. Er bod tystiolaeth yn nodi'r achos tebygol, roedd arbenigwyr cyfreithiol o'r farn ei bod yn annigonol i roi gobaith realistig o sicrhau euogfarn yn erbyn unigolyn neu gwmni penodol. Rhaid i ni wneud penderfyniadau ar sail gwerth cyhoeddus ac, yn anffodus, byddai mynd ar drywydd achos llys gan wybod nad oedd gobaith realistig o sicrhau erlyniad llwyddiannus yn ddefnydd amhriodol o arian cyhoeddus.

Mae ein Rhaglen Adfywio yn parhau i lywio ein ffyrdd o weithio ar ôl y pandemig er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad ystwyth, cydnerth a mwy effeithlon. Gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio, hyrwyddo llesiant staff ac arbedion ariannol, mae'r gwaith hwn wedi ystyried y ffordd orau i ni gefnogi cydweithwyr i weithio'n fwy hyblyg – megis sicrhau bod ein polisïau pobl yn adlewyrchu ac yn hwyluso ffyrdd newydd o weithio drwy ddull hybrid, ac yn harneisio datblygiadau technolegol fel bod staff yn gallu cael mynediad at wasanaethau'n ddiogel ar draws llawer o ddyfeisiau, gan gynnwys rhai personol. Rydym yn cwblhau strategaeth adeiladau, sy'n cwmpasu ein holl gyfleusterau, i addasu ein hadeiladau er mwyn diwallu ein hanghenion busnes yn y dyfodol, a bydd cyflawni'r strategaeth yn cynnwys cyfuno gofod swyddfa a chyfleusterau er mwyn adlewyrchu gofynion amgylchedd gwaith hybrid, tra'n cefnogi ein nodau datgarboneiddio. Rydym hefyd yn gwneud gostyngiadau mewn carbon ar draws ein fflyd, gan ddisodli diesel coch gydag olew llysiau wedi'i drin â dŵr (HVO) yn ein cerbydau gweithredol a gweithredu polisïau teithio newydd er mwyn teithio llai o filltiroedd mewn modd mwy gwyrdd.

Ein pobl yw ein hased pwysicaf. Fodd bynnag, mae recriwtio yn parhau i fod yn her sylweddol i ni ar draws meysydd proffesiynol allweddol, yn enwedig ym meysydd rheoli perygl llifogydd a pheirianneg. Nodwyd recriwtio fel un o'n risgiau strategol ac rydym wedi comisiynu cymorth allanol gan arbenigwyr i'n helpu i wella sut rydym yn recriwtio, ac rydym yn buddsoddi mewn atebion technolegol ac yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer

rheolwyr sy'n recriwtio. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod ein systemau a'n prosesau yn addas i'r diben, a bod ein cydweithwyr yn cael eu cefnogi, eu grymuso ac yn datblygu'r sgiliau ar gyfer y dasg sydd o'n blaenau.

Dim ond drwy angerdd, arbenigedd a chreadigrwydd ein pobl, a thrwy ysbrydoli ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i ymuno â ni ar y daith, y caiff y weledigaeth, y genhadaeth a'r amcanion llesiant a nodir yn ein cynllun corfforaethol eu gwireddu. Rhaid inni harneisio'r newid mawr mewn agweddau a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd a llunwyr polisi, a'r consensws cryf ar yr angen brys i weithredu mewn ffordd unedig er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd.

Mae cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru fel gwlad lle mae natur a phobl yn ffynnu gyda'i gilydd erbyn 2030 yn ddirfodol heriol. Ond i'n cydweithwyr yn CNC sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd Cymru, nid yw'n anodd dychmygu gweledigaeth lle mae byd natur a phobl yn ffynnu gyda'i gilydd. Rydym yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud a sut i'w wneud.

Nawr yw'r amser i weithredu ac i wneud hwn yn ddegawd tyngedfennol i gyflawni ar gyfer pobl a byd natur yng Nghymru, a ledled y byd.

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu** **18 Hydref 2023**

# Cyflwyno CNC

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio dros bobl Cymru, a'n dyletswydd yw ymgyrraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r egwyddorion arweiniol hyn yn sail i bopeth a wnawn, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio ein cysylltiadau ac yn dod â phobl ynghyd i greu a chyflawni canlyniadau a rennir ar gyfer natur.

Maent yn llywio sut mae ein cydweithwyr yn addasu ac yn ymateb i anghenion amrywiol ein cymunedau a'r amgylchedd, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar leoedd yn ein gwaith, cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy a chyfrannu at y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae cariad ac angerdd dros natur, gwybodaeth fanwl ac arbenigedd, yn ogystal â balchder mewn cefnogi cymunedau ledled Cymru i weithredu, yn agweddau yr ydym yn eu rhannu â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill.

Mae ein cynllun corfforaethol newydd wedi'i saernïo gyda'n cydweithwyr mewn golwg, gan adeiladu ar ein profiad a'n dysgu dros y degawd diwethaf, ac mae'n nodi ein blaenoriaethau hyd at 2030.

Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd y gallwn **ni** wneud gwahaniaeth ynddynt a lle'r ydym yn y sefyllfa orau i wneud hynny, gan ddefnyddio'n offerynnau, ein pwerau a'n hadnoddau i ysgogi camau gweithredu i gyrraedd targedau 2030, wrth weithio gydag eraill ar yr un pryd i ddefnyddio eu grym hwy i wneud gwahaniaeth.

Y tu hwnt i 2030, bydd cymdeithas yn wynebu dewisiadau anos ynglŷn â sut y bydd Cymru yn gallu cyrraedd ymrwymiadau 2050 ar gyfer yr hinsawdd a natur. Rydym yn dechrau ar y gwaith hwnnw nawr – yn nodi, profi a gwneud yr achos dros newid i'n gosod ar y llwybr cywir ar y cyd.

Mae ein hamcanion llesiant newydd yn mynd â ni at 2030 ac yn cwmpasu'r hyn y byddwn yn gallu ei gyflawni ein hunain, ond hefyd sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod Cymru'n cyrraedd y targedau rhyngwladol mwy uniongyrchol hyn.

## Ein gweledigaeth newydd

Byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd.

## Ein cenhadaeth newydd

Gweithredu ar y cyd, ac yn angerddol, er mwyn:

- adfer byd natur
- gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- atal llygredd hyd yr eithaf

... a hynny drwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Ein gwerthoedd newydd

Mae’n fraint inni wasanaethu pobl Cymru drwy fyw ein gwerthoedd:

- **Perthyn**: rydym ni'n gwerthfawrogi ein perthynas ddofn â'n cynefin, a thir a dŵr, a natur a chymunedau Cymru, ac rydym ni'n creu partneriaethau ystyrlon
- **Beiddgar**: rydym ni'n hyderus o ran defnyddio ein llais, yn gweithredu i wneud gwahaniaeth, ac yn arwain drwy osod esiampl
- **Ystyriol**: rydym ni'n gwrando er mwyn deall ac yn gofalu am ein gilydd, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a'r cynefinoedd sy'n ein cynnal
- **Dyfeisgar**: rydym ni'n archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau, yn arloesi i gyflymu newid, ac yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol.

Mae'r gwerthoedd newydd hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, y sefyllfa bresennol yn ogystal â'n dyheadau ar gyfer y dyfodol. Maent yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth a’n cenhadaeth newydd yn llwyddiannus. Bydd y gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd; byddant wedi'u hymwreiddio yn ein brand, yn y ffordd yr ydym yn adrodd ein storïau, yn ein dysgu a'n datblygu, ac yn y ffordd rydym yn arwain ac yn rheoli. Bydd ein holl sgyrsiau ac ymddygiadau wedi'u hymwreiddio yn y gwerthoedd hyn.

## Ein hamcanion llesiant hyd at 2023

Ein hamcanion llesiant, fel y'u nodir yn "Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol", oedd:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy mewn modd integredig
- Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon
- Hybu busnesau llwyddiannus a chyfrifol, sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Ar gyfer 2022/23, roedd ein blaenoriaethau strategol (isod) yn adlewyrchu tystiolaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys adroddiadau gan yr IPCC (y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd), COP 26 a'r cyfnod yn arwain at COP 15. Cafodd y blaenoriaethau strategol ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a natur eu hadlewyrchu gyda'i gilydd ar gyfer 2022/23:

- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, a chanolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar natur a datgarboneiddio
- Defnyddio ein harbenigedd, ochr yn ochr ag arbenigedd pobl eraill, gyda thystiolaeth o SoNaRR 2020, i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau arloesol ac integredig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur
- Gwella ansawdd dŵr drwy godi ymwybyddiaeth, defnyddio ein pwerau rheoleiddio a gorfodi yn effeithiol a gweithio ar y cyd ag eraill i leihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth ac iechyd dynol, gan gynnwys arferion amaethyddol a rheoli tir
- Ysgogi adferiad cyfiawn a gwyrdd yn dilyn y pandemig gan gynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid yn ein gwaith
- Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, gyda gweithlu sy'n llywio diwylliant perfformiad cryf ac sy'n darparu gwerth am arian a gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol i bobl Cymru

I gael gwybodaeth am sut mae ein sefydliad wedi'i strwythuro i gyflawni, gweler ein Hadroddiad atebolrwydd ('Ein Tîm Gweithredol' yn yr adroddiad hwn neu ar ein gwefan yma, am ragor o fanylion).

## CNC mewn ffigurau

Dyma ffigurau sy’n ymwneud â'n gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhywfaint o waith gydag eraill:

**Hyrwyddo amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy**

- 1,168 o safleoedd yng Nghymru wedi'u dynodi'n SoDdGA[1], AHNE, GNG a/neu Barc Cenedlaethol
- Rydym yn aelod o bob un o'r 13 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli’n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig**

- Rydym yn cynnal tua 3,800 o asedau rheoli perygl llifogydd
- Gwnaethom brosesu 2,737 o geisiadau am drwyddedau [2]

**Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau**

- Rydym yn rheoli 56 Gwarchodfa Natur Cenedlaethol (rhai ohonynt mewn partneriaeth ag eraill)
- Mae ein cyfrifoldebau yn ymestyn 12 milltir forol o'r arfordir
- Gwnaethom gyhoeddi 1,258 o drwyddedau rhywogaethau

**Lleihau’r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd**

- Rydym yn cynnal dros 400 cilometr o amddiffynfeydd rhag perygl llifogydd
- Gwnaeth 170 o ddigwyddiadau amgylcheddol achosi effaith difrifol (mawr neu arwyddocaol)
- Mae 141,000 o adeiladau wedi’u cofrestru i dderbyn ein rhybuddion llifogydd

**Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon**

- Ymwelodd mwy na 3 miliwn o ymwelwyr â rhai o’n safleoedd mwy poblogaidd yn 2022
- Gwnaethom dderbyn 300 o geisiadau am ganiatâd yn 2022 ar gyfer digwyddiadau[3] yn defnyddio tir rydym yn ei reoli
- Rydym yn gyfrifol am 25 o lwybrau ‘cerdded’ gradd hygyrch wedi'u harwyddo
- Rydym yn rheoli tair canolfan ymwelwyr

**Hybu busnesau llwyddiannus a chyfrifol, sy’n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi**

- Gwnaethom ymateb i 8,193 o ymgyngoriadau cynllunio
- Gwnaethom sicrhau 66 o erlyniadau am droseddau amgylcheddol yn 2022
- Gwnaethom gynhyrchu £34 miliwn mewn incwm o bren

**Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf**

- Cawsom dros 25,000 o ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu drwy e-bost [4]
- Gwnaethom nodi bod y bwlch cyflog modd rhwng y rhywiau yn 2.3% (yn adroddiad 2022/23)
- Gwnaethom fuddsoddi £272 miliwn er budd pobl ac adnoddau naturiol Cymru.

---

[1] SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), GNG (Gwarchodfa Natur Genedlaethol)
[2] drwy ein Gwasanaeth Trwyddedu
[3] (neu ddigwyddiadau lluosog)
[4] drwy ein Canolfan Cwsmeriaid

## Crynodeb o risgiau allweddol

Fel sefydliad sydd â rolau a chyfrifoldebau amrywiol, rydym yn ymwybodol bod risg yn agwedd gynhenid ar ein holl weithgareddau ac yn rhan o bopeth a wnawn. Mae gennym nifer o risgiau allweddol ac mae rheoli'r rhain yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn lliniaru'r effaith y gallent eu cael ar gyflawni ein hamcanion. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad atebolrwydd, mae ein risgiau wedi'u nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi drwy gofrestrau risg ar lefelau amrywiol ledled y busnes.

Ein risgiau strategol yw'r rhai a allai gael yr effaith fwyaf a mwyaf dwys ar gyflawni ein hamcanion. Yn gyffredinol, mae llawer o'r risgiau strategol hyn yn ymwneud ag effaith cyllid annigonol a nifer annigonol o adnoddau a phobl. Mae risgiau ychwanegol sy'n fwy penodol i'r sefydliad. Fel y disgwylir, felly, mae cynnwys y risgiau strategol a'u sgôr wedi aros yn weddol sefydlog dros y 12 mis diwethaf. Er bod yr holl risgiau ar ein cofrestr risg strategol yn allweddol i'r sefydliad, ceir crynodeb o'r rhai lle gwelwyd y newid mwyaf dros y flwyddyn ddiwethaf fel a ganlyn:

**Cyllid:** Cawn ein hariannu gan grant Llywodraeth Cymru ac yn ogystal â hyn, rydym yn cynhyrchu incwm o'n gweithgarwch masnachol ein hunain yn ogystal ag incwm o daliadau rheoleiddio. Mae effaith allanol chwyddiant cynyddol a chostau cynyddol y gadwyn gyflenwi ynghyd â phrinder cyflenwad wedi bod yn heriol ac mae angen mwy o ffocws er mwyn pennu ein prif flaenoriaethau. *Gweler ein 'Crynodeb cyllid' am fwy o wybodaeth ynghylch hyn.*

**Cydymffurfedd:** Mae'r risg yn canolbwyntio ar achosion o beidio â chydymffurfio â pholisïau sydd gennym ar waith i wneud ein gwaith yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn unol â gofynion y sector cyhoeddus. Rydym yn parhau i fonitro'r risg hon, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan berchennog y risg yn ogystal â chael ei harchwilio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r risg wedi cael ei hailddatblygu fel ei bod yn fwy eglur o ran y mesurau lliniaru allweddol arfaethedig a fydd yn ein helpu i gyflawni ein sgôr darged, sy'n cynnwys sicrhau bod ein polisïau'n glir, yn gryno ac yn hygyrch; darparu strwythur llywodraethu clir ar gyfer cyflawni; a datblygu ein swyddogaeth ail linell sy'n cynnwys monitro a dadansoddi ac, yn ein tro, darparu trosolwg a sicrwydd bod y risg yn cael ei rheoli'n effeithiol. Yn ogystal, rydym wedi darparu cyd-destun o ran y sgôr darged y gellir ei chyflawni yn y tymor byr, canolig a hir. *Gweler ein 'Effeithiolrwydd Rheolaethau Mewnol: Cydymffurfedd' am fwy o wybodaeth ynghylch hyn.*

**Ymateb i ddigwyddiadau:** Er mwyn cyflawni ein dyletswydd statudol fel ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, rydym yn dibynnu ar ein staff medrus, systemau a gweithdrefnau i reoli ein digwyddiadau. Mae newidiadau i nifer o gontractau staff wedi ychwanegu mwy o adnoddau at y system rota, a thrwy hynny wedi cynyddu ein gallu i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau. Mae'r prosiect Ymateb Cydnerth i Ddigwyddiad wedi cae ei sefydlu a bydd yn weithredol tan 2025. Nod y prosiect yw canfod dull cynaliadwy o sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti a galluogrwydd i gyflawni ein dyletswyddau rheoli digwyddiadau. Mae hyfforddiant rota wedi bod yn mynd rhagddo ar gyfer digwyddiadau blaenoriaeth 1 a bwriedir ei gwblhau erbyn diwedd 2023. *Gweler ein 'Effeithiolrwydd Rheolaethau Mewnol: Rheoli Digwyddiadau'' am fwy o wybodaeth ynghylch hyn.*

# Crynodeb ariannol

Cyllid a sut y gwnaethom wario ein harian.

Cyfanswm ein hincwm ar gyfer y flwyddyn oedd £116 miliwn ac mae hyn yn cynnwys £22 miliwn o grantiau gan Lywodraeth Cymru tuag at ystod o ganlyniadau. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £118 miliwn o gymorth grant, ac o'r swm hwnnw dyrannwyd £41 miliwn i weithgareddau rheoli llifogydd a risgiau arfordirol. Yn y datganiadau ariannol, caiff cymorth grant ei ystyried yn gyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid yn ffynhonnell incwm.

Yn 2022/23, cynyddodd ein gwariant o £255 miliwn i £272 miliwn. Mae'r newid mewn gwariant o ganlyniad i sawl rheswm gan gynnwys cynnydd mewn costau staff yn bennaf oherwydd ein dyfarniad cyflog, cyflawni ein rhaglenni cyfalaf a chostau cynyddol gwasanaethau a brynir i mewn. Dyma ddosbarthiad cyfanswm ein cyllid a gwariant:

- Cyllid fesul math: Cymorth grant Llywodraeth Cymru (50% / £118 miliwn), Taliadau (17% / £40 miliwn), Incwm Masnachol ac incwm arall (21% / £49 miliwn), Grantiau eraill Llywodraeth Cymru (9% / £22 miliwn), Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall (2% / £5 miliwn)
- Gwariant fesul math: Costau staff (46% / £125 miliwn), Gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn (12% / £33 miliwn), Gwariant arall (42% / £114 miliwn)

## Rheoli ein harian

Yn 2022/23, arhosodd ein cyllid 'craidd' gan Lywodraeth Cymru ar yr un lefel o ran arian parod â'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid arall yn ystod y flwyddyn ariannol oherwydd diffyg yn ein cyllideb. Hefyd, parhaodd Llywodraeth Cymru i roi cyllid grant penodol i ni ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u targedu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Dyblodd nifer ein rhaglenni a ariennir yn allanol – gan fuddsoddi mwy na £7 miliwn mewn rhaglenni a ariannwyd gan Ewrop a'r Loteri Dreftadaeth. Gwelwyd gostyngiad bach yn ein hincwm o bren wrth i'r sefyllfa economaidd effeithio ar y galw am bren ond gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd mewn incwm o ynni adnewyddadwy. Mae lefelau incwm o daliadau wedi cynyddu ond yn llai na'r gyfradd chwyddiant. Craffwyd ar y gyllideb gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd a'i chymeradwyo ganddynt.

## Edrych i'r dyfodol

Rydym newydd gyhoeddi ein cynllun corfforaethol hyd at 2030 a'n Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn / blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Rydym wedi gosod ein cynlluniau ar sail adnoddau disgwyliedig, gan gynnwys cymorth grant, taliadau, a dyraniadau ac amcangyfrifon incwm masnachol. Rydym newydd gael cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau i'n ffioedd trwyddedu a'n ffioedd ar gyfer gwneud cais a fydd yn dod i rym o 2023/24 ymlaen. Rydym hefyd wedi cynyddu ein taliadau parhau mewn rhai cyfundrefnau, lle bo angen, oherwydd effaith lefelau chwyddiant. Gall ein hincwm masnachol fod yn llai rhagweladwy gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid sy'n effeithio ar brisiau pren. Mae gennym ddyraniadau cymorth grant dangosol hyd at 2024/25 a fydd yn ein helpu gyda'n cynllunio. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi sicrwydd i ni y bydd y diffyg yn ein dyraniadau cymorth grant yn cael ei ddatrys yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd hyn

yn ei gwneud yn bosibl i ni barhau â’r lefelau gwasanaeth presennol a chynyddu’r lefelau gwasanaeth hynny mewn rhai lleoedd.

## Asedau anghyfredol

Roedd ein hasedau anghyfredol yn werth £2,769 miliwn ar 31 Mawrth 2023, sef 9% (£234 miliwn) yn fwy o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran fwyaf arwyddocaol yw gwerth yr ystad goedwig ac asedau biolegol, sy'n gyfrifol am £2,235 miliwn o'r cyfanswm, a phrisiad cryf y cnydau ar yr ystad oedd y prif reswm dros y cynnydd mawr.

## Taliadau masnachol a thaliadau eraill

Rydym wedi ymrwymo i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod, ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. Roedd perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan ychydig yn is na'r targed hwnnw (94%). Roedd perfformiad dros y chwe mis diwethaf yn 96% ar gyfartaledd, a chyflawnwyd 99% ym mis Mawrth 2023.

## Perfformiad dyledwyr

Yn ein gwaith parhaus yn rheoli dyled fasnachol bu cynnydd bach mewn dyled fasnachol, ac mae nifer cyfartalog y diwrnodau y mae'n cymryd i gwsmeriaid dalu wedi aros yn un diwrnod o gymharu â 2021/22. Mae hyn yn parhau i fod o fewn ein targed o ddau ddiwrnod.

Yn ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol bu gostyngiad yn lefel y ddyled o 2.9% yn 2021/22 i 6.5% ar ddiwedd 2022/23, a oedd yn dal yn is na’n targed o 7%. Byddwn yn gosod targed sy'n gwella ar 6.5% ar gyfer 2023/24.

Ar 31 Mawrth 2023, colled credyd ddisgwyliedig CNC oedd £0.2 miliwn.

## Busnes gweithredol

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn dangos ecwiti trethdalwyr cadarnhaol o £2,710 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru a thrwy gymhwyso incwm yn y dyfodol. Mae gennym Gynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes cymeradwy ar gyfer 2023/24. Felly, mae'n briodol mabwysiadu dull busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Pensiynau

Datgelir y rhwymedigaeth pensiwn yn y datganiadau ariannol ar sail Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r rhwymedigaeth wedi gostwng ar gyfer Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol o £54.4 miliwn i warged o £65.3 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Roedd Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amcangyfrif bod ganddi ddigon o asedau i fodloni 142% o'i rhwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2023.

## Archwilwyr

Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2022/23 oedd £199,000.

## Adroddiadau eraill

Fel sefydliad, rydym yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn rheolaidd, y gellir cael mynediad at nifer ohonynt yma gan gynnwys: yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon; adroddiad blynyddol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; ac adroddiad amgylcheddol. Mae strategaethau a chynlluniau ar gyfer Cymru ar gael yma, gan gynnwys ein cynllun corfforaethol newydd, ein Strategaeth fasnachol a'n Datganiadau Ardal (sy'n amlinellu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd yng Nghymru). Gellir cael mynediad at adroddiadau tystiolaeth ac ymchwil a gyhoeddwyd yma (gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR) ar gyfer Cymru).

## Crynodeb o berfformiad

Mae’r holl fesurau yn ein fframwaith perfformiad yn ymwneud â’n hamcanion llesiant a nodir yn ein cynllun corfforaethol ‘Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau yfory’) hyd at fis Mawrth 2023. Gwneir gwaith adrodd a chraffu ar adroddiadau pwnc ac adroddiadau mesurau yn nangosfwrdd ein Cynllun Busnes yn ystod sesiwn gyhoeddus agored yn ystod cyfarfodydd Bwrdd CNC bedair gwaith y flwyddyn, a gwneir rhagor o waith craffu ar y gwaith adrodd hwn drwy Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd blwyddyn 2022/23 roedd dangosfwrdd ein Cynllun Busnes yn cynnwys 31 o fesurau, ar draws 15 o bynciau. Ar ddiwedd y flwyddyn, o'r mesurau hynny roedd:

- 19 yn Wyrdd (h.y. wedi cyrraedd y targed neu'r garreg filltir)
- 12 yn Oren (h.y. yn agos at gyrraedd y targed neu’r garreg filltir)
- dim un yn Goch (h.y. wedi methu'r targed neu'r garreg filltir)

O gymharu’r perfformiad â’r flwyddyn flaenorol (2021/22), ar ddiwedd 2022/23 cawsom dri mesur gwyrdd yn llai, gyda phedwar mesur oren neu goch yn fwy (ac adlewyrchodd dangosfwrdd 2022/23 un mesur yn fwy yn gyffredinol[5]).

Gellir gweld ein hadroddiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yma (gweler ‘Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon’).

[5] Dylid nodi, oherwydd y gall natur, ffurf, manylion a chyd-destun mesurau ein dangosfwrdd amrywio i ryw raddau bob blwyddyn, ni fydd modd cymharu sefyllfa'r mesurau yr adroddir amdanynt yn uniongyrchol bob amser.

# Dadansoddi Perfformiad

Nod y rhan hon o'r adroddiad perfformiad yw adlewyrchu rhywfaint o'r hyn a gyflawnwyd eleni, gan gynnwys enghreifftiau sy'n adlewyrchu uchafbwyntiau penodol a meysydd a oedd yn destun her sylweddol.

Rydym yn amlinellu'r canlynol fesul Amcan Llesiant:

- y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn[6] ar gyfer pob un o'r mesurau yn nangosfwrdd ein Cynllun Busnes;
- rhywfaint o'n gweithgarwch â blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- nifer o enghreifftiau cyflawni cysylltiedig (y mae rhai ohonynt yn ymwneud â nifer o'n hamcanion llesiant)

Os oes cydberthynas rhwng y gwaith cyflawni â Nodau Llesiant Cymru mae'r rhain yn cael eu nodi (gweler y dull gweithredu ar gyfer hyn isod).

***Nodau Llesiant Cymru***: *Yn y rhan ganlynol o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon hwn rydym hefyd wedi nodi cydberthnasau rhwng rhai eitemau â Nodau Llesiant Cymru[7]. Rhestrir Nodau cysylltiedig dethol a dangosir unrhyw 'brif' Nodau cysylltiedig wedi'u tanlinellu.*

*Felly, pe bai'r llinell isod yn cael ei chynnwys ar gyfer eitem byddai'n adlewyrchu mai "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" yw'r 'prif' Nod cysylltiedig, a bod "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru Iachach" hefyd yn berthnasol*

*Nodau Cymru cysylltiedig: Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Mwy cyfartal, Iachach*

[6] I weld ein sefyllfa a adroddwyd ar gyfer yr holl fesurau hyn yn ystod y flwyddyn, gellir cyfeirio at bapurau Bwrdd CNC sydd wedi'u cyhoeddi yma.

[7] I gael gwybodaeth am Nodau Llesiant Cymru, gweler gwefannau Nodau Llesiant Cymru. Neu, i wybod mwy am berthnasedd y Nodau i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gweler Perthynas y Nodau Datblygu Cynaliadwy â Dangosyddion Cenedlaethol Cymru a Nodau Llesiant Cymru.

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy

Ein nod yw hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud – yn yr wybodaeth yr ydym yn ei darparu, o ran cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac wrth roi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith ar draws ein holl waith – er mwyn helpu pobl i wneud y mwyaf o'r manteision y mae'n eu cynnig yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun – nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar ddangosfwrdd ein **Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Bwrw ymlaen â Natur a Ni,* er mwyn paratoi gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050, gyda newid cytunedig yn yr amserlen. Statws y mesur: Oren

- *Pennu cyfeiriad strategol ar gyfer prosiectau* sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau a chyfleoedd y Datganiad Ardal a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Gwaith datblygu polisïau a deddfwriaeth rheoli tir Llywodraeth Cymru ar sail gwybodaeth. Statws* y mesur*:* Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol mae ein Cynllun Busnes newydd yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn 2050

**Fe wnaeth Natur a Ni gynnwys pobl, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru yn 2050. Drwy greu'r weledigaeth ar gyfer Cymru gyda phobl Cymru, gall pawb symud ymlaen â'r weledigaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn creu dyfodol gwell ar gyfer byd natur ac ar ein cyfer ni.**

Gwnaeth y rhaglen Natur a Ni gynnwys pobl, cymunedau a sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer 2050 a'r newidiadau y mae angen i bob un ohonom eu gwneud cyn 2030 a 2050.

Cafwyd dros 3,000 o ymatebion unigol yn dilyn ymgyrch ar-lein yn ystod gwanwyn 2022, a oedd yn nodi'r hyn y mae pobl ei eisiau, a'r hyn sy'n peri pryder iddynt, ar gyfer dyfodol ein hamgylchedd. Dros yr haf, fe wnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda chymunedau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol fel rhan o'r ymarfer ennyn cyfranogiad cychwynnol. Helpodd hyn ni i archwilio'r cymhellion a'r rhwystrau a oedd y tu ôl i weledigaethau a phryderon pobl ar gyfer y dyfodol. I weld y canfyddiadau, ewch i: www.naturani.cymru

Yn gynnar yn 2023 cynhaliwyd cynulliad dinasyddion i lunio'r weledigaeth. Roedd aelodau'r cynulliad yn cynrychioli amrywiaeth cymdeithas Cymru a chafodd y sesiynau eu cydlunio â sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ystod gytbwys o dystiolaeth. Mae'r weledigaeth a ddeilliodd o hyn yn disgrifio dyfodol lle mae byd natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd, gan gynnwys pa fuddion y mae hyn yn eu darparu, ac yn nodi meysydd allweddol ar gyfer newid er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

Roedd yr amcanion llesiant yn ein cynllun corfforaethol newydd yn adeiladu ar ganfyddiadau Natur a Ni.

Bydd y weledigaeth yn cael ei chyhoeddi yn ystod haf 2023 a bydd gwaith gyda sefydliadau partner yn parhau, i ganfod ymatebion i'r weledigaeth a'r camau i'w cymryd. Bydd CNC yn ymateb yn ffurfiol i'r weledigaeth, gan nodi ein rôl yn y gwaith o'i chyflawni.

Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u gwreiddio'n gadarn yn ein cynllun, a bydd y weledigaeth yn helpu i ddarparu ffocws hirdymor i bob corff cyhoeddus. Bydd gwerthusiad yn casglu'r gwersi allweddol a ddysgwyd ar gyfer pob corff cyhoeddus. Bydd gwerthusiad yn casglu'r gwersi allweddol a ddysgwyd ar gyfer CNC ynghylch arferion ymgysylltu, cyfranogi a chyfathrebu.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

## Trwydded forol wedi'i rhoi ar gyfer y fferm wynt arnofiol ar y môr gyntaf yng Nghymru

**Ym mis Chwefror 2023 rhoesom drwydded forol ar gyfer y fferm wynt arnofiol ar y môr gyntaf yng Nghymru. Mae ein gwasanaeth trwyddedu yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth i sicrhau bod gwaith rheoli cynaliadwy yn allweddol i'r gwaith o benderfynu ar geisiadau am drwyddedau.**

Mae Prosiect Erebus yn fferm ynni gwynt adnewyddadwy arnofiol ar y môr 100MW yn y Môr Celtaidd sy'n cynnwys hyd at uchafswm o saith tyrbin wedi'u lleoli ychydig dros y terfyn 12 milltir forol yn rhanbarth Alltraeth Cymru gyda llwybr ceblau allforio sy'n dod i'r lan ym Mae Gorllewin Angle, Sir Benfro. Roedd angen trwydded forol 'Band 3 EIA' ar Brosiect Erebus, y gwnaeth Gwasanaeth Trwyddedu CNC benderfynu arni, ynghyd â chydsyniad adran 36 gan Weinidogion Cymru yn dilyn argymhelliad gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Wrth ddod i'w penderfyniad, ildiodd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i benderfyniad Tîm Trwyddedu Morol ynghylch cydsyniad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Rhoddwyd y drwydded forol ym mis Chwefror 2023 ac mae'r gwaith adeiladu wedi'i gynllunio ar gyfer 2025.

Wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau morol, mae angen i CNC roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu'r amgylchedd, diogelu iechyd pobl, atal ymyrraeth â defnydd cyfreithlon o'r môr ac unrhyw faterion eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol.

Gwnaethom ystyried Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (2011) (fel y'u diwygiwyd), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wrth benderfynu ar Brosiect Erebus, sef y fferm wynt arnofiol ar y môr gyntaf yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod egwyddorion rheoli cynaliadwy yn cynnwys ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd, ac ystyried canlyniadau camau gweithredu dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Rydym yn cydnabod ymhellach mai un o amcanion rheoli gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu ac, wrth wneud hynny, ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Wrth benderfynu ar y drwydded forol ar gyfer Prosiect Erebus, sicrhaodd ein Tîm Trwyddedu Morol fod y datblygiad cywir yn cael ei ganiatáu yn y lle iawn.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang*

## Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy mewn modd integredig

Gall dull gweithredu sy'n gwbl integredig ar gyfer rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru ddwyn llawer o fuddion ar draws yr holl sectorau – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd eto. Ein nod yw rhoi'r dull hwn ar waith ar y tir a'r dŵr yr ydym yn eu rheoli ein hunain ac annog yr holl reolwyr tir a dŵr i fabwysiadu dull o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar ddangosfwrdd ein **Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Cyflwyno rhaglen i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol*, a chwblhau Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren. Statws y mesur*:* Oren
- *Cefnogi argymhellion archwiliad dwfn ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru,* ac mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd gan CNC ar gyfer y flwyddyn wedi'u cwblhau ar y cyfan. Statws y mesur: Oren
- *Creu coetir newydd ar ystad CNC,* gyda 164 hectar o goetir wedi'i sefydlu eleni, a chwe safle wedi'u sicrhau (207 hectar) ar gyfer creu coetir yn y dyfodol. Statws y mesur*:* Gwyrdd
- *Cadw'r ardystiad mewn perthynas â Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig,* heb unrhyw geisiadau am gamau unioni mawr. Statws y mesur*:* Oren
- *Rhoi mewnbwn i raglenni cynllunio cwmnïau dŵr*, ac ymateb i gynlluniau cysylltiedig. Statws y mesur*:* Gwyrdd
- Aildrefnu'r gwaith o *ailgynllunio ein rhwydwaith ansawdd dŵr croyw*. Disgwylir ei gwblhau nawr erbyn diwedd Mehefin 2024. Statws y mesur*:* Oren
- *Gweithio i leihau effaith maethynnau* yn afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; Cyhoeddi cyngor, diweddaru ein canllawiau a chefnogi'r gwaith o lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Statws y mesur*:* Oren
- *Gweithredu i adfer mawndiroedd Cymru*, gan gyflawni gweithgareddau adfer mawndir ar draws 629 hectar (gan gynnwys 85 hectar ar ystad CNC). Statws y mesur*:* Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Awdurdodiadau newydd – Wedi'u llofnodi, eu selio a'u cyflawni

**Rydym wedi dod â thynwyr dŵr a oedd wedi'u heithrio yn flaenorol i mewn i'r gyfundrefn drwyddedu er mwyn sicrhau bod dŵr yng Nghymru yn cael ei reoli'n gynaliadwy a bod gan CNC reolaeth reoleiddiol i sicrhau cydymffurfedd gweithgareddau'n sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd Cymru.**

Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cychwyn ar her sylweddol wrth gyflawni gofynion Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017. Ar 1 Ionawr 2018 gwnaeth newidiadau deddfwriaethol, a osodwyd yn Neddf Dŵr 2003, hi'n ofynnol i waith tynnu dŵr a oedd wedi'i eithrio'n flaenorol gael ei reoleiddio o dan drwydded newydd o'r enw 'awdurdodiad newydd'.

Cyn i'r newidiadau gael eu cyflwyno gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ddigwyddiadau cyhoeddus, drwy gyhoeddi a dosbarthu taflenni gwybodaeth a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy ddefnyddio gwybodaeth leol am weithgareddau tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol.

Yn y cefndir, roedd Tîm Trwyddedu Adnoddau Dŵr ein Gwasanaeth Trwyddedu a'r Timau Polisi Dŵr hefyd yn brysur yn creu'r hyn yr oedd cwsmeriaid mewnol ac allanol ei angen. Cafodd polisïau, canllawiau, hyfforddiant ac offerynnau newydd eu cyflwyno er mwyn cefnogi'r broses ymgeisio newydd.

Dilyswyd cyfanswm o 117 o geisiadau, ac yn 2020 aethom ati i wneud penderfyniad ar bob cais. Roedd penderfynu ar y trwyddedau hyn yn hynod heriol oherwydd bod y gweithgareddau o dan sylw yn ymwneud â gwaith tynnu dŵr a oedd eisoes yn digwydd. Cafodd mewnbwn technegol sylweddol o sawl maes o'r busnes ei ddarparu i gefnogi'r gwaith hwn. Oherwydd ymroddiad y staff ar draws ein sefydliad roeddem wedi gallu dod i benderfyniad ar bob cais erbyn 31 Rhagfyr 2022 sef yr amserlen ddeddfwriaethol.

Nawr bod trwydded gan y tynwyr dŵr hyn a oedd wedi'u heithrio yn flaenorol, gallwn ddechrau eu rheoleiddio, gan sicrhau y gellir cyflawni cydymffurfiedd a gwelliant. Gallwn nawr gofnodi, mewn ffordd fwy manwl gywir, y swm o ddŵr sy'n cael ei dynnu yng Nghymru gan ei gwneud yn bosibl inni wella'r gwaith o gynllunio adnoddau dŵr yn ein dalgylchoedd. Hyn i gyd er mwyn cynnal a gwella amgylchedd Cymru.

## Coetir newydd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru

**Yn 2022/23 fe wnaethom sefydlu 95 hectar o orchudd canopi newydd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru – gan wneud iawn am goetir a gollir ohono, a sicrhau ein bod yn cynnal adnoddau pren yn y dyfodol a'r ystod lawn o fuddion a ddarperir gan goetiroedd cyhoeddus.**

Mae ein rhaglen creu coetir yn gwneud iawn am goetir a gollwyd o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy – gan gaffael tir a sefydlu coetir newydd a fydd yn cael ei reoli fel rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru am byth. Ar ddechrau 2022/23, roedd coetir Cymru yn gorchuddio 310 mil hectar[8] (ffigur heb ei newid ers 2019), gyda 115 mil hectar o hwn yn cael ei reoli gan CNC fel rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Yn 2022/23 fe wnaethom sefydlu pedwar safle, arwynebedd gros o 164ha gan arwain at 95ha o orchudd canopi newydd. Gwnaethom waith ar dri safle (84ha) a grëwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau eu bod yn parhau i sefydlu'n llwyddiannus. Gwnaethom hefyd gaffael 207ha arall i'w plannu yn y tymor plannu i ddod.

Wrth nodi a chynllunio safleoedd newydd rydym yn ystyried yn ofalus amodau safleoedd, cynefinoedd presennol, tirwedd leol a chymunedau. Arweinir ein cynlluniau gan Safon Coedwigaeth y DU ac egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r holl goetiroedd sy'n rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio mewn perthynas â Safon Sicrwydd Coetir y DU (safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio rheolaeth coetir cynaliadwy).

Fel rhan o'n gwaith creu coetir yn 2022/23 fe wnaethom gynnal nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus ar ein cynlluniau; gan sicrhau bod anghenion cymdogion a chymunedau lleol yn cael eu hystyried, a bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ein cynlluniau. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys rhai agweddau arloesol yn y cynlluniau coetir a blannwyd gennym y llynedd, gan gynnwys perllannau cymunedol, safle arddangos tir pori coed a dechrau partneriaeth gymunedol newydd.

Egwyddor allweddol arall o'n gwaith i greu coetir yw sicrhau cydnerthedd. Plannwyd amrywiaeth eang o rywogaethau gennym, a gobeithiwn y byddant yn gallu gwrthsefyll amodau hinsoddol y safleoedd yn y dyfodol a chyfrannu at gydnerthedd cyffredinol Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Iachach, **Cydnerth**, Llewyrchus, Cymunedau cydlynus*

---

[8] Gweler 'Ystadegau Coedwigaeth 2022'

## Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau

Nododd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol na fydd llawer o ecosystemau yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill yn y dyfodol ac felly efallai na fyddant yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom – fel aer a dŵr glân. Rydym yn dynodi safleoedd arbennig yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ac yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er enghraifft – ond mae ein gwaith yn llawer ehangach na hyn. Ein nod yw cymryd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau i ystyriaeth yn ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un fath.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar **ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Rheoli rhaglenni i fynd i'r afael â chynefinoedd ledled Cymru a'u hadfer*. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Gweithredu dros rywogaethau sy'n dirywio* neu'r rhai sydd ar fin diflannu, gan gynnwys gwneud cais am gyllid yn y dyfodol. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cyflawni* camau gweithredu mewn perthynas â rheoli rhwydwaith *Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.* Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cwblhau camau â blaenoriaeth* ar draws Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yng ngofal uniongyrchol CNC, gan gwblhau 68% o'r rhain. Statws y mesur: Oren
- *Cwblhau camau gweithredu â blaenoriaeth* ar safleoedd gwarchodedig er mwyn gwella cyflwr nodweddion. Statws y mesur: Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Datganiadau Ardal – Lleihau llygredd gwasgaredig a gwella ansawdd dŵr

**Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru rydym wedi llwyddo i gyflawni cyfres o brosiectau yn 2022/23 sy’n mynd i’r afael â llygredd gwasgaredig a gwella ansawdd dŵr yn nalgylch Clwyd. Dim ond un enghraifft yw hon o’n gwaith ar hyn, mewn un rhan o Ogledd-ddwyrain Cymru.**

Mae'r Datganiadau Ardal rydym yn cyhoeddi'n adlewyrchu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd o Gymru. Rydym wedi cyhoeddi saith Datganiad Ardal, gan gynnwys Datganiad Ardal morol. Mae Datganiad Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru yn adlewyrchu nad oedd 68% o'i holl gyrff dŵr croyw (fel y'u diffinnir gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) yn cyflawni statws cyffredinol da neu well. Yn nalgylch Clwyd, mae nifer o brosiectau wedi’u cyflawni yn 2022/23 a oedd yn cynnwys mynd i’r afael â materion cysylltiedig mewn pedwar lleoliad gwahanol yn y Chwiler isaf, Hesbin, a Dŵr Iâl.

Targedwyd ymyriadau i wella ansawdd dŵr, ochr yn ochr â buddion amgylcheddol, bioamrywiaeth, iechyd a llesiant eraill yn unol â blaenoriaethau'r Datganiad Ardal. Datblygwyd yr ymyriadau yn rhaglen waith ar gyfer pob lleoliad. Roedd ymyriadau yn cynnwys y canlynol:

- Tynnu ffosffadau o gyrsiau dŵr, trwy ddileu mynediad stoc
- Lleihau llwyth gwaddod o erydu glannau
- Gwella statws cyflwr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob corff dŵr

Llwyddodd pob prosiect i gyflawni’r ymyriadau a nodwyd, a disgwylir iddynt helpu i wella ansawdd dŵr ym mhob corff dŵr a dalgylch ehangach Clwyd. Chwaraeodd y prosiectau ran bellach wrth gyfrannu at ddull dalgylch llawer mwy, gan ymestyn y ffensio ar gyfer coridorau glannau afon a gwblhawyd eisoes mewn mannau eraill gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd a ninnau.

Mae'r berthynas â phartneriaid hefyd wedi gwella o ganlyniad i'r prosiectau hyn, gan alluogi arferion mwy cydweithredol ac arloesol i gael eu hystyried yn y dyfodol i helpu i reoli tir yn gynaliadwy a gwella ansawdd dŵr.

Ledled Cymru, roedd gan 40% o 933 o gyrff dŵr wyneb a dŵr daear statws da yn 2021 – gwelliant o 3 phwynt canran o’r hyn a adroddwyd yn 2015 a gwelliant o 8 pwynt canran ers 2009.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

## Mynd i'r afael â gwaith heb ei ganiatáu ar afonydd a nentydd

**Mae ein ffocws ar atal a rheoleiddio niwed corfforol (niwed hydromorffolegol) i afonydd yn darparu gwell amddiffyniad i gynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw rhag gwaith niweidiol anawdurdodedig.**

Mae gan waith heb ei ganiatáu ar afonydd a nentydd yng Nghymru y potensial i achosi niwed hirdymor i gynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw, yn ogystal ag achosi problemau ychwanegol megis mwy o berygl llifogydd ac erydu. Mae'r gweithgareddau heb eu caniatáu a welwn wedi cynnwys treillio, gwaredu heigiau, adlinio cwrs dŵr, amddiffyn glannau'n amhriodol, sianelu a chwilio am aur.

Gan gydnabod y difrod posibl y gall y gweithgareddau hyn ei achosi, rhoddwyd proses newydd ar waith ar gyfer ymateb i'r digwyddiadau hyn fel rhan o'n Rhaglen Adfer Afonydd uchelgeisiol. Rydym yn ymateb i'r digwyddiadau hyn gyda blaenoriaeth uchel i atal gwaith ac atal niwed pellach, ac mae gennym amrywiaeth o opsiynau gorfodi, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau rheoleiddio. Gellir defnyddio'r hysbysiadau hyn i atal y gwaith ac i sicrhau bod unrhyw ddifrod a achosir yn cael ei unioni. Rydym wedi cyflwyno tua 40 o hysbysiadau o'r fath ers mis Mehefin 2021. Mae gennym hefyd yr opsiwn i fynd ar drywydd erlyniad os bydd digwyddiad arbennig o ddifrifol.
Rydym yn parhau i roi cyngor ar waith arfaethedig sy'n effeithio ar gyrsiau dŵr, i sicrhau bod tirfeddianwyr yn ymwybodol o'r holl ganiatadau angenrheidiol a'r mesurau gofynnol i osgoi effeithiau ar fioamrywiaeth, ansawdd dŵr a pherygl llifogydd. Yn ystod 2022/23, fe wnaethom hefyd gyflwyno hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'n staff ar gyfer delio â'r digwyddiadau hyn, a chynnal gwaith cyfathrebu rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth ymhlith tirfeddianwyr o'r angen am ganiatâd ar gyfer gwaith penodol.

Gwnaethom gyflwyno ein proses newydd ar gyfer delio â niwed hydromorffolegol mewn seminarau Adfer Afonydd Cymru a chynhadledd DU gyfan yn 2022, ac yn sgil hyn mae awdurdodau rheoleiddio o Loegr, yr Alban a Norwy wedi cysylltu â ni am ragor o wybodaeth a chyngor.

Byddwn yn parhau i atal gwaith heb ei ganiatáu rhag digwydd, ac yn annog y rhai sy'n dymuno gwneud gwaith i gysylltu â ni am gyngor yn y lle cyntaf – diogelu ein hafonydd a'n nentydd ar gyfer y dyfodol.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Cydnerth, Cyfrifol ar lefel fyd-eang*

## Datganiadau Ardal – Gweithio mewn partneriaeth drwy Grid Gwyrdd Gwent

**Mae Grid Gwyrdd Gwent yn bartneriaeth gydweithredol ranbarthol sydd wedi parhau i weithredu yn 2022/23 i wella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig, gan gysylltu pobl â natur ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn lleol ac ar raddfa tirwedd-i-ranbarthol.**

Mae'r Datganiadau Ardal rydym yn cyhoeddi'n adlewyrchu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd o Gymru. Rydym wedi cyhoeddi saith Datganiad Ardal, gan gynnwys Datganiad Ardal morol. Mae Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru yn adlewyrchu sut y defnyddiwyd dull panel tirwedd mewn perthynas â'r thema 'Cysylltu ein Tirweddau' a dynnodd ar arbenigedd partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, ynghyd â phartneriaethau eraill, wrth ei datblygu. Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn gydweithrediad rhanbarthol rhwng pob un o'r pum awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, Forest Research, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy a ninnau sy'n gweithio gyda'n gilydd gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni canlyniadau seilwaith gwyrdd ar raddfa lleol i dirwedd er llesiant Gwent.

Mae'r partneriaid wedi gweithio ar y cyd ar draws ein hamgylchedd adeiledig a naturiol i gyflawni rheolaeth well ar laswelltir a choetir sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau, gan gynnwys mentrau a arweinir gan y gymuned i ddiogelu a gwella cysylltedd a mynediad at natur. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu ffyrdd o weithio a datblygu ac integreiddio gwasanaethau a rennir ac arferion rheoli gorau (er enghraifft 'torri a chasglu') i sicrhau manteision lluosog gan gynnwys canlyniadau ystyriol o bryfed peillio "Nid yw Natur yn Daclus".

Mae'r ffyrdd cydweithredol ac integredig o weithio a'r gyfres o strategaethau a phrosiectau yn galluogi'r bartneriaeth i gyfrannu at gydnerthedd ein hadnoddau naturiol, gan ddarparu buddion iechyd a llesiant hanfodol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ar draws y rhanbarth – gan alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd a'u cyflawni'n lleol ac ar y raddfa tirwedd i ranbarthol.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y bartneriaeth yn parhau i gydweithio i ddarparu seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel ar raddfa leol i dirwedd er budd natur a phobl. Mae hyn yn cynnwys darparu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ar draws y rhanbarth i addasu i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Gan gydweithio, bydd partneriaid yn meithrin cydnerthedd o fewn a rhwng ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, yn cynyddu mannau gwyrdd hygyrch, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a llesiant, yn ogystal â gwella cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau sgiliau gwyrdd. Mae'r bartneriaeth yn cynnig ymateb ar y cyd i'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan gefnogi Gwent fwy cynhwysol, gwyrddach a chydnerth.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymunedau cydlynus*

## Lleihau’r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd

Rydym yn cynghori ar y tebygolrwydd o lifogydd, yn ei ragweld ac yn ei fonitro ac, yn ogystal â datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, rydym yn cefnogi cymunedau lleol i leihau eu risgiau. Yn yr un modd, rydym yn cynghori ac yn rheoleiddio diwydiant a safleoedd gwastraff i leihau'r tebygolrwydd y bydd llygredd yn mynd i mewn i'r amgylchedd naturiol ehangach. Rydym hefyd yn darparu ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n digwydd er gwaethaf ymdrechion gorau. Gan anelu at fod yn gadarn ond yn deg, rydym yn cynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau ac yn defnyddio'n hystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol pan fo angen.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar ddangosfwrdd ein **Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Ymateb i ddigwyddiadau* gan ragori ar ein targed o 95% ar gyfer ymateb o fewn pedair awr i ddigwyddiadau a ddosbarthwyd i ddechrau yn ddigwyddiadau categori 'uchel. Statws y mesur*:* Gwyrdd

- *Gweithredu i leihau llygredd o fwyngloddiau metel* gan asesu safleoedd risg uchel a'u hadfer. Statws y mesur*:* Oren

- *Cynnal asedau perygl llifogydd,* gan gynnal y cyflwr targed ar gyfer 98.3% o'r asedau mewn systemau risg uchel. Statws y mesur*:* Gwyrdd

- *Lleihau'r perygl o lifogydd (*neu wedi sicrhau amddiffyniad parhaus) ar gyfer 1,647 eiddo drwy gynlluniau cyfalaf. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Gweithredu camau adolygu llifogydd*, gyda 59 wedi'u cwblhau, ac adroddiad wedi'i gynllunio i ymdrin â'r camau gweithredu tymor hwy a'r gwaith sy'n weddill sydd angen ei gwblhau. Statws y mesur*: Oren*

- *Ymgynghori ar gynlluniau rheoli perygl llifogydd*, a disgwylir cyhoeddi cynlluniau erbyn mis Medi 2023. Statws y mesur*:* Oren

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Cynhyrchu ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

**Bydd ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd i Gymru wedi'i ddiweddaru yn nodi'r hyn sydd mewn perygl o lifogydd ac yn nodi amcanion, blaenoriaethau a mesurau i reoli'r perygl o lifogydd dros y chwe blynedd nesaf.**

Yn 2022/23 fe wnaethom ddatblygu ac ymgynghori ar gyhoeddi ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd nesaf i Gymru. Mae'r cynllun hwn yn un o ofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 ac mae'n cynrychioli ein cydymffurfedd ag ail gylch y camau gweithredu gofynnol o dan y rheoliadau hyn.

Mae'r cynllun drafft yn cynnwys ein hamcan ar gyfer rheoli perygl llifogydd dros gyfnod y cynllun nesaf hwn, gan gynnwys 14 blaenoriaeth o ran sut y byddwn yn mynd ati i wneud ein gwaith, 58 o fesurau neu gamau gweithredu cenedlaethol i'w cymryd ar lefel strategol a 264 o fesurau seiliedig ar leoedd lleol o gamau gweithredu arfaethedig mewn dros 150 o gymunedau gwahanol ledled Cymru.

Mae'r cynllun drafft yn cynnwys yr asesiad diweddaraf[9] o berygl llifogydd ledled Cymru, sy'n dangos cyfanswm o 72,170 eiddo mewn perygl o lifogydd o'r môr a 91,877 eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd.

Fe wnaethom ymgysylltu ac ymgynghori ar draws ein sefydliad wrth ddatblygu'r cynllun a rhannwyd y cynllun gyda'n partneriaid a'r cyhoedd drwy ymgynghoriad 13 wythnos ffurfiol ym mis Mawrth 2023.

Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori ym mis Mai byddwn yn ystyried y sylwadau a'r adborth a gyflwynwyd drwy'r ymgynghoriad i gwblhau ein cynllun y disgwyliwn ei gyhoeddi erbyn mis Medi 2023.
*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

[9] Yn seiliedig ar ffigurau Rhagfyr 2021

## Yr unig reoleiddiwr ar gyfer Kronospan

**Ym mis Hydref 2022, gwnaethom fodloni gofynion Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a chyfuno dwy drwydded reoleiddio yn un, gan ddod yr unig reoleiddiwr ar gyfer ffatri byrddau gronynnau Kronospan yn y Waun, Gogledd Cymru.**

Mae Kronospan Limited wedi bod yn gweithredu ffatri gweithgynhyrchu byrddau gronynnau ac MDF yn y Waun, Gogledd Cymru, ers blynyddoedd lawer. Rheoleiddir gweithgareddau ar y safle gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 er mwyn rheoli lefelau llygryddion a allai fod yn niweidiol a sicrhau bod technegau gweithredu yn unol â datblygiadau technegol a safonau diwydiant, sef y technegau gorau sydd ar gael.

Mae'r gweithgareddau ar y safle wedi bod yn destun cyfarwyddiadau amrywiol gan Lywodraeth Cymru. Rhannodd y cyfarwyddyd cyntaf yn 2003 y gwaith rheoleiddio rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach wedi'i gynnwys o fewn CNC). Roedd y cyfarwyddyd diweddaraf yn 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyfuno'r ddwy drwydded reoleiddio ar gyfer y safle yn un, ac yna cyflawni'r holl swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â'r drwydded honno.
Yn 2022 fe wnaethom gwblhau asesiad manwl pedair blynedd o'r gweithgareddau presennol a'r rhai newydd ar safle Kronospan, gan ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae ein hasesiad trylwyr o allyriadau llygryddion ac effeithiau posibl gweithgareddau o fewn safle Kronospan, yn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol wrth i safonau a therfynau allyriadau gael eu tynhau. Dyroddwyd y drwydded gyfunol i'r gweithredwr ym mis Hydref 2022 ac mae'n cynnwys nifer o amodau gwella i'r gweithredwr eu rhoi ar waith o fewn 18 mis i ddyroddi'r drwydded.

Mae hyn yn golygu mai CNC bellach yw'r unig reoleiddiwr amgylcheddol ar gyfer y safle a bydd yn cyflawni'r holl swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â'r drwydded yn y dyfodol.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

## Trên yn dod oddi ar y cledrau yn Llangennech

**Ar ôl i drên ddod oddi ar y cledrau ym mis Awst buom yn gweithredu gyda phartneriaid i amddiffyn pobl a chymunedau.**

Daeth yr ymchwiliad cysylltiedig i ben ym mis Chwefror 2023. Ar Awst 26, 2020, daeth trên cludo nwyddau 2,500 tunnell oddi ar y cledrau ar draethlin aber Afon Llwchwr ger Llangennech, Sir Gaerfyrddin, gan ollwng o 330,000 litr o ddiesel a chynnau thân a oedd yn bygwth amgylchedd aberol a phrif bysgodfa gocos Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) arbennig Cilfach Tywyn sy'n hynod sensitif a phwysig yn rhyngwladol.

Cafodd y digwyddiad effaith andwyol ar yr amgylchedd ac effeithiodd ar fusnesau lleol a thwristiaeth. Cafodd pysgodfeydd cregyn eu cau am saith wythnos fel rhagofal yn dilyn cyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bu'r rhan o'r rheilffordd ar gau am saith mis.

Cafodd trychineb amgylcheddol ei osgoi diolch i waith helaeth a wnaed fel rhan o waith adfer gan gontractwyr Adler and Allan Ltd ar ran DB Cargo a'u hyswirwyr, gyda

chefnogaeth Jacobs ar ran Network Rail, gyda chymorth technegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, yr Awdurdod Glo, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn dilyn y digwyddiad bu dau Adolygiad Digwyddiad Mawr ar wahân a amlygodd bwyntiau dysgu pwysig a'r cydweithio a chyfathrebu rhagorol rhwng y prif bartneriaid proffesiynol, gan gynnwys CNC a Network Rail. Ym mis Chwefror 2023 daeth ein hymchwiliad i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ddyfarnu euogfarn lwyddiannus ac y byddai erlyn yn ddefnydd diofal o arian cyhoeddus. Bydd y bysgodfa'n parhau i gael ei monitro'n fisol tan fis Ebrill 2023 i sicrhau bod lefelau hydrocarbon yn parhau ar lefelau cefndirol diogel. Mae'r gwaith i ddiogelu'r bysgodfa yn cyd-daro ag adolygiad o'r ddau Gynllun Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

## Lleihau perygl llifogydd a chynnal amddiffyniad rhag llifogydd trwy ein gwaith cyfalaf

**Cyfrannu at y gwaith o leihau perygl llifogydd i gymunedau ledled Cymru drwy gynnal ein rhwydwaith o dros 400km o amddiffynfeydd llifogydd yng Nghymru ac adeiladu rhai newydd.**

Yn ystod 2022/23 fe wnaethom fuddsoddi dros £20miliwn trwy ein rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd, gan gyflawni gwelliannau sylweddol i'n rhwydwaith amddiffyn rhag llifogydd a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfres o brosiectau a fydd yn cael eu cyflenwi yn y dyfodol. Mae dros 26,000 o eiddo yng Nghymru wedi'u hasesu'n flaenorol fel rhai sydd mewn perygl mawr o lifogydd o afonydd a thros 48,000 o eiddo mewn perygl mawr o'r môr.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni roedd cwblhau gwaith diogelwch cronfeydd dŵr yn y Bala, Y Bont-faen a Chyffordd Llandudno, sydd wedi sicrhau gwarchodaeth barhaus i dros 1,100 o eiddo a sicrhau bod ein strwythurau yn parhau i gydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr (1975). Rydym hefyd wedi cynnal prosiectau atgyweirio ac adnewyddu llai ledled Cymru sydd wedi bod o fudd i 500 o eiddo arall.

Rydym wedi cwblhau gwaith gwella yn Llanfair Talhaearn i leihau'r perygl o lifogydd i'r gymuned. Mae'r pentref wedi dioddef digwyddiadau llifogydd niferus yn y degawdau diwethaf a bydd y gwelliannau i strwythurau yn y pentref ac i fyny'r afon yn lleihau'r risg i 33 eiddo.

Mae gwaith datblygu prosiect a ddatblygwyd o fewn rhaglen 2022/23 yn debygol o arwain at leihad mewn perygl llifogydd i dros 3,400 eiddo yn y tymor canolig, h.y. yn y 5-10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau adeiladu mawr fel Stryd Stephenson (Casnewydd) a Rhydaman (Sir Gaerfyrddin) a fydd yn lleihau perygl llifogydd i dros 1,000 o adeiladau yn y 2-3 blynedd nesaf. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y ddau gynllun yn 2022/23 a bydd yn parhau tan 2024.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymunedau cydlynus*

## Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon

Yn ogystal â darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer hamdden ar y tir yr ydym yn ei reoli ein hunain, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog pawb i fynd allan i'r awyr agored ledled Cymru a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cefnogi prosiectau cymunedol ac yn helpu pobl i ddysgu am werth yr amgylchedd naturiol, ei bwysigrwydd mewn bywyd o ddydd i ddydd, a'i ran yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar **ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Gweithio i ddatblygu a gweithredu rhaglen* i archwilio Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig (yng Ngogledd Ddwyrain Cymru). Statws y mesur*:* Gwyrdd
- *Cyflwyno rhaglen lawn* o brosiectau hyfforddi, adnoddau a chyfathrebu y mae dros 1,000 o unigolion wedi cael mynediad iddynt. Statws y mesur*:* Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes newydd yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Datganiadau Ardal – Cefnogi llesiant trwy lythrennedd morol

**Er mwyn i ddinasyddion Cymru fyw bywydau iachach a mwy bodlon, mae angen inni sicrhau ein bod yn byw'n gynaliadwy ac yn cefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd yn ein holl adnoddau naturiol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i feithrin llythrennedd morol i gefnogi blaenoriaethau Datganiad Ardal Morol.**

Mae'r Datganiadau Ardal rydym yn eu cyhoeddi'n adlewyrchu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd o Gymru. Rydym wedi cyhoeddi saith Datganiad Ardal, gan gynnwys Datganiad Ardal morol. Nododd y Datganiad Ardal morol *"Ailgysylltu pobl ag arfordiroedd a moroedd Cymru"* fel blaenoriaeth allweddol a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn cefnogi dull cydweithredol a chydgynhyrchiol o feithrin llythrennedd morol drwy Bartneriaeth Arfordir a Moroedd Cymru – partneriaeth strategol sy'n dod â llu o bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n gweithio o amgylch arfordiroedd a moroedd Cymru at ei gilydd.

Yn ei hanfod, llythrennedd morol yw "deall eich dylanwad unigol a chyfunol ar y môr, a'i ddylanwad arnoch chi". Amlygodd cyfranwyr gweithdy cychwynnol ym mis Mehefin 2022 yr angen am weledigaeth ar gyfer llythrennedd morol yng Nghymru. Ers hynny, rydym wedi datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr llythrennedd morol, sy'n ymwneud â gwaith llythrennedd morol cenedlaethol a rhyngwladol, sydd wedi parhau i gyfarfod trwy weithdai,

cyfarfodydd ar-lein, sesiynau wyneb yn wyneb a hybrid i ddechrau llunio strategaeth llythrennedd morol a chynllun gweithredu ar gyfer Cymru.

Gweledigaeth ddrafft ar gyfer y strategaeth yw bod *“pobl Cymru yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn cael mynediad at fanteision amgylchedd morol ac arfordirol Cymru, gan wneud penderfyniadau yn eu bywyd o ddydd i ddydd sy’n cefnogi ei dyfodol cynaliadwy”.* Mae amcanion allweddol y cynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys hyrwyddo mynediad diogel a theg i'n harfordiroedd a'n moroedd; galluogi pobl i werthfawrogi'r ystod eang o fuddion o amgylcheddau morol ac arfordirol; a hyrwyddo newidiadau yn ymddygiad unigolion ac mewn datblygu polisïau lleol a strategol sy'n cefnogi’r gwaith o reoli a defnyddio’n moroedd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae’r grŵp yn gweithio tuag at rannu gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu drafft erbyn diwedd 2023.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy Cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau Cydlynus*

## Pobl yn mwynhau eu hamgylchedd lleol

**Rydym yn parhau i annog a chefnogi pobl i fynd allan i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys drwy wneud gwelliannau pellach ledled Cymru ar gyfer safleoedd rydym yn eu rheoli. Rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Cyflwyno mwy o safleoedd Ystad Coetir Llywodraeth Cymru i’r cynllun Coedwigoedd Cenedlaethol fesul cam
- Gwella profiad ymwelwyr mewn coetiroedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, drw wella arwyddion, arwyddbyst a byrddau dehongli wrth ymyl y llwybr ar gyfer 266 o lwybrau ag arwyddbyst ar yr ystad rydym yn ei rheoli
- Arddangos dehongliad treftadaeth newydd yn ein canolfannau ymwelwyr, gan esbonio arwyddocâd diwylliannol nodweddion y safleoedd hyn
- Cynnal 47 o lwybrau beicio mynydd
- Gweithio gyda grwpiau lleol i reoli llwybrau beicio mynydd gwyllt
- Gosod cyfres o 25 o gownteri ymwelwyr yn ein safleoedd prysuraf
- Darpu gwybodaeth newydd ar-lein ynghylch hygyrchedd safleoedd a llwybrau i ymwelwyr – gan alluogi pobl i benderfynu pa rai fyddai orau iddynt ymweld â nhw
- Creu a hyrwyddo dwy ffilm am ymweld â'n coetiroedd a'n gwarchodfeydd
- Cynhyrchu taflen newydd yn hyrwyddo ymweliadau â'n coetiroedd a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ledled Cymru
- Gwella'r ystod o ddelweddau sydd gennym – sy’n dangos bod mwy o bobl yn ymweld â mwy o safleoedd
- Darparu gwybodaeth ar-lein i ymwelwyr drwy'r tudalennau Ar Grwydr ein gwefan, gan gynnwys lleoedd i ymweld â nhw, pethau i'w gwneud a diweddariadau statws mewn perthynas â safleoedd (e.e. cau safleoedd dros dro)

Gwnaethom barhau i groesawu ceisiadau caniatâd ar gyfer digwyddiadau hamdden, gan gynnwys beicio, rhedeg, marchogaeth a thriathlonau – gan annog a chefnogi ymarfer corff yn yr awyr agored ar draws y safleoedd rydym yn eu rheoli. Buom yn gweithio ar ffurflen gais well newydd a gwasanaeth gwirio ar-lein, i helpu cwsmeriaid sy'n gwneud cais am

ganiatâd i wneud gweithgaredd. Gwnaethom hefyd ddechrau datblygu strategaeth hamdden i'w chyhoeddi ym mis Mehefin 2024.

Rydym wedi bod yn cynllunio gwelliannau pellach i'r gefnogaeth a roddir gennym i grwpiau coetir cymunedol, gyda Llais y Goedwig yn cefnogi prosiectau newydd a chyfredol gan gynnwys y canlynol: Coed y Bont, Coetir Ysbryd Llynfi, Llyn Parc Mawr a Golygfa Gwydyr. Mae grwpiau coetir cymunedol o'r fath yn cynnig llawer o fanteision, e.e. meithrin tîm, ymarfer 'campfa werdd', cyfle i gwrdd â phobl eraill yn eich cymuned, gwneud ffrindiau a bod yn rhan o rywbeth cadarnhaol – oll yn cyfrannu at well iechyd meddwl a chorfforol.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

## Hybu busnesau llwyddiannus a chyfrifol, sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Rydym am i Gymru gael ei chydnabod fel lle gwych i wneud busnes, sy'n ymgorffori twf gwyrdd, sectorau newydd, ymchwil ac arloesedd. Yn ogystal â datblygu ein gweithgareddau masnachol ein hunain, rydym am annog busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a gweithio tuag at economi gylchol. Rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddiol – trwyddedu a monitro i wirio cydymffurfedd a gorfodi – i amddiffyn yr amgylchedd naturiol ac i sicrhau nad yw busnesau cyfreithiol yn cael eu tanseilio.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y cynnydd ar **ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Dyroddi trwyddedau*, gydag 86% o drwyddedau wedi'u dyroddi o fewn yr amserlenni statudol. Statws y mesur: Oren
- *Cynnig 719,700 m$^3$ o bren* i'r farchnad. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cynnal asesiadau pellach lle bu achosion o dorri gofynion cydymffurfedd*, gan fynd ar drywydd achosion o dorri amodau categori 1 a 2 o fewn chwe mis. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Penderfynu ar ymatebion gorfodi priodol* mewn perthynas â throseddau amgylcheddol o fewn tri mis. Statws y mesur: Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Adolygiad o drwyddedau llosgi gwastraff wedi'i gwblhau

**Rydym wedi adolygu trwyddedau ar gyfer gweithfeydd llosgi gwastraff mawr yng Nghymru yn ystod 2022 er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn perfformio i'r safonau amgylcheddol uchaf.**

Gwnaethom adolygu trwyddedau yn erbyn arferion gorau diweddaraf y diwydiant sy'n sicrhau bod y diwydiant llosgi gwastraff yn parhau i ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael i atal neu leihau llygredd ac effeithiau ar yr amgylchedd. Gallai'r technegau hyn gynnwys y dechnoleg a ddefnyddir a'r ffordd y caiff gosodiad ei gynnal, ei weithredu a'i ddatgomisiynu.

Mae pum safle llosgi gwastraff yng Nghymru, gan gynnwys dau losgydd gwastraff dinesig, dau losgydd biomas ac un llosgydd gwastraff clinigol. Bydd yn rhaid i bob un ohonynt fodloni cyfyngiadau llymach ar y llygryddion y caniateir iddynt eu rhyddhau yn ogystal â gwneud gwaith monitro ychwanegol.
Ar draws yr holl safleoedd mae'r cyfyngiad ar allyriadau ar gyfer deunydd gronynnol wedi'i ostwng 50%. Ar safleoedd y ddau losgydd gwastraff dinesig mae'r cyfyngiad newydd ar allyriadau mercwri yn golygu gostyngiad o 60%, ac ar un o’r safleoedd mae'r cyfyngiad ar ocsidau nitrogen wedi'i dynhau gan 55%.

Drwy ychwanegu amod gwella at bob trwydded, mae'n ofynnol bellach i weithredwyr ymchwilio i leihau ocsidau nitrogen y tu hwnt i'r safonau presennol, ac mae'n ofynnol i bob safle roi cynlluniau rheoli newydd ar waith mewn perthynas â gweithrediadau annormal, gweithrediadau cychwyn a gweithrediadau cau.

Ar y cyfan, mae amodau newydd y trwyddedau yn sicrhau ein bod yn parhau i gael offeryn rheoleiddio effeithlon, sy'n ysgogi gwelliannau parhaus yn y dyfodol.

Nodau Cymru cysylltiedig: *Mwy cyfartal*, *Iachach*, *Cydnerth*, *Llewyrchus*, *Cyfrifol ar lefel fyd-eang*, *Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*, Cymunedau cydlynus

## Cefnogi seilwaith coedwigoedd Cymru

**Mae ein Fframwaith Adeiladu Ffyrdd Coedwig yn fframwaith gwerth £36m a lansiwyd gennym yn 2022 ar gyfer creu llwybrau coedwig, ffyrdd, pontydd a seilwaith coedwigaeth cysylltiedig arall ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru; er mwyn gwneud cynaeafau pren yn bosibl yn y dyfodol a rheoli'r ystad.**

Mae cynaeafu pren yng Nghymru yn creu manteision lluosog i economi Cymru; yn cefnogi diwydiant lleol ac yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru, gan gynnwys yn ein cymunedau gwledig. Mae’r sector coedwigaeth yng Nghymru yn ei gyfanrwydd werth dros £450 miliwn i'r economi.[10]

O dan y fframwaith, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gwbl ymrwymedig i leihau allyriadau carbon, roedd yn ofynnol i gynigwyr ddangos mentrau cysylltiedig yr oeddent yn ymgymeryd â nhw. Roedd hyn yn cynnwys safonau allyriadau eu fflyd a'u cynlluniau i

[10] Gweler **Cyfoeth Naturiol Cymru / Pam defnyddio pren?**

wella'r fflyd ac ymrwymiad i ddarparu data tanwydd rheolaidd i ni, fel y gellir mesur gwelliannau.

Yn ogystal â seilwaith coedwigaeth sy'n darparu ar gyfer cynaeafu pren, pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n weithredol ar gyfer hynny, mae llawer ohono'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden, gan ddarparu mannau i'r cyhoedd gadw'n heini a cherdded neu feicio; gan greu cyfleoedd twristiaeth cysylltiedig mewn ardaloedd coedwigaeth a gefnogir gan ein canolfannau ymwelwyr.

Mae contractau, yn cynnwys y rheini ar gyfer ailstocio coedwigoedd, paratoi tir ar gyfer plannu, a chyflenwi gwasanaethau plannu coed, hefyd yn rhan o'n dull o gynnal y cylch coedwigaeth. Mae'r contractau hyn yn cefnogi lefelau cynaeafu pren cynaliadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru fel y nodwyd gennym mewn cynllun gwerthu a marchnata pren, sy'n cyd-fynd â gofynion safonau perthnasol, gan gynnwys Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

## Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Rydym am fod y sefydliad gorau y gallwn fod ar gyfer ein staff, ein cwsmeriaid a'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi mynd drwy newidiadau sylweddol fel sefydliad. Gwnaeth cwblhau ein strwythur staffio ein galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu'n sefydliad i gefnogi staff a chwsmeriaid i fodloni amcanion personol a busnes.

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

Gan fyfyrio ar y **cynnydd ar ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23,** gwnaethom y canlynol:

- *Gweithredu i ddatblygu fflyd ac ystad adeiladau allyriadau isel*, sydd wedi'u haddasu i'r hinsawdd. Statws y mesur*:* Oren

- *Darparu cyflwyniadau a thystiolaeth* mewn perthynas â llywodraethiant amgylcheddol. Statws y mesur*:* Gwyrdd

- *Cyflawni'r gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant*, gan gychwyn pob un o’r camau gweithredu ar gyfer blwyddyn un o'n strategaeth ‘Gyda'n Gilydd’. Statws y mesur*:* Gwyrdd

Gan edrych i'r dyfodol, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa nifer o'r mesurau terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2022/23** a ganlyn …

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym am fod yn sefydliad lle mae pawb yn teimlo y gallant gymryd rhan – sy'n cael ei gydnabod fel bod yn agored i syniadau, safbwyntiau ac arloesedd newydd – sy'n gynhwysol a chynrychioliadol o Gymru**

Roedd ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn nodi ein hymagwedd ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud y canlynol:

- gweithio ar y cyd â Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol ym mis Mawrth 2022 i ddeall yn well y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig i wella eu cysylltiad â byd natur ac arallgyfeirio sector yr amgylchedd yng Nghymru.
- hwyluso gweithdy gydag uwch-arweinwyr o Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol ym mis Tachwedd 2022, a oedd yn archwilio ffyrdd o weithio ac yn datblygu camau gweithredu hirdymor i ymgysylltu â grwpiau ethnig wedi'u hymyleiddio. Bydd y gwaith hwn yn ategu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru

Llywodraeth Cymru drwy gydweithio ar gamau y gallwn eu cymryd nawr ac yn y dyfodol.

- gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, gan ddatblygu camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth o ddata a "phrofiadau byw" pobl o leiafrifoedd ethnig o bob rhan o Gymru, gan gynnwys ar y newid yn yr hinsawdd, materion gwledig, a'r amgylchedd.
- cynnwys ein Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sydd â chynrychiolaeth o bob rhan o'n sefydliad ac sydd wedi darparu mewnwelediad gwerthfawr.

Rydym hefyd wedi gwneud defnydd o'n rhwydweithiau staff, sy'n chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu ein polisïau a'n gweithdrefnau gan helpu i wneud y sefydliad yn fwy cynhwysol – drwy rannu profiadau a gwybodaeth. Un enghraifft o hyn oedd lansio ein 'Pasbort Gwaith a Llesiant'. Defnyddir y pasbort gan staff sy'n ceisio esbonio sut mae gwaith yn effeithio ar eu hamgylchiadau personol, i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd personol mewn ffordd well, hwyluso sgwrs gyfrinachol gyda rheolwr am hyn – gan helpu i ddeall amgylchiadau, trafod, a chytuno ar addasiadau – gan gyfrannu at iechyd corfforol, meddyliol a llesiant staff. Dechreuwyd defnyddio'r pasbort yn wreiddiol gan ein Rhwydwaith Gofalwyr, yn dilyn arferion da a rannwyd gan Employers for Carers UK, a oedd yn cydnabod y gallai fod o fudd i grŵp ehangach o staff.

I gael gwybod mwy am unrhyw un o'r uchod, gweler ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar Amrywiaeth a Chynhwysiant

*Nodau Cymru cysylltiedig: Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **18 Hydref 2023**

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu'r prif nodweddion o sut rydym yn rheoli ein sefydliad. Mae ganddo dair adran.

Yn y tudalennau canlynol, bydd ein Hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n tîm uwch-reoli, sut maen nhw'n gweithio, a'r trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae ein Hadroddiad Cyflogau a Staff yn disgrifio sut rydym yn ymdrin â chyflogau'r Bwrdd ac uwch-reolwyr yn ogystal â darparu trosolwg o gyfansoddiad ein staff.

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio yn dwyn ynghyd ofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt i ddangos ein hatebolrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rheoleidd-dra gwariant, a'r farn a roddwyd gan ein harchwilydd allanol.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r tîm o gyfarwyddwyr gweithredol sy'n ei gefnogi. Ni fu unrhyw newidiadau i'r Tîm Gweithredol yn ystod 2022/23.

| Enw | Deiliad y swydd | Hyd gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Clare Pillman | 26 Chwefror 2018 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Ceri Davies | 1 Ebrill 2013 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Rachael Cunningham | 7 Medi 2020 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Gareth O'Shea | 27 Ebrill 2015 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Prys Davies | 1 Ebrill 2019 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Sarah Jennings | 7 Medi 2020 – presennol |

Mae’r gofrestr ganlynol yn nodi buddiannau ein Tîm Gweithredol fel yr oeddent ym mis Mawrth 2023.

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Preswylydd mewn ardal a allai gael ei hystyried ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig | Personol | |
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Aelod o Fwrdd Opera Cenedlaethol Cymru |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Arall | Personol | Aelod o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff |
| Prys Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Llywodraethwr, Ysgol Pen-cae, Caerdydd |
| Gareth O’Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Rachael Cunningham | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr elusen Chwarae Teg |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor | Personol | Ymddiriedolwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| | Cwsmeriaid a Masnachol | neu ymddiriedolaeth | | |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Sefydliad Cymunedol Cymru |

Mae datganiad o fuddiannau'r Cadeirydd wedi cael ei adolygu gan gadeirydd newydd a chadeirydd ymadawol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Mae'r gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau o'n Bwrdd ar gael ar ein gwefan o dan Cofrestr Buddiannau.

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **18 Hydref 2023**

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC lunio datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf croniadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa CNC ac o'r incwm a gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi’r cyfrifon, mae’n ofynnol i’r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd archwilwyr CNC yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr CNC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae’r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i Lywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr CNC fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn modd darbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gorwario; a sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, fel y nodwyd yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu CNC.

## Datganiad Llywodraethiant

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethiant a'r fframweithiau rheoli a sicrhau mewnol sydd wedi gweithredu yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 ac mae'n unol â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer CNC, fy rôl hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau mewn modd effeithiol. Gallaf gadarnhau fod yr wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn gywir ac yn gyfrif teg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau eleni. Cadarnhaf hefyd nad oes gwybodaeth heb ei chasglu sydd wedi dod i'm sylw, neu wybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni, nad yw wedi cael ei chyflwyno er sylw Archwilio Cymru.

## Ein strwythur llywodraethu

Mae ein strwythur sefydliadol yn dangos sut rydym wedi'n sefydlu i weithio a chyflawni ein hamcanion.

Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein cadeirydd yn atebol i'n Gweinidog nawdd yn Llywodraeth Cymru.


Ar hyn o bryd, mae gennym 13 o aelodau bwrdd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dan arweiniad ein cadeirydd, Syr David Henshaw, gydag 11 aelod anweithredol a finnau fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Yr Athro Steve Ormerod yw is-gadeirydd penodedig CNC a Julia Cherrett yw'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol. Cyflwynwyd y rôl Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol i gefnogi'r cadeirydd yn ei rôl, gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol pan fo angen; arwain y cyfarwyddwyr anweithredol wrth oruchwylio'r cadeirydd, a sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu'n glir rhwng y cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd saith newid i'n Bwrdd eleni: daeth tymor Paul Griffiths i ben ar 25 Mai 2022, tymor Catherine Brown i ben ar 8 Tachwedd 2022 a thymhor Karen Balmer i ben ar 31 Mawrth; cafodd yr Athro Peter Fox a Helen Pittaway eu penodi yn gyfarwyddwyr anweithredol o 16 Chwefror 2023; penodwyd Kathleen Palmer yn gyfarwyddwr anweithredol o 1 Ebrill 2023; a phenodwyd yr Athro Rhys Jones yn gyfarwyddwr anweithredol o 9 Mai 2023.

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau, rydym yn cwrdd fel Bwrdd llawn ac mae gwaith craffu ychwanegol yn cael ei wneud gan saith pwyllgor. Mae ein Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a'n pwyllgorau o ran craffu a gwneud penderfyniadau yn ôl y gofyn.

Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r Bwrdd a, heblaw am y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, mae pob un yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol arall o'r Bwrdd. Mae gan aelodau anweithredol eraill o'r Bwrdd wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau heb hawliau pleidleisio. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu, gan fod ein haelodau anweithredol o'r Bwrdd yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu meysydd ffocws gwaith a phresenoldeb ein Bwrdd a'n pwyllgorau.

| Aelodau anweithredol | Tymor | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen cyfredol |
|---|---|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Karen Balmer | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 31 Mawrth 2023 |
| Catherine Brown | 1 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2022 |
| Julia Cherrett | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Mai 2023 |
| Zoe Henderson | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 8 Mai 2023 |
| Yr Athro Peter Rigby | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2023 |
| Yr Athro Calvin Jones | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Mark McKenna | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Paul Griffiths | 1 | 1 Medi 2021 | 25 Mai 2022 |
| Dr Rosie Plummer | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2024 |
| Geraint Davies | 2 | 1 Ionawr 2019 | 31 Hydref 2024 |
| Yr Athro Peter Fox | 1 | 1 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Helen Pittaway | 1 | 1 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Kathleen Palmer* | 1 | 1 Ebrill 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Yr Athro Rhys Jones* | 1 | 9 Mai 2023 | 31 Hydref 2027 |

* Wedi gwasanaethu fel Aelod Cyswllt o’r Bwrdd o 16 Chwefror 2023 tan ddechrau ei rôl fel aelod llawn o'r Bwrdd.



## Cyfarfodydd y Bwrdd

Gwnaethom gynnal chwe chyfarfod deuddydd; cynhaliwyd dau gyfarfod rhithwir a phedwar wyneb yn wyneb yn dilyn llacio'r cyfyngiadau symud a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19. Unwaith eto roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac arsylwi arnynt. Mae'r eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys y canlynol: cyllid yn ystod y flwyddyn; adrodd ar berfformiad; ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y cadeirydd, y Prif Weithredwr a phwyllgorau.

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae papurau Bwrdd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ac maent yn destun craffu a chymeradwyaeth fewnol cyn cyfarfodydd Bwrdd.

Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ac agendâu blaenorol ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â'r papurau a'r cofnodion o'n sesiynau cyhoeddus.

### Presenoldeb aelodau'r Bwrdd 2022/23

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 5/6 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 6/6 |
| Karen Balmer | 6/6 |
| Catherine Brown | 2/3 |
| Julia Cherrett | 6/6 |
| Geraint Davies | 6/6 |
| Zoe Henderson | 6/6 |
| Yr Athro Calvin Jones | 6/6 |
| Mark McKenna | 5/6 |
| Paul Griffiths | Amherthnasol |
| Dr Rosie Plummer | 5/6 |
| Yr Athro Peter Rigby | 6/6 |
| Yr Athro Peter Fox | 1/1 |

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Helen Pittaway | 1/1 |
| Kathleen Palmer | 1/1 |
| Yr Athro Rhys Jones | 1/1 |
| Clare Pilman (Prif Weithredwr) | 6/6 |

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro, craffu ar a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg. Yn dilyn diwedd tymor Catherine Brown fel aelod o'r Bwrdd ar 8 Tachwedd 2022, cymerodd Karen Balmer yr awenau fel cadeirydd y pwyllgor hwn. Ar ddiwedd tymor Karen Balmer fel Aelod Bwrdd ar 31 Mawrth, daeth Kathleen Palmer yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu CNC, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Mae aelodau'r Tîm Gweithredol bellach yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor i drafod unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Gwelliannau i'n dull rheoli risg
- Mapio sicrwydd sefydliadol
- Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22 a chynlluniau ar gyfer yr adroddiad hwn, 2022/23
- Risg seiber

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Catherine Brown (cadeirydd, tan fis Tachwedd 2022) | 3 | 3 |
| Karen Balmer (cadeirydd, rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023) | 6 | 5 |

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Kathleen Palmer (cadeirydd, o fis Ebrill 2023) | 1 | 1 |
| Dr Rosie Plummer | 6 | 4 |
| Yr Athro Peter Rigby | 6 | 6 |

## Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (y Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn flaenorol) yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, gwobrwyo a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan CNC, darparu cynllun pensiwn, gwaith cynllunio sefydliadol, llesiant, iechyd a diogelwch, gofal cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu cynllun y Gymraeg. Yn dilyn diwedd tymor Zoe Henderson fel Cadeirydd ym mis Mehefin 2022, cymerodd Julia Cherrett yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn. Ar ddiwedd tymor Julia Cherrett fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2023, daeth Mark McKenna yn Gadeirydd y Pwyllgor. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Llesiant, iechyd a diogelwch ac adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol
- Gwaith craffu ar bolisïau Rheoli Pobl arfaethedig
- Recriwtio a'r broses recriwtio
- Mapio taith y cwsmer
- Cynllunio ar gyfer olyniaeth sefydliadol
- Y Strategaeth Profiad ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid
- Y Rhaglen Adfywio

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Zoe Henderson (cadeirydd, hyd at fis Mehefin 2022) | 4 | 4 |
| Julia Cherrett (cadeirydd, o fewn Mehefin 2022 hyd at fis Mawrth 2023) | 4 | 4 |

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Karen Balmer | 4 | 4 |
| Mark McKenna (cadeirydd, o fis Mawrth 2023) | 4 | 3 |

## Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn darparu cyngor, trosolwg a gwaith craffu ar strategaeth, rheolaeth a pherfformiad mewn perthynas â chyllid, cynllunio busnes a pherfformiad, cynlluniau codi tâl, a materion masnachol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfeiriad a datblygu strategol, ond mae hefyd yn chwarae rôl wrth graffu ar berfformiad a chyflawniad. Mae Syr David Henshaw wedi bod yn gweithredu fel cadeirydd dros dro'r pwyllgor tan i Helen Pittaway gymryd y rôl o fis Mawrth 2023 ymlaen.

Eleni, gwnaeth y pwyllgor ystyried y canlynol:

- Monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn
- Cynllunio ariannol a chynllunio’r busnes ar gyfer 2023/24
- Adolygiad strategol o godi tâl
- Goruchwylio gwerthu a marchnata pren
- Ymarferiad llinell sylfaen CNC
- Strategaeth grantiau
- Fframwaith ariannu caffael a chontractau

## Presenoldeb aelodau’r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr David Henshaw (cadeirydd dros dro, hyd at fis Mawrth 2023) | 6 | 6 |
| Helen Pittaway (cadeirydd, o fis Mawrth 2023) | 1 | 1 |
| Julia Cherrett | 5 | 3 |
| Paul Griffiths | 1 | 1 |
| Yr Athro Calvin Jones | 6 | 6 |
| Dr Rosie Plummer | 6 | 5 |

## Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur a thirweddau gwarchodedig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Mae aelodau o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor ar faterion ehangach sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig a gwaith achos strategol, gan gynnwys rheoli tirweddau, Tirweddau Dynodedig, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Gwnaeth y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig adolygu gwahanol feysydd gan gynnwys rôl CNC fel y dynodwr ar gyfer parc cenedlaethol newydd arfaethedig, y Polisi Bioamrywiaeth, a'r rhaglen cyflawni Safleoedd Gwarchodedig.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Rosie Plummer (Cadeirydd) | 3 | 3 |
| Geraint Davies | 3 | 2 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3 | 3 |
| Mark McKenna | 3 | 3 |

## Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r pwyllgor yn gynghorol ac mae'n adrodd i Fwrdd CNC.

Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd presennol a rhai ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar gyflawni gwaith sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Yn dilyn diwedd tymor Julia Cherrett fel Cadeirydd ym mis Mawrth 2023, cymerodd yr Athro Peter Fox yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn.

Mae'r pwyllgor fel arfer yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau, a'r Pennaeth Cyllid.

Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd adolygu meysydd yn cynnwys:

- Blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd
- Llywodraethu rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd
- Goruchwylio'r rhaglen adfer llifogydd ac adolygu'r rhaglen weithredu

- Sgiliau a chynllunio olyniaeth
- Goruchwylio gwaith i wella'r ffordd y mae CNC yn rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr
- Rheoli asedau

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Julia Cherrett (cadeirydd, hyd at fis Ebrill 2022, a rhwng mis Mai 2022 a mis Mawrth 2023) | 4 | 4 |
| Paul Griffiths (cadeirydd, rhwng mis Ebrill a mis Mai 2022) | 1 | 1 |
| Yr Athro Peter Fox (cadeirydd, o fis Mawrth 2023) | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Geraint Davies | 4 | 2 |
| Yr Athro Calvin Jones | 4 | 3 |

## Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn gynghorol ac yn darparu cyngor a her annibynnol mewn perthynas â swyddogaeth tystiolaeth CNC. Mae'r pwyllgor hefyd yn helpu i gryfhau dealltwriaeth yn y gymuned ymchwil ehangach – a chyda defnyddwyr tystiolaeth yn y llywodraeth – o brosesau tystiolaeth a blaenoriaethau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, saith aelod allanol annibynnol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, a’r Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth.

Gwnaeth y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth adolygu meysydd yn cynnwys:

- Adroddiad CNC ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Rôl CNC fel dynodwr Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig
- Technegau Rheoli Llifogydd yn Naturiol
- Ymagwedd CNC tuag at wyddoniaeth dinasyddion
- Data gwyddoniaeth agored

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn 2022/23

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Yr Athro Peter Rigby (cadeirydd) | 3 | 3 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3 | 3 |

## Y Pwyllgor Ystad Tir

Cyfarfu'r Pwyllgor Ystad Tir am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2023 ac mae'n cael ei gadeirio gan yr Athro Calvin Jones. Prif rôl y pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd ar reoli ystad tir CNC yn gynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad, y ffordd y caiff ei rheoli, a chynigion ar gyfer newidiadau i'r modd y caiff ei defnyddio.

Adolygodd y Pwyllgor Ystad Tir feysydd yn cynnwys y Strategaeth Hamdden a'r Fenter Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ystad Tir yn 2022/23


| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Yr Athro Calvin Jones (cadeirydd) | 1 | 1 |
| Dr Rosie Plummer | 1 | 1 |
| Geraint Davies | 1 | 1 |
| Mark McKenna | 1 | 1 |

## Adolygiadau o aelodau’r Bwrdd

Mae'r cadeirydd yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda phob cyfarwyddwr anweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r broses adolygu yn cynnwys hunanasesiad cryno a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal gwerthusiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gyda'r pum cyfarwyddwr gweithredol.

# Ein Tîm Gweithredol

Caiff rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd ei chyflawni drwy'r Tîm Gweithredol, sy'n fy nghynnwys i fel y Prif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n atebol i mi. Mae'r Tîm Gweithredol yn cwrdd ddwywaith y mis i ystyried busnes corfforaethol craidd, er enghraifft diweddariadau cyllid; gwybodaeth am berfformiad; llesiant, iechyd a diogelwch; adolygu a chraffu ar y gofrestr risg strategol, ac ati. Maent hefyd yn ystyried ac yn craffu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â strategaethau, polisïau a materion gweithredol.




Islaw ein Tîm Gweithredol, mae ein Tîm Arwain yn chwarae rôl arweiniol wrth reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Mae ei aelodau'n benaethiaid adrannau sy'n atebol i'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys y rheiny yn ein swyddogaethau corfforaethol (megis Cyllid, Adnoddau Dynol, Cyfathrebu).

Mae ein strwythur yn pwysleisio gwaith cyflawni sy’n canolbwyntio ar leoedd: saith Pennaeth Lleoedd o fewn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau unigol i oruchwylio cyflawniad ein holl swyddogaethau mewn rhanbarth penodol yng Nghymru. Yna mae gennym Benaethiaid Gwasanaeth enwebedig (sydd hefyd yn Benaethiaid Lleoedd) sy'n arwain ar oruchwylio cyflawniad swyddogaeth benodol ledled Cymru. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'n harweinwyr polisi – o'r enw Penaethiaid Busnesau – sy'n goruchwylio cyfeiriad strategol ein gwaith ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau cydlyniant rhwng meddwl strategol a chyflawniad gweithredol, mae gennym gyfres o Fyrddau Busnes sy'n nodi'r gofynion polisi ac sy'n cynllunio natur

weithredol ein gwaith ar draws y strwythur sy'n canolbwyntio ar leoedd. Mae pob un o'r rhain yn cael ei arwain gan y Pennaeth Busnes / Pennaeth Gwasanaeth.

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi ein hamcanion llesiant a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Yn y cynllun busnes blynyddol, rydym yn amlinellu sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau hynny sydd i'w cymryd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Y cynllun busnes hwn ar gyfer 2022/23 yw'r olaf sy'n cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2017-23. Dros y 18 mis diwethaf bu newidiadau sylweddol i'r cyd-destun polisi strategol yr ydym yn gweithio ynddo, gyda datgan yr argyfwng hinsawdd a natur a chyhoeddi'r adroddiadau tystiolaeth pwysig cyn COP 26 a COP15. Llywiodd hyn y trafodaethau yng nghyfarfodydd ein Bwrdd a chyda gweinidogion ac, o ganlyniad iddynt, cytunodd y Bwrdd ar bum blaenoriaeth strategol sy'n adlewyrchu'r trafodaethau strategol dan arweiniad ein Bwrdd yn ogystal â phum blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyda Gweinidogion. Roedd y blaenoriaethau strategol a gweinidogol hyn yn ymwneud â 2022/23 yn unig, wrth i ni ddatblygu ein cynllun corfforaethol newydd yn unol â llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn o drawsnewid i CNC, a thrwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn gosod y conglfeini ar gyfer dyfodol ein sefydliad. Mae'r cynllun busnes hwn yn ymateb i uchelgais y Llywodraeth, ond mae hefyd yn cydnabod y pwysau cyllidebol parhaus ar draws y sector cyhoeddus. Rydym wedi gweithio gyda gweinidogion a swyddogion drwy gydol 2022/23 i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'n hadnoddau, ein blaenoriaethau a'r awydd a'r cyfle i wneud pethau'n wahanol. Wrth weithio drwy'r broses hon, rydym yn ddiolchgar i weinidogion am gynnal lefel y cyllid ar gyfer 2022/23 fel ein bod yn gallu cynnal y gwasanaeth rydym yn ei darparu.

Daethom â'r gwaith hwn i ben yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr allbynnau'n llywio proses gosod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn cynnwys staff, ein Bwrdd a phartneriaid yn y gwaith o baratoi'r cynllun corfforaethol nesaf, drwy gynnal gweithdai a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod y flwyddyn, gan arwain at lansio'r cynllun corfforaethol ym mis Mawrth 2023. Yn y cynllun corfforaethol newydd hwn, rydym yn nodi lle y gall CNC wneud gwahaniaeth gan ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym, ond hefyd y meysydd lle bydd angen inni addasu sut a ble rydym yn gweithio, ac arloesi a chydweithio er mwyn sicrhau newid sy'n deg ac yn gyfiawn ac sy'n sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Fel ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rydym wedi parhau i gyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol, gan ymateb i nifer sylweddol o ddigwyddiadau o fewn ein cylch gwaith yn ogystal â chefnogi ein partneriaid amlasiantaethol gyda digwyddiadau ehangach, fel y bo'n briodol. Rydym wedi parhau i hyfforddi a datblygu staff er mwyn eu galluogi i gefnogi ein rotâu dyletswydd, yn dilyn y newid cytundebol a wnaed gennym y llynedd ac, o ganlyniad, mae gennym fwy o staff ar gael bellach i gefnogi ein hymateb i ddigwyddiadau o fewn a'r tu allan i oriau ac rydym yn parhau i hyfforddi mwy o staff er mwyn atgyfnerthu rotâu ymhellach ar gyfer y dyfodol. Mae staff wedi mynychu nifer o ymarferion digwyddiadau mewnol ac allanol ac rydym yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan yr ymarferion hyn a digwyddiadau gwirioneddol er mwyn gwella ein galluoedd a'r gwasanaeth a ddarparwn, wrth i ni wynebu'r heriau a'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd a natur.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Nid ydym wedi cael unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol eleni.

## Ein fframwaith rheolaethau mewnol

Mae ein fframwaith rheolaethau mewnol yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau, mesurau ac achrediadau rydym wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu ein hadnoddau wrth i ni gyflawni'n hamcanion.

Mae ein rheolaethau ariannol allweddol o fewn systemau awtomatig a'n cynlluniau dirprwyo i sicrhau y caiff dyletswyddau eu gwahanu'n briodol yn parhau i fod ar waith ac yn gyfredol. Mae'r dogfennau 'Rheoli ein Harian' a 'Cynllun Statudol a Chyfreithiol CNC' yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nodwyd rheolaethau newydd lle gweithredwyd newidiadau sylweddol – er enghraifft gofynnwyd i reolwyr gynnal rhestrau o asedau TGCh ar gyfer eitemau ychwanegol yr aethpwyd â nhw adref i gefnogi cynnydd parhaus mewn gweithio gartref.

## Rheoli risg

Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn rhan hanfodol o'n fframwaith llywodraethu. Mae'n ein cynorthwyo i reoli ein busnes, gan ddiogelu ein hadnoddau a'n henw da.




Mae ein fframwaith rheoli risg yn canolbwyntio ar nodi, asesu, rheoli ac adrodd ar ein risgiau o fewn terfynau ein parodrwydd i dderbyn risg, ac mae'n cael ei lywio gan nifer o safonau rheoli risg cydnabyddedig, fel y bo'n berthnasol.

Ein Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am ein cofrestr risg strategol, gyda chyfarwyddwr unigol – wedi'i gefnogi gan reolwr/reolwyr risg ar lefel arwain neu ar lefel reoli – yn gyfrifol am bob risg. Mae ein risgiau strategol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan berchnogion risg sydd ar y lefel weithredol, a chan y Tîm Gweithredol ar y cyd. Mae'r risgiau strategol yn destun archwiliadau dwfn gan y Pwyllgor Bwrdd perthnasol, ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risg strategol gyflawn yn flynyddol.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n goruchwylio'r fframwaith rheoli risg a'i effeithiolrwydd ac maent, yn eu tro, yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

Mae ein strategaeth risg yn cael ei gosod a'i hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd. Ategir hyn gan ein matrics RACI (Cyfrifol, Atebol, Ymgynghori, Hysbysu) rheoli risg sefydliadol, sy'n nodi'n glir atebolrwydd a chyfrifoldeb am wahanol agweddau ar ein fframwaith rheoli risg, yn ogystal â'r bobl hynny y mae angen eu hysbysu neu y mae angen ymgynghori â hwy mewn perthynas â materion rheoli risg. Mae ein polisi rheoli risg a chanllawiau cysylltiedig i staff yn cael eu gosod a'u hadolygu'n flynyddol gan ein Tîm Gweithredol. Mae ein fframwaith rheoli risg yn nodi'n glir sut a phryd y dylid uwchgyfeirio risgiau. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n ymarferol drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn dynodi lefel parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob un o'n risgiau strategol, ac mae datganiad parodrwydd i dderbyn risg penodol yn rhoi crynodeb manylach o sut mae'r archwaeth risg yn berthnasol i'r risg benodol honno. Fel rhan o'n rhaglen hyfforddiant strwythuredig ar reoli risg, darparwyd sesiynau hyfforddi ar barodrwydd i dderbyn risg drwy gydol y flwyddyn er mwyn galluogi perchnogion risg i ddeall sut i gymhwyso parodrwydd i dderbyn risg i'w risgiau ar gofrestrau ledled y sefydliad. Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Bwrdd ochr yn ochr â'r gofrestr risg strategol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio ar wella ein cynnig rheoli risg i'r sefydliad, gan ddiweddaru a gwreiddio'r offerynnau sydd ar waith i gefnogi arferion rheoli risg, gan gynnwys templed y gofrestr risg, sydd bellach yn cynnwys adrannau sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd ein rheolaethau a'n mesurau lliniaru arfaethedig, a pha un a ydynt yn gweithio yn ôl y bwriad.

## Sicrhau gwybodaeth

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, a'n bod yn parhau i gyflawni cydbwysedd rhwng bod yn agored a diogelwch, gan sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael eu sicrhau bod lefelau diogelwch priodol ar waith. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen integredig o waith i gryfhau ein hymateb i wydnwch rhag bygythiadau seiberddiogelwch a gwybodaeth. Unwaith eto, rydym wedi ennill ein hachrediad Cyber Essential Plus blynyddol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'i archwilio'n annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys. Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen seiberddiogelwch o waith yn seiliedig ar ein strategaeth seiber. Mae hyn yn cynnwys mentrau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys hyfforddiant seiberddiogelwch ar-lein. Rydym hefyd yn cynnal ymarferion pen bwrdd bob chwarter er mwyn profi ein gweithdrefnau a'n hymateb i ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol i'r staff ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Diogelwch Cyfrifiaduron yn y Gweithle ac ar ddiogelu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn gwybod y diweddaraf am sut rydym yn rheoli'r wybodaeth rydym yn ei chael a'i chadw. Mae cyfraddau cwblhau gweithgareddau dysgu ar-lein gorfodol yn parhau i wella, ac ategir y rhain gan sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u targedu. Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid strategol fel Llywodraeth Cymru, y gymuned diogelu data, y fforwm cydnerthedd lleol a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i rannu dysgu a chynnal safonau.

Eleni, roeddwn yn falch na chawsom unrhyw doriadau diogelwch gwybodaeth yr oedd yn rhaid eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

| **Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** | | |
|---|---|---|
| 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
| 0 | 0 | 0 |

## Datganiad o fuddiannau

Mae ein polisi a'n canllaw ar wrthdaro buddiannau yn cefnogi'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd gyda'n proses barhaus i ddatgan buddiannau personol perthnasol er mwyn ein helpu i reoli unrhyw wrthdaro posib neu wrthdaro canfyddiedig o fewn eu rolau proffesiynol. Yn dilyn adolygiad o archwiliadau mewnol yn 2020/21, gwnaed gwelliannau sylweddol i'n polisi gwrthdaro buddiannau, ein gweithdrefnau, ein hyfforddiant a'n systemau adrodd.

## Chwythu'r chwiban

# Chwythu'r chwiban o fewn CNC

Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o onestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd. Mae disgwyl y bydd pawb sy'n gweithio i CNC sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith CNC yn gallu dod ymlaen i leisio'r pryderon hynny. Mae CNC wedi ymrwymo i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw ddrwgweithredu a ddaw i'r amlwg.

Felly, rydym wedi sefydlu mesurau fel y gellir mynegi pryderon difrifol am gamymddwyn neu amhriodoldeb. Mae ein fframwaith yn cynnwys mynediad at linell gymorth ffôn a ffurflen ar-lein, lle gall pobl fynegi pryderon yn ddienw os yw'n well ganddynt.

Yn ystod 2022/23, rhoddwyd gwybod am 20 o achosion posibl o chwythu'r chwiban drwy'r systemau chwythu'r chwiban. Cafodd pob achos ei ystyried yn unol â pholisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban CNC. O'r 20 adroddiad hyn, cafodd 7 eu hadolygu a'u trin yn ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban, roedd 9 yn ymwneud â materion y tu allan i CNC ac ni ystyriwyd bod 4 yn achosion o chwythu'r chwiban, fel sy'n cael ei ddiffinio gan Bolisi Chwythu'r Chwiban CNC, felly cawsant eu cyfeirio'n ôl at y busnes i'w trin yn fewnol.

O'r 7 achos yr ymdriniwyd â nhw'n ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban, ni chafodd 5 eu cadarnhau ac mae 2 yn aros i'r ymchwiliad gael ei gwblhau.

| Nifer yr achosion o chwythu'r chwiban | | |
|---|---|---|
| 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
| 7 | 4 | 0 |

# CNC fel Person Rhagnodedig ar gyfer Chwythu'r Chwiban

Daeth CNC yn ‘Berson Rhagnodedig’ yn 2020 ar ôl i Lywodraeth Cymru gysylltu ag ef. Mae Gorchymyn Personau Rhagnodedig 2014 yn nodi rhestr o 60 o sefydliadau y gall unrhyw aelod o’r cyhoedd fynd atynt i roi gwybod am achosion tybiedig o ddrwgweithredu neu rai y gwyddys amdanynt (chwythu’r chwiban). Mae’r sefydliadau a’r unigolion ar y rhestr fel arfer wedi’u dynodi’n bersonau rhagnodedig gan fod ganddynt berthynas awdurdodol neu oruchwyliol â’u sector, yn aml fel corff rheoleiddio. Mae’r Gorchymyn yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth y DU bob blwyddyn, i sicrhau bod y rhestr yn parhau’n gyfredol.

Derbyniwyd 9 achos o Adroddiad Chwythu’r Chwiban Person Rhagnodedig rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, er y cydnabyddir y gallai pryderon eraill fod wedi’u mynegi y tu allan i’r broses chwythu’r chwiban ffurfiol.


O'r 9 achos hynny a dderbyniwyd, cafodd un ei drin yn ffurfiol fel achos chwythu'r chwiban ond ni chafodd ei gadarnhau.  Cyfeiriwyd yr 8 achos oedd ar ôl at y timau trin digwyddiadau o fewn CNC a chawsant eu trin yn unol â’r prosesau cwyno arferol, gan nad oedd yr un yn ddigon pwysig neu’n ddigon difrifol i fod angen ymchwiliad chwythu’r chwiban ffurfiol.


## Twyll

Mae ein Strategaeth Gwrth-dwyll 2022 – 2026 yn nodi’r cyfeiriad strategol a gynlluniwyd i gefnogi a chryfhau gallu CNC i amddiffyn ei hun rhag y niwed y gall twyll ei achosi. Bydd canolbwyntio’r strategaeth hon ar arferion gorau a safonau proffesiynol yn helpu i sicrhau bod dull gwrth-dwyll yn dod yn rhan annatod o’n ffordd o weithio. Cefnogir ein Strategaeth Gwrth-dwyll gan Bolisi Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth ddiwygiedig a Gweithdrefn Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.

Rydym yn parhau i fod mewn argyfwng costau byw, a gall pwysau fel y rheiny a achosir gan gyfraddau chwyddiant uchel arwain at risg uwch o dwyll, sef y categori y mae troseddau eisoes yn cael eu hadrodd amlaf oddi tano yn y DU. Darperir cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol i staff ar fesurau gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredigaeth. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio i helpu staff i nodi baneri coch o ran risgiau a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol. Mae cyfraddau cwblhau'r modiwlau hyn yn parhau'n uchel.

**Ystadegau cwblhau e-ddysgu ar gyfer 2022/2023**




Fel rhan o'n gwaith atal a chanfod, cynhaliwyd asesiadau risg i nodi pa feysydd o'r sefydliad sydd â'r risg fwyaf o dwyll ac i ganolbwyntio ein rheolaethau lliniaru ar y meysydd hyn. Rydym hefyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, sef ymarfer paru data sydd wedi'i gynllunio i ganfod twyll a gwallau ar draws systemau talu.

Y llynedd cawsom wyth honiad o dwyll, yr ymdriniwyd â hwy yn unol â phroses gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredigaeth CNC. Caiff y rhain eu hadrodd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r holl ymchwiliadau wedi cael eu rheoli un ai gan arbenigwr gwrth-dwyll achrededig neu ymchwilwyr allanol â chymwysterau tebyg. Caiff yr adroddiad terfynol ar bob achos ei gyfeirio at uwch-staff annibynnol.

| **Nifer yr honiadau yr adroddwyd amdanynt** | | |
|---|---|---|
| 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
| 5 | 8 | 10 |

Er bod trefniadau atal twyll cadarn yn rhan o ymateb CNC, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gefnogi ein gweithwyr a'u teuluoedd. Yn unol â hynny, mae cydweithwyr yn y tîm Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio ar amrywiaeth o fentrau i gefnogi unrhyw un sy'n cael trafferthion ariannol a chynnig cymorth lle gallwn.

## Cydymffurfedd â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig

Rydym wedi cwblhau adolygiad sylfaenol ac wedi sicrhau bod ein strwythur, ein polisïau a'n gweithdrefnau sefydliadol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Mae ein harweinyddiaeth yn gweithredu'n unol â rolau a chyfrifoldebau uwch-reoli disgwyliedig; mae gweithdrefnau cefnogol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd

weithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir i sicrhau atebolrwydd a rhannu dyletswyddau'n briodol a bod rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff cyflogau uwch-staff eu hystyried gan aelodau anweithredol i sicrhau annibyniaeth; ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n rhanddeiliaid allweddol i feithrin cydberthnasau gwaith adeiladol.

## Ein Fframwaith Sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys y mesurau canlynol, sydd ar waith i sicrhau fy mod yn derbyn tystiolaeth amserol i ddangos bod y rheolaethau gofynnol ar waith ac yn gweithio'n briodol.

### Archwilio mewnol

Fel Pennaeth Archwilio Mewnol gallaf gynnig barn sicrwydd 'cymedrol' yn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf gyda'r cafeat ei bod yn un ffiniol a bod angen datblygu trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth CNC ymhellach er mwyn cynnal barn archwilio mewnol 'gymedrol' sefydledig.

Mae'r farn archwilio flynyddol yn seiliedig ar yr wybodaeth ganlynol:

- Canlyniadau'r ymgysylltu ar Gynllun Archwiliad Mewnol 2022/23;
- Bod y rheolwyr yn cwblhau'r argymhellion archwilio mewnol fel y cawsant eu holrhain ar ôl cwblhau archwiliadau;
- Gwybodaeth gronnus a gafwyd wrth fynychu pwyllgorau rheoli; mynediad i gofrestrau risg a dogfennau allweddol; a thrafodaethau â rheolwyr;
- Adroddiadau ac ymchwiliadau twyll, llwgrwobrwyo, chwythu'r chwiban a llygredd;
- Y rhestrau gwirio rheolaeth fewnol a gwblhawyd gan y sefydliad; a
- Ffynonellau sicrwydd eraill, gan gynnwys gwaith:
    - Archwilio Cymru,
    - achrediadau ISO, ac
    - archwiliadau UKWAS.

| **Barn** | |
|---|---|
| Gan ystyried gwaith archwilio mewnol 2022/23, adolygiad o risgiau strategol a thystiolaeth a gasglwyd ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn CNC, gallaf gynnig **Barn Sicrwydd Gymedrol** ar gyfer y flwyddyn. | |

I gloi, mae fy ngwerthusiad proffesiynol o reolaethau mewnol, llywodraethu a rheoli risg wedi fy arwain i'r casgliad bod angen rhai gwelliannau o hyd yn 2022/23 i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

O ystyried y farn dylai darllenwyr nodi'r canlynol

- Mae'r farn yn un 'gymharol' o drwch y blewyn ac mae angen gwelliannau sylweddol i sefydlu'r farn 'gymedrol' hon.
- Mae'r farn hon yn seiliedig yn unig ar y meysydd a ystyriwyd ac sy'n cael eu nodi uchod.
- Ni all sicrwydd fyth fod yn absoliwt, ac ni ellir cynllunio gwaith archwilio mewnol i ganfod neu i fynd i'r afael â'r holl wendidau a allai fodoli.
- Gan reolwyr CNC ac nid archwilwyr mewnol y mae'r cyfrifoldeb am gynnal systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol digonol a phriodol**.**

## Archwilio allanol

Mae gwaith craffu annibynnol yn ffynhonnell bwysig i ni o ran cael sicrwydd, ac mae'n darparu tystiolaeth o'n ffyrdd o weithio mewn perthynas ag arferion gorau a safonau'r diwydiant. Mewn rhai rhannau o'r sefydliad, rydym yn destun archwiliadau neu adolygiadau allanol o'n gwaith, neu'n dewis eu cael. Cynhelir rhai ohonynt yn flynyddol, er enghraifft Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig neu ISO 14001:2015 er mwyn cynnal ein system rheoli amgylcheddol. Rydym yn gofyn am rai eraill fel un o nifer o ddarnau o waith er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i ni am feysydd gwaith neu weithgareddau penodol.

## Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol

Er mwyn rhoi sicrwydd bod y fframwaith o reolaethau mewnol ar waith ac yn gweithio'n dda o fewn CNC, cwblhaodd aelodau o'r Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Busnes restr wirio rheolaethau mewnol a llofnodi tystysgrif sicrwydd. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud asesiad ar sail tystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheolaethau sydd ar waith ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth / Bwrdd Busnes, gan briodoli sgôr sicrwydd rhwng sylweddol ac anfoddhaol ar gyfer meysydd risg allweddol yn CNC, fel y nodir yn ein cofrestr risg strategol.

Eleni fe wnaethom gynnal proses ddiwygiedig ar gyfer proses flynyddol y rhestr wirio rheolaethau mewnol y mae cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Busnes i'w chwblhau. Roedd y broses ddiwygiedig yn adeiladu ar yr un bresennol, gan gyflwyno arolygon ar gyfer staff ac arweinwyr mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau, er mwyn ategu'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud yr asesiadau sicrwydd. Roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn rhychwantu'r ail a'r drydedd linell ac yn ceisio ysgogi trafodaethau cyfoethog ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r rhestr wirio wedi'i chwblhau gan ddefnyddio'r broses ddiwygiedig, ni allwn gymharu'n uniongyrchol y canlyniadau hyn â'r rheiny a gafwyd o'r dadansoddiad o'r rhestr wirio rheolaethau mewnol ar gyfer 2021/2022.

Priodolwyd lefelau tebyg o sicrwydd gan Benaethiaid Busnes a chyfarwyddwyr ar draws y rhan fwyaf o feysydd, gan nodi bod yna gyffredinedd yn y meysydd lle mae sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol yn sylweddol, ac hefyd yn y meysydd lle y mae'n llai boddhaol.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi ystyried a safoni'r dadansoddiad o'r canlyniadau a'r sgorau sicrwydd a briodolwyd gan gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Busnes. Mae canlyniadau'r dadansoddiad o effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol, fel y'i llywir gan broses y rhestr wirio rheolaethau mewnol, wedi'u nodi isod yn erbyn risgiau strategol allweddol CNC, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw wendidau sylweddol a nodwyd a'r camau a gymerwyd / y camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

### Llesiant, iechyd a diogelwch

Ar draws canlyniadau'r byrddau busnes a'r cyfarwyddiaethau, aseswyd yn gyffredinol bod Llesiant, Iechyd a Diogelwch yn cael ei reoli'n dda ar draws y sefydliad. Mae nodweddion cadarnhaol y fframwaith rheolaethau mewnol yn cynnwys ffocws a thrafodaeth reolaidd ar lesiant, iechyd a diogelwch yn ystod cyfarfodydd misol cyfarwyddiaethau, rheolwyr a thimau. Mae strwythurau da ar waith i sicrhau y gellir cefnogi staff wrth iddynt weithio gartref ac o fewn swyddfeydd a safleoedd CNC. Mae cydymffurfedd ag e-ddysgu yn uchel yn y maes hwn, ynghyd â gwiriadau cyfarpar sgrin arddangos, cyfarfodydd Sgwrs (arfarniadau), monitro gweithredol, ac asesiadau risg. Mae CNC hefyd wedi cadw'r achrediad ISO 45001 a'r Safon Arian ar gyfer y Gwiriad Iechyd Corfforaethol. Gellid gwneud gwelliannau pellach mewn perthynas â rheoli straen a chyfrifoldebau llesiant, iechyd a diogelwch unigol, a dylid canolbwyntio ar hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### Pennu cyfeiriad strategol

Mae'r meysydd eraill o sicrwydd sylweddol a nodwyd o'r arolygon ar gyfer staff ac arweinwyr yn cynnwys gallu'r sefydliad i osod a chyfathrebu cyfeiriad strategol ystyrlon.

Mae dealltwriaeth o gyfeiriad y sefydliad yn dda, ond gellid cryfhau'r cysylltiadau rhwng y cynllun corfforaethol, y Cynllun Busnes a'r Cynllun Gwasanaethau â blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth. Dylid annog defnyddio cyfarfodydd Sgwrs i wneud y cyswllt rhwng yr uchelgais strategol sydd yn y cynllun corfforaethol â chyfraniad pob aelod unigol o staff ynghyd â'r ymddygiadau, y weledigaeth a'r genhadaeth cysylltiedig.

Mae'n amlwg bod gwaith sylweddol wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu cynllun corfforaethol newydd CNC hyd at 2030, 'Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'i Gilydd', a lansiwyd ar 28 Mawrth 2023. Mae'r cynllun newydd yn nodi gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion llesiant y sefydliad, ac mae tystiolaeth yn dangos bod ymgysylltu â staff ynglŷn â'r gwaith hwn wedi bod yn fuddiol ac wedi cael effaith, ac felly y gobaith yw y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd rheolaethau yn y maes hwn wrth symud ymlaen.

### Hyrwyddo egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Ceir ymdeimlad o'r arolygon ar gyfer staff ac arweinwyr bod egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy bellach wedi'u deall yn dda ac wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad a'u bod yn cael eu defnyddio fel lens i rannu cyngor ag eraill ar bolisïau, rhaglenni a deddfwriaeth. Mae cyflwyno hyfforddiant a sesiynau sefydlu o ansawdd uchel wedi ehangu'r ddealltwriaeth o'r angen i hyrwyddo egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac wedi herio staff i gymhwyso'r egwyddorion hyn a'r ffyrdd hyn o weithio i'w meysydd gwaith penodol a'u rolau unigol. Cydnabuwyd y gall hyn fod yn arbennig o heriol ar gyfer rhai rolau a gwasanaethau, yn enwedig y rheiny sy'n wasanaethau craidd, mewnol. Er mwyn rhoi sicrwydd pellach ynghylch ein rheolaethau yn y maes hwn, bydd

angen cynnal ffocws parhaus ar sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei ystyried o safbwynt rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

### Rheoli digwyddiadau

Nodwyd rheoli digwyddiadau yn effeithiol fel maes lle gellid gwneud gwelliannau pellach i reolaethau, megis hyfforddiant ar gyfer rolau digwyddiadau, sicrhau bod rotâu digwyddiadau yn gyflawn, ynghyd â sicrhau bod ymarferion parhad busnes yn dod yn rhan o'r drefn arferol. Nodwyd y gall fod diffyg eglurder mewn rhai meysydd ynglŷn â’r hyn sy'n cael ei ystyried yn ddigwyddiad a phwy sydd â chyfrifoldeb am faterion / digwyddiadau hirdymor parhaus.

Mae cynlluniau parhad busnes cyfredol yn awgrymu bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'u cynnwys ar draws y busnes. Fodd bynnag, gellid cryfhau rheolaethau ynghylch gwersi a ddysgwyd, cofnodi tueddiadau, a datblygu strategaethau.

### Pobl

Roedd cynllunio’r gweithlu a materion cynllunio olyniaeth yn feysydd a oedd yn peri pryder i nifer. Amlygwyd gwendidau sylfaenol ar lefel sefydliadol, sy’n gysylltiedig â diffyg systemau priodol (e.e. system rheoli dysgu) ac argaeledd adnoddau (e.e. mewn perthynas â staffio. Yn benodol, ar lefel cyfarwyddiaeth, mae angen canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth a datblygu gyrfa er mwyn rhoi mwy o sicrwydd. Bydd y pwysau ar adnoddau, yn ogystal â chyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff, yn parhau i gyflwyno heriau i'r sefydliad onid eir i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae canlyniadau'r arolygon ar gyfer staff ac arweinwyr wedi amlygu bod rheolwyr llinell yn ymgysylltu’n dda, bod pobl yn gyfarwydd â pholisïau a phrosesau adnoddau dynol, a bod cydymffurfedd da o ran e-ddysgu. Fodd bynnag, amlygodd hefyd y gellid gwella'r ymgysylltu a'r cyfathrebu o safbwynt y cyfarwyddiaethau, a bod angen gwneud rhagor o waith i wella a gwreiddio'r arferion hyn.

### Cyllid a rheolaeth ariannol

Amlygwyd problemau gyda nifer o'r rheolaethau sy'n ymwneud â'r setliad ariannu, a rheolaeth ariannol fel meysydd o bryder, yn enwedig o fewn Byrddau Busnes. Awgrymwyd efallai nad oedd fframweithiau rheolaethau yn gweithredu’n effeithiol i liniaru risgiau allweddol sy’n deillio o’r ansicrwydd ynghylch pa un a oes cyllid digonol i gyflawni swyddogaethau sefydliadol craidd. Gall hyn gael ei amlygu drwy orwario mewn rhai meysydd, sydd efallai’n awgrymu nad oedd y rheolaethau gydol y flwyddyn yn ddigonol i atal hyn rhag digwydd.

Yn ogystal, mae twf sylweddol yn niferoedd gweithlu’r sefydliad wedi golygu bod rhai meysydd o fewn rhai Cyfarwyddiaethau wedi cael ond ychydig o gynnydd, os o gwbl, yn eu cyllideb i ddarparu cymorth ychwanegol. Pwysleisiwyd bod y diffyg sylw a roddir i gyllidebau yn broblem, ynghyd â'r broses Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac, fel mater ar wahân, y bu’n anodd rheoli rhagolwg diwedd blwyddyn pan yr oedd yn ymddangos bod y gwariant gwirioneddol yn sylweddol uwch na'r rhagolwg.

Ymhlith y meysydd lle roedd rheolaethau’n gadarn, nodwyd bod cydymffurfedd yn gyffredinol dda o ran hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheoli cyllid a chyllidebau a bod

ymwybyddiaeth uchel ynghylch canfod achosion o dwyll ac adrodd arnynt, yn ogystal â dealltwriaeth dda o'r polisïau a'r prosesau allweddol. Fodd bynnag, nodwyd bod gwendid mewn perthynas â diffyg hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau caffael, ac y dylid canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y flwyddyn i ddod ar draws y Byrddau Busnes a'r cyfarwyddiaethau.

### Cydymffurfedd

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolygon ar gyfer staff ac arweinwyr yn awgrymu bod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o ddiben a phrosesau rheoli risg, datganiadau o fuddiant a pholisïau llywodraethu allweddol eraill megis ein cynlluniau dirprwyo ariannol ac anariannol, a pholisi a'r gweithdrefnau ynghylch sut i adrodd am bryderon chwythu'r chwiban.

Fodd bynnag, ceir meysydd lle y gellid cryfhau neu loywi gwybodaeth a dealltwriaeth, megis ym maes rheoli data a chofnodion. Nodwyd hefyd y gall rhai rheolaethau cydymffurfio fod yn rhy feichus a bod angen eu symleiddio er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r rhwystrau, neu i'r rhwystrau canfyddedig i gydymffurfedd oherwydd eu cymhlethdod a'u manylder. Er y teimlir bod cydymffurfedd yn gwella mewn sawl maes allweddol, mae yna feysydd lle ceir gwendidau ar draws y sefydliad o hyd, er enghraifft, mewn perthynas â'r ffaith bod gwybodaeth reoli gyfyngedig yn datgelu gwendidau yn ein hail linell sicrwydd. Dylai'r gwaith o ddatblygu fframwaith sicrwydd ehangach ar gyfer y sefydliad barhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, ynghyd â'r gwaith o greu prosesau mwy darbodus i gefnogi cydymffurfedd heb fod hyn yn rhwystro staff rhag cyflawni'r Amcanion Llesiant.

### Rheoli asedau strategol

Roedd perchnogaeth a defnydd / cymhwysiad rheolaethau yn y maes hwn wedi'u cyfyngu i un gyfarwyddiaeth a rhai o'r Byrddau Busnes. Ar draws y pedwar maes busnes roedd consensws cyffredinol bod arferion da a sefydledig ar waith o ran prosesau rheoli asedau. Amlygwyd bod rheolaethau mewn perthynas â'r risg yn ymwreiddio'n dda a bod cyfathrebu o ansawdd uchel rhwng timau.

Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o ddiffygion yn yr wybodaeth reoli ac yn ansawdd y data, a bod yr wybodaeth sydd ar gael yn aml yn hen, a dylai hwn fod yn faes y dylid canolbwyntio arno ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **18 Hydref 2023**

# Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

# Polisi cyflogau

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Chyflogau i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth y staff ar y lefel uchaf a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o’r Bwrdd. Mae cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau contractau gweithwyr uwch (aelodau o'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Nid yw'r polisi cyflogau ar gyfer y staff ar y lefel uchaf yn destun cydfargeinio a'r pecyn cyflog ac fe ddefnyddir gweithdrefn Arfarnu Swyddi ar gyfer Uwch-swyddi (JESP) a chyflog ar y pryd. Mae'r cyflog yn cael ei gynyddu gan yr un ganran â chyflog Gradd 11 (y raddfa gyflog uchaf ar gyfer staff nad ydynt yn gyfarwyddwyr).

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum undeb lafur, a chaiff y telerau ac amodau ar gyfer staff sydd o dan yr aelodau o'r Tîm Gweithredol eu gosod drwy gydgytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflogau, telerau ac amodau ac yn gosod cylch cyflog y mae rhaid i CNC eu cyflawni o'i fewn. Roedd y cyflog eleni ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2022 a 31 Mawrth 2023, a gwelwyd cynnydd o 4% yn ein bil cyflogau. Cafodd Graddau 1 a 2 godiad cyflog o fwy na 10%, a chafodd Graddau 3 i 4 gynnydd o £1,400 (6.91% i 4.56%). Ar gyfer Gradd 5, amrywiodd y cynnydd rhwng 4.4% a 3.8%, a bu cynnydd o 3.65% ar gyfer Graddau 6 ac uwch. Codwyd y Gwelliannau a Thaliadau (ac eithrio’r Dyfarniad Cyflog Teyrngarwch) gan 4% hefyd o 1 Mehefin 2022. Nid oedd y cynnig hwn, fel y cytunwyd eisoes drwy'r ymgynghoriad ar y cynllun Gwerthuso Swyddi, yn berthnasol i'r bobl hynny a oedd wedi dewis, yn flaenorol, i beidio â bod yn rhan o'r cynllun hwn.

Mae CNC yn parhau i fod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol. Er bod y cyfraddau newydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd rydym bob amser yn ychwanegu'r cynnydd at y cyflog sylfaenol ar unwaith o ddechrau’r cyfnod cyflog presennol. Fodd bynnag, eleni, roedd ein cynnig cyflog yn golygu bod ein cyflog Gradd 1 yn uwch nag argymhelliad y Sefydliad Cyflog Byw Gwirioneddol.

## Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran Gweinidog nawdd CNC yn Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae’r aelodau o'r Tîm Gweithredol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi’u penodi i swyddi sy'n barhaol. Rhaid i'r swyddogion a'r aelodau Bwrdd hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

## Cyflog a hawliadau pensiwn

Yn yr adrannau canlynol ceir manylion cyflog aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Pe bai aelodaeth yn cael ei therfynu'n gynnar, am reswm heblaw am gamymddwyn, byddai'r aelod hwnnw o'r Tîm Gweithredol yn cael iawndal sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd

| Aelod y Bwrdd | Dyddiadau'r contract | Cyflog 2022/23 (ystod £5,000) | Cyflog 2021/22 (ystod £5,000) |
|---|---|---|---|
| Karen Balmer[1] | 9/11/15 tan 31/3/23 | 10-15 | 10-15 |
| Catherine Brown[2] | 1/11/18 tan 31/10/22 | 5-10 | 15-20 |
| Julia Cherrett[3] | 1/11/18 tan 31/5/23 | 15-20 | 15-20 |
| Geraint Davies | 1/1/19 tan 31/10/24 | 10-15 | 10-15 |
| Howard Davies[4] | 9/11/15 tan 31/8/21 | Amherthnasol | 10-15 |
| Peter Fox[5] | 16/2/23 tan 31/10/26 | 0-5 | Amherthnasol |
| Paul Griffiths[6] | 1/9/21 tan 25/5/22 | 0-5 | 5-10 |
| Elizabeth Haywood[7] | 9/11/15 tan 31/8/21 | Amherthnasol | 15-20 |
| Syr David Henshaw (cadeirydd) | 1/11/18 tan 31/10/25 | 45-50 | 45-50 |
| Zoë Henderson[9] | 9/11/15 tan 8/5/23 | 10-15 | 15-20 |
| Calvin Jones[10] | 1/9/21 tan 31/10/28 | 10-15 | 5-10 |
| Rhys Jones[11] | 16/2/23 tan 31/10/27 | 0-5 | Amherthnasol |
| Mark McKenna[12] | 1/9/21 tan 31/10/28 | 10-15 | 5-10 |
| Steve (dirprwy gadeirydd)[13] | 1/11/18 tan 31/10/25 | 15-20 | 15-20 |
| Kathleen Palmer[14] | 16/2/23 tan 31/10/26 | 0-5 | Amherthnasol |
| Helen Pittaway[15] | 16/2/23 tan 31/10/26 | 0-5 | Amherthnasol |
| Rosie Plummer[16] | 1/11/18 tan 31/10/24 | 15-20 | 15-20 |
| Peter Rigby[17] | 1/11/18 tan 31/10/23 | 15-20 | 25-30 |

[1] Daeth Karen Balmer yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 1 Tachwedd 2022 hyd nes i'w haelodaeth bwrdd ddod i ben ar 31 Mawrth 2023.

[2] Catherine Brown oedd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nes i'w haelodaeth bwrdd ddod i ben ar 31 Hydref 2022.

[3] Roedd Julia Cherrett yn gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd tan 23 Mawrth 2023 ac yn gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid tan 23 Mawrth 2023.

[4] Peidiodd Howard Davies â bod yn aelod bwrdd ar 31 Awst 2021 a bu'n gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig tan y dyddiad hwn. Derbyniodd dâl rhwng £5,000 a £10,000 am wasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad o £5,000 i £10,000 am wasanaethau fel cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2021/22 oedd £10,000 i £15,000.

[5] Penodwyd Peter Fox i'r bwrdd ar 16 Chwefror 2023 a daeth yn gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar 23 Mawrth.

[6] Daeth Paul Griffiths yn aelod o'r bwrdd ar 1 Medi 2021 ac ymddiswyddodd ar 25 Mai 2022.

[7] Peidiodd Elizabeth Haywood â bod yn aelod bwrdd ar 31 Awst 2021 a hi oedd cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd tan y dyddiad hwn. Derbyniodd dâl rhwng £5,000 a £10,000 am wasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad o £10,000 i £15,000 am wasanaethau fel cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2021/22 oedd £15,000 i £20,000.

[8] Syr David Henshaw yw cadeirydd y Bwrdd a bu'n gadeirydd dros dro y Pwyllgor Cyllid tan 23 Mawrth 2023.

[9] Zoë Henderson oedd cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau tan 31 Mawrth 2022.

[10] Daeth Calvin Jones yn aelod Bwrdd ar 1 Medi 2021 a daeth yn gadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir ar 22 Medi 2022.

[11] Roedd Rhys Jones yn aelod Bwrdd cysylltiedig (gyda chydnabyddiaeth ariannol) o 16 Chwefror 2023 a daeth yn aelod llawn ac yn gadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 9 Mai 2023.

[12] Daeth Mark McKenna yn aelod Bwrdd ar 1 Medi 2021 a cafodd ei benodi'n gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar 23 Mawrth 2023.

[13] Steve Ormerod yw dirprwy gadeirydd y Bwrdd.

[14] Roedd Kathleen Palmer yn aelod Bwrdd cysylltiedig (gyda chydnabyddiaeth ariannol) o 16 Chwefror 2023 a daeth yn aelod llawn ac yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 1 Ebrill 2023.

[15] Penodwyd Helen Pittaway i'r Bwrdd ar 16 Chwefror 2023 a daeth yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 23 Mawrth 2023.

[16] Mae Rosie Plummer wedi bod yn gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ers 31 Awst 2021.

[17] Peter Rigby yw cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth. Derbyniodd dâl o rhwng £15,000 ac £20,000 am wasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad o £5,000 i £10,000 am wasanaethau fel cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2021/22 oedd £25,000 i £30,000.

## Cyflogau'r Tîm Gweithredol

| Aelod y Tîm Gweithredol | Cyflog (ystod o £5,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn[3] (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (ystod o £5,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 |
| Clare Pillman [3] (Prif Weithredwr) | 145-150 | 140-145 | 0 | 0 | (10,000) | 23,000 | 135-140 | 160-165 |
| Rachael Cunningham[3] | 115-120 | 115-120 | 0 | 0 | 21,000 | 76,000 | 140-145 | 190-195 |
| Ceri Davies[3] | 115-120 | 105-110 | 0 | 0 | (2,000) | 6,000 | 115-120 | 115-120 |
| Prys Davies[1, 3] | 100-105 | 110-115 | 0 | 0 | 10,000 | 26,000 | 110-115 | 135-140 |
| Sarah Jennings[3] | 120-125 | 120-125 | 0 | 0 | 49,000 | 47,000 | 170-175 | 165-170 |
| Gareth O'Shea[2, 3] | 110-115 | 120-125 | 0 | 0 | (48,000) | 93,000 | 60-65 | 215-220 |

[1] Cyflog cyfwerth blwyddyn gyfan Prys Davies ar gyfer 2021/22 oedd £95,000 i £100,000. Yn ystod y flwyddyn honno, cafodd gynnydd ôl-ddyddiedig mewn cyflog a arweiniodd at dâl ychwanegol o £10,000 i £15,000 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/21.

[2] Cyflog cyfwerth blwyddyn gyfan Gareth O’Shea ar gyfer 2021/22 oedd £105,000 i £110,000. Yn ystod y flwyddyn honno, cafodd gynnydd ôl-ddyddiedig mewn cyflog a arweiniodd at dâl ychwanegol o £15,000 i £20,000 mewn perthynas â blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2019/20.

[3] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, yn ogystal â’r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Cyfrifir y cynnydd gwirioneddol drwy ddidynnu'r prisiad agoriadol o'r prisiad terfynol. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Caiff codiadau chwyddiant eu heithrio drwy gymhwyso ffactor cynnydd gwirioneddol i'r gwerth ar ddechrau'r flwyddyn.

Ar gyfer newidiadau mewn lefelau cyflog, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso’r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam mae gwerthoedd negyddol i'w gweld.

Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli'r swm a fydd yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn. Bwriad y cyfrifiad yw cyfleu i ddarllenydd y cyfrifon amcangyfrifiad o'r budd a all ddeillio o fod yn aelod o'r cynllun pensiwn. Mae'r tabl buddiannau pensiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y buddiannau pensiwn sy'n cael eu cronni gan yr unigolyn.

## Cyflog

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n ddarostyngedig i drethiant yn y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau unigolyn.

## Cyflog cysylltiedig â pherfformiad

Mae unrhyw gynnydd mewn cyflog yn amodol ar gael asesiad bod perfformiad naill ai’n ‘Rhagorol’ neu’n ‘Cyflawni’ gan y Prif Weithredwr ac ar broses safoni gan y Pwyllgor Pobl a Chyflogau. Bydd y cynnydd a roddir yn cael ei bennu gan y codiad cyflog a gymhwysir ar gyfer y bobl hynny sydd o fewn yr uned gydfargeinio. Pan fernir bod rhywun yn tanberfformio ni fydd codiad cyflog yn cael ei roi.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ymdrinnir fel enillion y gellir eu trethu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol dderbyn buddion mewn nwyddau yn ystod 2022/23 a 2021/22.

Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r uwch-staff dderbyn unrhyw daliadau eraill ar wahân i'r symiau a ddangosir uchod.

## Buddiannau pensiwn

| Aelod y Tîm Gweithredol | Pensiwn cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/3/23 £000 | Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/3/23 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/23 £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/22 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman (Prif Weithredwr) | 65-70 | 135-140 | 0-2.5 | 0 | 1,387 | 1,261 | (30) |
| Rachael Cunningham | 35-40 | 0 | 0-2.5 | 0 | 575 | 513 | 3 |
| Ceri Davies | 55-60 | 75-80 | 0-2.5 | (2.5)-0 | 1,149 | 1,017 | (9) |
| Prys Davies | 35-40 | 60-65 | 0-2.5 | 0 | 613 | 553 | (5) |
| Sarah Jennings | 5-10 | 0 | 2.5-5 | 0 | 103 | 60 | 31 |
| Gareth O’Shea | 60-65 | 95-100 | (2.5)-0 | (7.5)-(5) | 1,139 | 1,046 | (51) |

Mae pensiwn cyflog terfynol unigolyn mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer newidiadau mewn lefelau cyflog, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso’r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn timau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam y mae gwerthoedd negyddol i'w gweld.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar bwynt penodol o amser fel ei fod wedi'i asesu ar sail tybiaethau actiwaraidd. Y buddiannau a werthusir yw'r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i'w hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu cymryd.

## Cynnydd real mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal ar gyfer colli swydd

Ni chytunwyd ar iawndal ar gyfer colli swydd yn ystod 2022/23.

## Datgelu cyflog teg

Rhaid i CNC a chyrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae cyfanswm y cyflog yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau pan fo'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2022/23, cafodd tri aelod o staff contract (2021/22: 3) eu talu ar gyfradd uwch na'r cyfarwyddwr a delir fwyaf.

Band cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf (fel y dangosir uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £145,000 i £150,000 (2021/22: £140,000 i 145,000). Roedd hyn 3.8 gwaith (2021/22 3.8 gwaith) cyflog ganolrifol y gweithlu, ac mae’r gymhariaeth mewn perthynas â'r cyflog yn y chwarteli uchaf, canolrifol ac isaf fel a ganlyn:

**Cymhareb tâl y gweithlu**

| | 2022/23 | 2021/22 | Symudiad |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | % |
| Chwartel uchaf | 46,003 | 42,885 | 7.27 |
| Cymhareb | 3.2 | 3.3 | |
| Canolrif | 38,492 | 37,119 | 3.70 |
| Cymhareb | 3.8 | 3.8 | |
| Chwartel isaf | 32,876 | 31,490 | 4.40 |
| Cymhareb | 4.4 | 4.4 | |

Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio rhwng £21,655 a £72,627 (2021/22: rhwng £19,100 a £70,070).

**Canran y cynnydd mewn cyflog, buddion mewn nwyddau a thâl ar sail perfformiad yn ystod y flwyddyn oedd:**

| | Symudiad<br>% |
|---|---|
| Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | 3.65 |
| Holl staff | 4.31 |

## Adroddiad staff

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau ein gweithlu. Mae’r tablau isod yn cynnwys staff sy'n gyflogeion parhaol, penodiadau cyfnod penodol a phrentisiaid yn ogystal â staff asiantaeth, contractwyr a secondeion.

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyflog cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyflog cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyflog cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,391 | 1,364 | 1,168 | 1,097 | 2,559 | 2,461 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 13 | 13 | 14 | 13.5 | 27 | 26 |
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,364 | 1,331 | 1,102 | 1,028 | 2,466 | 2,359 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 11 | 10 | 11 | 12.5 | 25 | 23 |
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Roedd nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:**

| | 2022/23 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 2,180 | 52 | 2,232 | 2,144 |
| Staff asiantaeth a chontract | 0 | 158 | 158 | 164 |
| **Cyfanswm** | **2,180** | **210** | **2,390** | **2,308** |

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 246.1 (2021/22: 232.2).

## Trosiant staff

Y trosiant staff yn ystod 2022/23 oedd 5.8% heb gynnwys gweithwyr dros dro e.e. penodiadau cyfnod penodol (2021/22 6.75%).

## Costau staff

| | | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Taliadau a chyflogau | 85,281 | 13,290 | 98,571 | 93,123 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 9,622 | 558 | 10,180 | 8,971 |
| Costau pensiwn eraill | 21,578 | 400 | 21,978 | 20,415 |
| **Cyfanswm costau cyflogau net** | **116,481** | **14,248** | **130,729** | **122,509** |
| | | | | |
| **Gwariant arall ar gyfer staff** | | **Nodyn** | | |
| Costau pecynnau ymadael | | | 81 | 159 |
| Tâl gwasanaeth Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau) | | 15 | 14,855 | 16,353 |
| Llai costau pensiwn ymddeoliadau cynnar | | | 78 | (15) |
| Llai cyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn | | | (6,894) | (6,894) |
| Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd | | | 138 | (140) |
| **Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff** | | | **8,258** | **9,463** |
| Llai symiau a delir i brosiectau cyfalaf | | | (14,136) | (12,757) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **124,851** | **119,215** |

Gellir gweld manylion rhwymedigaethau pensiwn CNC yn Nodyn 15.
Ceir manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau. Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £14.7 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr (2021/22: £11.3 miliwn).

## Cynlluniau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun agored ac yn cynnwys y cynllun buddion diffiniedig, Alpha, yn ogystal â chynllun cyfraniadau diffiniedig partneriaeth rhanddeiliaid. Mae CNC hefyd yn aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

## Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha". Ond nid yw'r cynlluniau yn nodi cyfran sefydliadau unigol o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r PCSPS fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/knowledge-centre/resources/resource-accounts/

Ar gyfer 2022/23, roedd £14,965,000 o gyfraniadau cyflogwr yn ddyledus i'r PCSPS (2021/22: £13,204,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy (26.6% i 30.3% ar gyfer 2020/21), yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Mae cyfraddau'r cyfraniadau wedi'u gosod er mwyn talu costau'r buddion a gronnir yn ystod 2022/23, sydd i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

## Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £156 (2021/22: £152) i'r darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio rhwng 8% a 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £5,000 sef 0.5% o gyflog pensiynadwy (2021/22: £5,000), yn daladwy i'r PCSPS i dalu'r costau o ddarparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marw yn y swydd neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

## Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae CNC yn gwneud taliadau i'r EAPF (Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd), fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), drwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Cynllun pensiwn statudol i'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r LGPS, sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Bob tair blynedd, mae'r EAPF yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2022, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 103% (2019: 106%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Mae gan CNC gytundeb derbyn cymunedol gyda'r EAPF i gymryd rhan yn yr LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff yr hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a drosglwyddodd i CNC ar 1

Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwarant gan yr EAPF i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau sy’n deillio o gyfranogiad CNC yn yr EAPF.

Cyfradd y cyfraniad cyflogwr yn ystod 2022/23 oedd 23.76% (2021/22: 24.67% o fis Ebrill 2021 a 23.76% o fis Mehefin 2021). Yn 2022/23 talwyd cyfraniadau cyflogwr o £6,894,000 i’r LGPS (2021/22: £6,894,000) sy'n lleihau'r balans ar gronfa bensiwn IAS 19.

## Pecynnau ymadael

| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost: | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---:|---:|
| Llai na £10,000 | 4 | 2 |
| £10,001 – £25,000 | 2 | 1 |
| £25,001 – £50,000 | 1 | 0 |
| £50,001 – £100,000 | 0 | 2 |
| £100,001 – £150,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **5** |
| **Cost adnoddau** | **£88,000** | **£159,000** |

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2022/23 nac yn 2021/22.

Mae costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cafodd eu cyfrif yn 2022/23. Mae’r costau pecyn ymadael yn y nodyn ynghylch costau staff uchod yn cynnwys croniad blwyddyn flaenorol o £7k ar gyfer gweithiwr y disgwyliwyd y byddai’n ymadael yn ystod y flwyddyn, ond nad yw wedi gwneud hynny. Mewn gwirionedd, talwyd costau ymadael o £99k yn 2022/23, sef y flwyddyn ymadael.  Pan fo CNC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan CNC ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y tabl.

**Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**

Dangosodd cyfradd ein habsenoldebau oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) y collodd pob cyflogai 6.09 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 2.7%.

## Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Yn ystod 2022/23, gwnaethom barhau i gydymffurfio â'n cynllun gwarantu cyfweliad ‘Tic Dwbl’, lle mae ymgeiswyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy’n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani, yn derbyn cyfweliad yn awtomatig.

Yn allanol, cawsom geisiadau gan 4,144 o bobl, yr oedd 83 (2%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Yn fewnol, cawsom geisiadau gan 1,155 o bobl, yr oedd tri (0.25%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad ‘Tic Dwbl’**

## Rhwydweithiau staff i weithwyr (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae rhwydweithiau staff i weithwyr yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cydweithwyr a'r sefydliad. Mae rhwydweithiau staff i weithwyr yn cael eu rhedeg gan staff ar gyfer staff ac yn dod â phobl sy'n uniaethu ag eraill o gefndir neu nodwedd warchodedig debyg ynghyd o bob rhan o'r gweithle. Gall rhwydweithiau staff i weithwyr hefyd gyflawni swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio yn gymdeithasol, cefnogaeth gan gymheiriaid a datblygiad personol.

Mae gan bob rhwydwaith staff i weithwyr arweinydd rhwydwaith, neu caiff y rôl ei chyflawni ar y cyd â chydweithiwr arall. Mae'r rolau hyn yn cael eu cyflawni'n wirfoddol ac yn cynnig cyswllt i staff pan fo angen cefnogaeth neu gyfeirio.

Fel sefydliad rydym yn gwerthfawrogi ein rhwydweithiau staff i weithwyr sydd wedi eu trefnu gan y staff eu hunain gan eu bod yn creu amgylchedd sy’n parchu amrywiaeth y staff, ac yn galluogi staff i ymgysylltu a mwynhau yn y gweithle.

Rydym yn cefnogi’r rhwydweithiau staff i weithwyr drwy wneud y canlynol:

- Hyrwyddo'r rhwydweithiau staff i weithwyr i gyflogeion newydd a phresennol drwy'r broses sefydlu a thrwy'r fewnrwyd
- Annog rheolwyr i ryddhau arweinwyr rhwydwaith er mwyn iddynt allu trefnu a hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau
- Annog rheolwyr i ryddhau gweithwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydwaith staff i weithwyr
- Cefnogi arweinwyr rhwydwaith i ddod yn swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.

- Cymryd rhan mewn digwyddiadau a mentrau a ddatblygir gan y rhwydwaith staff i weithwyr
- Gwrando'n adeiladol ar unrhyw bryderon sydd gan weithwyr drwy'r Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Wedi ymrwymo i Niwroamrywiaeth mewn Busnes ym mis Mawrth 2023
- Aelodaeth newydd o Gyflogwyr i Ofalwyr fis Ionawr 2023
- Adnewyddu ein haelodaeth Stonewall ym mis Ebrill 2023

Mae gennym saith rhwydwaith staff i weithwyr ar hyn o bryd, fel a ganlyn: -

- Grwpiau Defnyddwyr a Gynorthwyir (TGCh a Theleffoni)
- Rhwydwaith Calon LHDTC+
- Y Gymdeithas Gristnogol
- Cwtsh (Rhwydwaith Gofalwyr)
- Cyfeillion Dementia
- Rhwydwaith Mwslimiaid
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae’r rhwydweithiau staff i weithwyr wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i wneud ein sefydliad yn fwy cynhwysol drwy rannu profiadau, gwybodaeth a gwybodaeth i’w hystyried wrth ddatblygu ein polisïau, ein gweithdrefnau a’n harferion yn y gweithle, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Pasbort Gwaith a Llesiant i staff a lansiwyd ym mis Medi 2022, ac sy’n cyfrannu at y Polisi Dulliau Gweithio.

Mae calendr Ymwybyddiaeth o Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd wedi'i ddatblygu sy'n cefnogi ymagwedd fwy cydlynol at sut mae ein rhwydweithiau staff i weithwyr yn cydweithio yn y gweithle.

## Swyddi oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae’n ofynnol i CNC gyhoeddi gwybodaeth am benodi ymgynghorwyr neu aelodau staff sy'n para'n hwy na chwe mis a lle mae unigolion yn ennill mwy na £245 y dydd, lle rydym yn talu drwy anfonebu ac nid y gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau, os yw rhywun yn gweithio drwy gyfryngwr ac y byddai wedi cael ei ystyried fel cyflogai at ddibenion treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol pe bai’n cael ei gyflogi’n uniongyrchol gan CNC, ei fod yn talu’r un cyfraniadau treth incwm ac yswiriant gwladol â phe baent yn gyflogedig. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sydd wir yn hunangyflogedig.

Cyfrifoldeb CNC yn hytrach na'r cyfryngwr yw cynnal yr asesiad at ddibenion treth. Os penderfyniad yr asesiad yw bod y rôl o fewn cwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu yr un dreth cyflogai ag y byddai cyflogai ar y gyflogres.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn.

**Swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis.**

| Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2023 sydd wedi bodoli am: | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| llai na blwyddyn | 11 |
| rhwng un a dwy flynedd | 18 |
| rhwng dwy a thair blynedd | 18 |
| rhwng tair a phedair blynedd | 23 |
| pedair blynedd neu'n hwy | 30 |
| **Cyfanswm** | **99** |

Mae mwyafrif y contractwyr yn cefnogi'r tîm Trawsnewid wrth ddatblygu a thrawsnewid ein systemau TGCh.

**Swyddi newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis.**

| | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| Nifer y swyddi newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. | 21 |
| o'r rhain: | |
| Y nifer a aseswyd fel rhai sy'n dod o dan drefniadau IR35 | 0 |
| Y nifer a aseswyd fel rhai nad ydynt yn dod o dan drefniadau IR35 | 21 |
| Y nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar gyflogres CNC | 0 |
| Nifer y swyddi a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 9 |
| Nifer y swyddi a welodd newid i'w statws IR35 ar ôl yr adolygiad cysondeb | 0 |

# Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni ddatgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth pan fydd eu cyfanswm yn fwy na £300,000 ac ar gyfer unrhyw eitemau unigol sy'n werth £300,000 neu ragor.

### Colledion unigol o £300,000 neu fwy

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig o £300,000 neu fwy yn ystod 2022/23.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cofnodwyd dilead gwerth £1,336,000. Gostyngwyd gwerth ased anniriaethol a oedd yn cael ei adeiladu mewn perthynas â system feddalwedd ar gyfer y labordai o'r swm hwn oherwydd nad oedd y cyflenwr meddalwedd yn gallu cyflawni'r gwaith o dan y contract mwyach. Mae adolygiad annibynnol wedi cael ei gynnal fel y gellir dysgu gwersi ar gyfer prosiectau o'r math hwn yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwnaeth CNC daliad arbennig hefyd yn ymwneud ag ad-dalu ffioedd o £687,000 i Horizon Nuclear Power ar ôl i weithgareddau datblygu ar safle Wylfa Newydd ddod i ben.

### Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau am ddileu taliadau a gwneud taliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

| Categori neu fath o golled | 2022/23 Nifer | 2022/23 £’000 | 2021/22 Nifer | 2021/22 £’000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Dileu dyledion na ellir eu hadennill | 161 | 222 | 45 | 114 |
| Asedau a gollwyd | 10 | 44 | 11 | 1,441 |
| Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion) | 5 | 49 | 20 | 9 |
| Taliadau arbennig | 8 | 63 | 4 | 1,145 |
| **Cyfanswm** | **184** | **378** | **80** | **2,709** |

**Clare Pillman**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **18 Hydref 2023**

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan baragraff 23 o'r Atodlen i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, y datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gynyddol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifeg sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Rhagair, Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Rhagair, Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- Nid yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Atebolrwydd yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifeg;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifeg, mae'r Swyddog Cyfrifeg yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo'n ei benderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â phryder parhaus a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd

rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwiliwyd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, cydnabyddiaeth gwariant, postio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolaeth, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
23 Hydref 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio’r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# DATGANIADAU ARIANNOL
# a
# NODIADAU I'R CYFRIFON

## ar gyfer 2022/23

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£'000 | 2021/22<br>Fel yr ailddatganwyd<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 3 | 124,851 | 119,215 |
| Gwaith cyfalaf mewn treuliau yn y flwyddyn | 4 | 32,768 | 25,635 |
| Gwariant arall | 5 | 114,528 | 110,128 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 272,147 | 254,978 |
| Incwm taliadau | 6 | (40,028) | (37,311) |
| Incwm masnachol ac arall | 6 | (49,132) | (48,072) |
| Grantiau Llywodraeth Cymru* | | (22,234) | (16,306) |
| Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall | 6 | (4,750) | (2,198) |
| **Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid** | | (116,144) | (103,887) |
| **Gwariant gweithredu net cyn enillion ar ailbrisio asedau ariannol a biolegol** | | **156,003** | **151,091** |
| (Enillion)/colledion ar ailbrisio asedau biolegol | 7.1 | 2,636 | (104,647) |
| (Enillion)/colledion ar ailbrisio asedau/rhwymedigaethau a | 9 / 10 | (313) | (4,154) |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn ar ôl enillion ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **158,326** | **42,290** |
| Cyllido ar asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 15.2.5 | 1,667 | 2,294 |
| Costau cyllid | 8.2 | 117 | - |
| Enillion/colledion net ar ailbrisio | | (58) | 975 |
| **Diffyg/(Gwarged) ar gyfer y flwyddyn** | | **160,052** | **45,559** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesuriadau actiwaraidd pensiynau | 15.2.5 | (129,425) | (64,008) |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | SoCTE | (186,965) | (356,562) |
| **Cyfanswm gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | **(156,338)** | **(375,011)** |

*Mae taliadau nad ydynt yn gymorth grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cofnodi fel incwm yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain wedi'u categoreiddio'n flaenorol fel cymorth grant, a'u credydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol. Mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu effaith y newid hwn yn y dyraniad yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 92 i 136 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
### Ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7.1 | 2,127,219 | 2,020,356 |
| Asedau treftadaeth | 7.1 | 7,474 | 7,403 |
| Asedau biolegol | 7.1 | 447,864 | 457,790 |
| Asedau anniriaethol | 7.2 | 31,647 | 29,602 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 8.1 | 69,815 | - |
| Asedau ariannol | 10 | 16,358 | 16,807 |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 11 | 3,462 | 3,451 |
| Ased pensiwn | 15.2.5 | 65,345 | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 2,769,184 | 2,535,409 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar ar werth | | 9 | 399 |
| Ased ariannol ar werth | 10 | - | 1,475 |
| Rhestrau eiddo | | 612 | 580 |
| Symiau Masnach ac eraill yn dderbyniadwy | 11 | 38,889 | 26,536 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parc | 12 | 5,077 | 8,993 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | 44,587 | 37,983 |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **2,813,771** | **2,573,392** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach ac eraill yn daladwy | 13 | (49,077) | (38,206) |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 8.2 | (2,367) | - |
| Darpariaethau | 14 | (1,083) | (266) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | (52,527) | (38,472) |
| | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,761,244** | **2,534,920** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor | 8.2 | (8,276) | - |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 15.2.5 | - | (54,374) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 9 | (39,435) | (39,844) |
| Symiau taladwy hirdymor | 13 | (3,054) | (3,733) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (50,765) | (97,951) |
| | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **2,710,479** | **2,436,969** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol | SoCTE | 554,611 | 565,154 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | SoCTE | 2,090,523 | 1,926,189 |
| Cronfa pensyniau | SoCTE | 65,345 | (54,374) |
| | | | |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,710,479** | **2,436,969** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 92 i 136 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y bwrdd ar 18 Hydref 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 18 Hydref 2023

## Datganiad Llifau Arian

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£'000 | 2021/22<br>Fel yr ailddatganwyd<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoCNE | (156,003) | (151,091) |
| Addasu trafodiadau anariannol | | 49,741 | 54,775 |
| Symudiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | (12,364) | (7,189) |
| Symudiad mewn masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 10,192 | 5,858 |
| Symudiad mewn rhwymedigaethau ariannol | SoFP | (409) | (53) |
| Symudiad mewn darpariaethau | SoFP | 817 | 193 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(108,026)** | **(97,507)** |
| | | | |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 7 | (6,368) | (8,154) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | (7,120) | (7,705) |
| Enillion o gael gwared ar eiddo, offer a chyfarpar | | 816 | 1,158 |
| Elw ar gael gwared ar asedau ariannol | | 1,827 | - |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(10,845)** | **(14,701)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru* | SoCTE | 117,777 | 113,346 |
| Ad-dalu rhwymedigaethau lesoedd | 8 | (2,822) | - |
| **Cyllido net** | | **114,955** | **113,346** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod** | | **(3,916)** | **1,138** |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **8,993** | **7,855** |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 12 | **5,077** | **8,993** |

*Mae taliadau nad ydynt yn gymorth grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cofnodi fel incwm yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain wedi'u categoreiddio'n flaenorol fel cymorth grant, a'u credydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol. Mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu effaith y newid hwn yn y dyraniad yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 92 i 136 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Cronfa gyffredinol | Cronfa ailbrisio wrth gefn | Cronfa bensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans agoriadol** | **565,154** | **1,926,189** | **(54,374)** | **2,436,969** |
| Addasiad Enillion Wrth Gefn IFRS 16 | (605) | | - | **(605)** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 156,338 | - | - | **156,338** |
| **Symudiad yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | (179,497) | 179,497 | - | **-** |
| Ailbrisio asedau hawl i ddefnyddio | (7,468) | 7,468 | - | **-** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 22,631 | (22,631) | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (129,425) | - | 129,425 | **-** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | 9,706 | - | (9,706) | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(284,053)** | **164,334** | **119,719** | **-** |
| **Cyllid** | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 117,777 | - | - | **117,777** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **554,611** | **2,090,523** | **65,345** | **2,710,479** |

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Cronfa gyffredinol | Cronfa ailbrisio wrth gefn | Cronfa bensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **Fel yr ailddatganwyd** | | | **Fel yr ailddatganwyd** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans agoriadol** | | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | **459,285** | **1,595,971** | **(106,644)** | **1,948,612** |
| **Symudiad yn ystod y flwyddyn** | 375,011 | - | - | **375,011** |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | | | |
| Ailbrisiad a wireddwyd | (356,562) | 356,562 | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 26,344 | (26,344) | - | **-** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | (64,008) | - | 64,008 | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | 11,738 | - | (11,738) | **-** |
| **Cyllid** | **(382,488)** | **330,218** | **52,270** | **-** |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | 113,346 | - | - | **113,346** |
| | **565,154** | **1,926,189** | **(54,374)** | **2,436,969** |

Mae taliadau nad ydynt yn gymorth grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cofnodi fel incwm yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain wedi'u categoreiddio'n flaenorol fel cymorth grant, a'u credydu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol. Mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu effaith y newid hwn yn y dyraniad yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 92 i 136 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodyn 1 Polisïau cyfrifyddu

## 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â llawlyfr adroddiadau ariannol y Llywodraeth (FReM) 2022/23 a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, a gyda'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r safonau adroddiadau ariannol rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu eu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sydd fwyaf priodol i roi golwg gwir a theg ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd isod ac yn y gwahanol nodiadau i'r cyfrifon. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn ddeunyddiau i'r cyfrifon.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'n ofynnol gwneud amryw amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau cyfrifyddu a symiau yr adroddir amdanynt. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, rhagdybiaethau ynghylch digwyddiadau'r gorffennol a rhagolygon am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Dangosir y meysydd amcangyfrif mwyaf arwyddocaol a'r dyfarniadau beirniadol yn erbyn y nodiadau perthnasol, a gall canlyniadau gwirioneddol y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

## 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol, a addaswyd yn unol â'n polisïau, gan ystyried ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anghyfredol anniriaethol i werth teg fel y'u pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn seiliedig ar yr egwyddor busnes gweithredol.

## 1.3 Cymorth grant

Mae taliadau cymorth grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbynnir gan barti rheoli. Fe'u cofnodir fel trafodiad cyllido ac fe'u credydir yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ac nid trwy'r Datganiad o Wariant net Cynhwysfawr.

Mae taliadau eraill nad ydynt yn Gymorth Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Roedd y taliadau hyn wedi'u categoreiddio'n flaenorol o fewn Cymorth Grant, ac felly mae cymariaethau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newid hwn.

## 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y mae'r gweithgaredd perthnasol yn cael ei gynnal, yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Ffioedd opsiynau ac incwm cysylltiedig a dderbynnir gan weithredwyr ffermydd gwynt yw'r unig eithriad, y rhoddir cyfrif amdanynt yn y flwyddyn y cawsant eu derbyn. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ffermydd gwynt sy'n ddarostyngedig i nodyn cyngor technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni adnewyddadwy (TAN 8) yn daladwy i Lywodraeth Cymru. Cesglir yr incwm gan CNC, tynnir y gwariant perthnasol o'r incwm a throsglwyddir y balans i Lywodraeth Cymru.  Mae’r les ar gyfer fferm wynt Cefn Croes yn eithriad gan fod yr incwm a gynhyrchir gan y les hon yn cael ei gadw gan CNC.  I gyfateb i’r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifyddu, dangosir gwerth net incwm fferm wynt ar ôl didynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru yn yr incwm ynni adnewyddadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbynnir cyn cwblhawyd y gwaith yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Pan gydnabuwyd incwm a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, cofnodir swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Pan na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, mae balans y symiau derbyniadwy yn cael ei gofnodi a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm na fyddai o bosibl yn cael ei gasglu.

Cydnabyddir cyfraniadau grant a dderbynnir nad ydynt yn gymorth grant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.5 Rhestrau eiddo

Mae stocrestr yn cynnwys stociau coed sydd wedi cwympo ac sy’n cael eu prisio fel gwerth teg llai y costau gwerthu amcangyfrifedig y disgwylir iddynt gael eu cwblhau a'u gwaredu.  Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwyliedig.

## 1.6 Treth ar werth

Dosberthir CNC fel corff y mae adran 33 Deddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn berthnasol iddo, ac yn unol â hynny, mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn fusnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, pan godir treth allbwn, neu y gellir adennill treth fewnbwn, nodir y symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn net o TAW.

## 1.7 Ardaloedd draenio mewnol

Mae CNC yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n cynnal 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Ariennir y gwaith a wneir ym mhob ardal drwy gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar ddeiliaid tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol perthynas â thir nad yw'n amaethyddol.

Mae'n ofynnol, o dan adran 40 Deddf Draenio Tir 1991, i CNC bennu cyfraddau draenio, a thrwy reoliad 7 Rheoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992, i gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

Gosodwyd y cyfraddau draenio, ardollau arbennig a phraeseptau ar gyfer 2022/23 gan CNC, sy'n gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn nodyn 6.

## 1.8 Asedau diriaethol

Yn hanesyddol, mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (yr adroddir amdanynt mewn strwythurau gweithredol) yn cael prisiad proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer Prisiadau llawn (Gweler Nodyn 7). Rhwng prisiadau llawn, mae asedau'n cael eu prisio'n rheolaidd bob blwyddyn. Ar gyfer 2022/23, darparwyd y prisiadau hyn gan gwmnïau perthnasol syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol. Cwblhawyd y prisiadau ar gyfer yr asedau hyn hefyd yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS fel y cyfeiriwyd atynt uchod.

## 1.9 Mabwysiadu dehongliadau safonau adrodd ariannol rhyngwladol (IFRS) neu lawlyfr adroddiadau ariannol y Llywodraeth (FReM) newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

### Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

O 1 Ebrill 2022, mae CNC yn cydnabod taliadau eraill nad ydynt yn Gymorth Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.  Yn flaenorol roedd gan y taliadau hyn wedi'u categoreiddio fel cyllid a'u credydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Rydym wedi ailddatgan ffigurau'r flwyddyn gymharol i adlewyrchu'r newid mewn polisi hwn yn ôl-weithredol.

### Newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

### Safonau adrodd ariannol rhyngwladol sy'n effeithiol yn y datganiadau ariannol hyn

Mae'r holl IFRS, dehongliadau a diwygiadau sy'n effeithiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi'u mabwysiadu yn y datganiadau hyn.

*IFRS 16 - Lesoedd*

O 1 Ebrill 2022 mae CNC wedi cymhwyso IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig ac felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi'i hailddatgan ac mae'n parhau i gael ei hadrodd dan IAS 17 "Lesoedd".

Wrth gymhwyso IFRS 16, ar gyfer pob les, mae CNC wedi:

a) cydnabod asedau hawl i ddefnyddio cydnabyddedig a rhwymedigaethau lesoedd yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, wedi'u mesur i ddechrau ar werth presennol taliadau prydles yn y dyfodol.

b) cydnabod dibrisiant cydnabyddedig o asedau hawl i ddefnyddio a llog ar rwymedigaethau prydles yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr;

c) gwahanu cyfanswm yr arian parod a dalwyd yn brif gyfran (a gyflwynir o fewn gweithgareddau ariannu) a llog (a gyflwynir o fewn gweithgareddau gweithredu) yn y datganiad llif arian.

Gweler nodyn 8 am ragor o fanylion am weithrediad IFRS 16 o 1 Ebrill 2022.

**Safonau adrodd ariannol rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

Mae nifer o IFRS, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, yn effeithiol mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i CNC isod. Nid yw CNC wedi mabwysiadu unrhyw safonau IFRS newydd yn gynnar a byddant yn defnyddio'r safonau wrth eu mabwysiadu'n ffurfiol yn y FReM.

*IAS 1 - Cyflwyno Datganiadau Ariannol*

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer datganiadau ariannol gan gynnwys sut y dylid eu strwythuro, gofynion cynnwys sylfaenol a chysyniadau gor-redol megis busnes gweithredol, sail gronni cyfrifyddu a'r gwahaniaeth cyfredol/anghyfredol.

Ar 12 Chwefror, 2021, cyhoeddodd yr IASB Datgeliad o Bolisïau Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2) gyda diwygiadau gyda'r bwriad o helpu paratowyr i benderfynu pa bolisïau cyfrifyddu i'w datgelu yn eu datganiadau ariannol. Daw'r diwygiadau i rym ar gyfer cyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr, 2023.

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd yr IASB Rhwymedigaethau Anghyfredol â Chyfamodau, (Diwygiadau i IAS 1), i egluro sut mae amodau y mae'n rhaid i endid gydymffurfio â hwy o fewn deuddeg mis ar ôl y cyfnod adrodd yn effeithio ar ddosbarthiad rhwymedigaeth. Daw'r diwygiadau i rym ar gyfer cyfnodau adrodd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr, 2024.

Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*IAS 8 – Polisïau Cyfrifo, Newidiadau mewn Amcangyfrifon Cyfrifo a Gwallau*

Mae'r safon hon yn gosod y sail ar gyfer cymhwyso polisïau cyfrifo, cyfrifo am newidiadau mewn amcangyfrifon ac adlewyrchu cywiriadau o wallau cyfnod blaenorol.

Ar 12 Chwefror, 2021, cyhoeddodd yr IASB Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8) i helpu endidau i wahaniaethu rhwng polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon cyfrifyddu. Daw'r diwygiadau i rym ar gyfer cyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr, 2023.

Ni ddisgwylir i'r diwygiad hwn gael unrhyw effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*IFRS 17 - Contractau Yswiriant*

Bydd y safon hon yn berthnasol i bob math o gontract yswiriant ac yn cynnig dull blociau adeiladu yn seiliedig ar werth presennol disgwyliedig llif arian yn y dyfodol i fesur rhwymedigaethau contract yswiriant. Mae IFRS 17 yn effeithiol am gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023, neu ar ôl hynny.

Mae Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRAB) yn cael sawl diweddariad gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu IFRS 17. Hysbyswyd FRAB o'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt fel rhan o'r gweithgor technegol ar gyfer gweithredu IFRS 17, gan gynnwys ceisio deall ac amlinellu cwmpas IFRS 17 yn llawn. Mae FRAB yn awyddus i ddeall yn llawn gwmpas y safon hon a'r effaith a gaiff ar y sector cyhoeddus. Ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd FRAB bapur bwrdd yn manylu ar effaith IFRS 17. Roedd hyn yn rhoi rhywfaint o eglurhad o'r canllawiau ymgeisio a dyddiad gweithredu'r safon. Mae’r safon i’w chymhwyso yn FReM o 1 Ebrill 2025 (gydag opsiynau cyfyngedig ar gyfer mabwysiadu cynnar); bydd newidiadau i’r FReM yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Bydd CNC yn parhau i adolygu'r datblygiadau a'r effaith bosibl.

### 1.10 Darpariaethau ariannol (safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer pob safle tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn cyflwyno trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau camau gweithredu gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo angen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb tirlenwi.

Mae'r canlynol yn brif systemau y bydd CNC yn eu derbyn ar gyfer dangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (dangosir yn nodyn 13)
- Adneuon arian parod gyda CNC (dangosir yn nodyn 13)
- Cyfrifon Escrow
- Cytundebau gweithredoedd awdurdodau lleol
- Gwarantau rhiant-gwmni
- Cytundebau ymbarél (yn ymwneud â nifer o safleoedd)

### 1.11 Nodiadau i’r cyfrifon

Mae nodyn 2 yn cynnig dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredu.
Mae nodiadau 3 i 15 yn cynnig dadansoddiad o'r ffigurau materol a adroddir yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol a llif arian.
Mae nodiadau 15 i 23 yn ymwneud â ffigurau na ddatgelwyd mewn man arall yn y cyfrifon hyn.

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Mae'r segmentau hyn yn gydrannau er mwyn rheoli ac adrodd am wybodaeth ariannol yn fewnol.
Priodolwyd incwm a gwariant a ddangosir isod yn uniongyrchol i'r segmentau.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Evidence, Policy a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn Ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 26,247 | 111,439 | 66,982 | 8,721 | 11,173 | 47,585 | 272,147 |
| Incwm gweithredu | (39,923) | (49,402) | (16,855) | (9,732) | (232) | - | (116,144) |
| **Cyfanswm** | (13,676) | 62,037 | 50,127 | (1,011) | 10,941 | 47,585 | 156,003 |
| **Gwariant cyfalaf** | 10,650 | 2,085 | 753 | - | - | - | 13,488 |

Mae CNC yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgelu dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn Ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a chostau | 39,496 | 369 | 163 | - | - | - | 40,028 |
| Masnachol | 343 | 38,579 | 246 | 9,732 | 232 | - | 49,132 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 84 | 6,924 | 15,226 | - | - | - | 22,234 |
| Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall | - | 3,530 | 1,220 | - | - | - | 4,750 |
| **Cyfanswm** | 39,923 | 49,402 | 16,855 | 9,732 | 232 | - | 116,144 |
| | | | | | | | |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 1,969 | 9,743 | 15,550 | - | 232 | - | 27,494 |
| Anllywodraethol | 37,954 | 39,659 | 1,305 | 9,732 | - | - | 88,650 |
| **Cyfanswm** | 39,923 | 49,402 | 16,855 | 9,732 | 232 | - | 116,144 |

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment (parhad)

**Disgrifiad o segmentau**

| | |
|---|---|
| Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu gwasanaethau ariannol, archwilio a sicrhau risg, gwasanaethau TGCh, rheoli adeiladau a fflyd, a'r rhaglen adnewyddu. |
| Gweithrediadau | Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau y prif gyfrifoldeb dros sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ardal ddaearyddol Cymru, gan gynnwys ei hamgylchedd morol, ar draws ystod o gylch gwaith CNC. Mae hefyd yn rheoli rhaglenni cyfalaf, gweithrediadau masnachol a gwasanaethau cynllunio a morol ar gyfer Cymru gyfan. |
| Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Mae'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn darparu cydgysylltiad canolog blaengar i'r sefydliad, gan arwain ar y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth, tystiolaeth, offer, safonau, arweiniad a chyngor i alluogi timau eraill CNC, cydweithwyr a phartneriaid Llywodraeth Cymru i gyflawni eu cylch gwaith. Mae hefyd rhai rolau cyflawni uniongyrchol yn y gyfarwyddiaeth fel y gwasanaeth trwyddedu a'r gwasanaeth rhagweld llifogydd. |
| Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Canolfan cysylltiadau allanol, cyfathrebu a chyswllt â chwsmeriaid. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am wasanaethau masnachol a chymorth caffael. |
| Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Mae'r Gyfarwyddiaeth Datblygu a Strategaeth Gorfforaethol yn arwain nifer o swyddogaethau trawsbynciol CNC, gan gynnwys cynllunio strategol a pherfformiad; gwelliant parhaus a rheoli rhaglenni; datblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff; a llywodraethu corfforaethol. Mae hefyd yn cefnogi bwrdd a phrif weithredwr CNC. |
| Rheolir yn Ganolog | Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrennir i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr torri coed, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau. |

**Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (fel yr ailddatganwyd)**

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn Ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 27,058 | 99,224 | 59,746 | 8,156 | 8,245 | 52,549 | 254,978 |
| Incwm gweithredu | (37,593) | (43,295) | (1,307) | (5,256) | (130) | - | (87,581) |
| **Cyfanswm** | (10,535) | 55,929 | 58,439 | 2,900 | 8,115 | 52,549 | 167,397 |
| **Gwariant cyfalaf** | 8,806 | 2,358 | 4,695 | - | - | - | 15,859 |

## 3. Costau staff

Mae manylion pellach am gostau a niferoedd staff bellach yn cael eu datgelu yn y tabl Costau Staff yn yr adroddiad taliadau a staff.

| | 2022/23 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol £'000** | **Staff arall £'000** | **Cyfanswm £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| Cyflogau | 85,281 | 13,290 | 98,571 | 93,123 |
| Nawdd cymdeithasol a chostau trethu eraill | 9,622 | 558 | 10,180 | 8,971 |
| Costau pensiwn eraill | 21,578 | 400 | 21,978 | 20,415 |
| **Cyfanswm costau cyflogau net** | **116,481** | **14,248** | **130,729** | **122,509** |
| Gwariant arall ar gyfer staff | | | 8,258 | 9,463 |
| Llai symiau a delir i brosiectau cyfalaf | | | (14,136) | (12,757) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **124,851** | **119,215** |

## 4. Gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn

| | 2022/23 | 2021/22 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Gwirioneddol** | **Wedi'i ymrwymo** | **Wedi'i ymrwymo** |
| **Categorïau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwaith gweithredol | 30,584 | 23,113 | 23,434 | 10,211 |
| Grantiau cyfalaf | 2,184 | 2,522 | 139 | 1,719 |
| **Cyfanswm** | **32,768** | **25,635** | **23,573** | **11,930** |

Mae gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n gyfalaf o ran natur ond lle nad CNC sy'n gyfrifol am y risgiau a'r manteision cysylltiedig neu'n berchen ar yr ased sy'n cael ei adeiladu. Yn unol ag IAS 16, mae gwariant yn gyfalaf ei natur pan fo'n ymwneud ag asedau y bwriedir eu defnyddio, yn barhaus, wrth gynhyrchu neu gyflawni swyddogaethau CNC neu at ddiben gweinyddol. Ni fwriedir iddynt gael eu gwerthu yn ystod busnes arferol. At ddibenion gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn, gellir diffinio ei natur gyfalaf hefyd drwy gytundeb grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Y meini prawf ar gyfer gwariant i'w ddosbarthu fel gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn yw;

- Lle mae cyllid cyfalaf dynodedig Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu i gynllun, na fyddai fel arfer yn arwain at gaffael ased diriaethol neu anniriaethol sy'n eiddo i CNC yn unol ag IAS 16
- Lle nad yw'r risg a'r gwobrau sy'n ymwneud â bod yn berchen ar yr ased yn nwylo CNC, ond gyda thrydydd parti; neu
- Lle na fyddai'r ased sy'n cael ei greu, waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, yn gallu cael ei nodi'n hawdd mewn unrhyw ymarfer dilysu asedau yn y dyfodol.

**Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:**

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol wedi'u hadeiladu ar dir nad yw CNC yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniataol i gynnal amddiffyniad, megis:

- Adfer
  Gwaith i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei gadw yn y cyflwr priodol a'i adfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Argloddiau
  Creu, gwella neu ddwysáu argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr i leihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Mapio Llifogydd
  Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n cyflwyno gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr yng Nghymru, ac sy'n cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd llifogydd hynny.
- Seilbyst
  Gosod seilbyst ar hyd glannau'r afon i'w cryfhau a diogelu'r tir cyfagos ac atal tirlithriadau i'r afon rhag achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn o dan y ddaear i raddau helaeth.
- Gwelliannau i geuffosydd a sianelau
  Atgyweirio neu ailosod ceuffosydd o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwella sianeli sy'n cynorthwyo llif cyrsiau dŵr.
- Strategaethau rheoli'r perygl o lifogydd
  Datblygu strategaethau i gynnig opsiynau hirdymor o ran rheoli'r perygl o lifogydd i gynnwys ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau risg llifogydd unigol yn cael eu datblygu.
- Cynlluniau rheoli llifogydd
  Mae Cynlluniau Rheoli Lefel y Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch yn cael eu paratoi gyda'r nod o lunio polisïau rheoli'r perygl o lifogydd sy'n rheoli'r perygl o lifogydd mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor ar draws dalgylch.
- Gwaith arall
  Gwneud gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod. Creu dyluniad manwl o systemau trin dŵr i atal llygredd dŵr o fwyngloddiau. Llunio astudiaethau dichonoldeb, adeiladu a datblygu archwiliadau o amgylch y mwyngloddiau i ddargyfeirio'r dŵr i ffwrdd o'r mwyngloddiau.

Gwaith sy'n gwella statws cadwraeth tir nad yw o dan reolaeth uniongyrchol CNC. Mae hyn yn cynnwys gwella safleoedd coetir hynafol a blannwyd â blaenoriaeth 1 a llwybrau newydd a adeiladwyd at ddefnydd y cyhoedd.

Gwneud gwelliannau i gronfeydd dŵr lle mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn gosod y cyfrifoldeb hwnnw ar berchennog y gronfa ddŵr. Yn benodol, cymerir y mesurau hyn er budd diogelwch.

**Grantiau cyfalaf**

Grantiau yw'r rhain, yn bennaf i awdurdodau lleol, sy'n ariannu gwaith o natur gyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru a grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

## 5. Gwariant arall

| | 2022/23<br>£'000 | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Eitemau arian parod** | | |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 23,512 | 18,944 |
| Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 11,492 | 10,510 |
| Costau TGCh | 7,866 | 7,879 |
| Cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd coedwig | 5,725 | 5,319 |
| Deunyddiau ac offer | 3,932 | 4,423 |
| Costau cynnal swyddfeydd | 3,825 | 3,950 |
| Costau Fflyd [1.] | 2,746 | 3,916 |
| Cytundebau cydweithredol | 2,245 | 1,405 |
| Grantiau | 1,637 | 1,087 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth | 2,561 | 2,450 |
| Costau cysylltiedig â staff | 2,631 | 2,242 |
| Rhenti [1.] | 383 | 1,853 |
| Costau a ffioedd llys | 846 | 1,165 |
| Ardrethi | 710 | 721 |
| Costau gweithredol | 732 | 564 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,096 | 440 |
| Ffioedd archwilio statudol | 182 | 193 |
| Grantiau Ewropeaidd | 192 | 88 |
| Colledion a thaliadau arbennig[2.] | 112 | 1,154 |
| **Is-gyfanswm** | **72,425** | **68,303** |
| | | |
| **Gwariant nad yw'n arian parod** | | |
| Gwerth y pren a werthwyd | 26,476 | 29,856 |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad [1.] | 13,881 | 9,700 |
| Datgydnabod asedau [3.] | 67 | 1,928 |
| Colledion [2.] | 266 | 1,555 |
| Symudiad ar y golled credyd disgwyliedig | 81 | (778) |
| (Enillion)/Colledion wrth waredu | 709 | (219) |
| Symudiad ar ddarpariaethau eraill | 817 | 102 |
| Symudiad ar gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | (194) | (319) |
| **Is-gyfanswm** | **42,103** | **41,825** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **114,528** | **110,128** |

1. Mae gweithredu IFRS 16 yn ystod y flwyddyn wedi arwain at leihad mewn taliadau lesoedd ar gyfer cerbydau a thir ac eiddo sydd wedi'u cynnwys o fewn costau Fflyd a Rhenti yn y drefn honno. Mae asedau a grëwyd o dan IFRS 16 wedi cynyddu'r tâl dibrisiant uchod, gyda'r elfen atebolrwydd yn arwain at dâl cyllid newydd yn y SoCNE. Gweler nodyn 8 am fanylion pellach ar weithredu IFRS 16.

2. Dangosir manylion dyledion a ddilëwyd, colledion a thaliadau arbennig yn yr adroddiad Seneddol ac Archwilio.

3. Cafodd asedau strwythur cyhoeddus o £67k nad yw CNC yn berchen arnynt nac yn eu cynnal eu dad-gydnabod yn ystod 2022/23 (cafodd asedau strwythur cyhoeddus o £1,718k a chostau datblygu TGCh o £210k eu dadgydnabod yn 21/22).

## 6. Dadansoddi incwm

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | 2022/23<br>£'000 | 2021/22<br>Fel yr ailddatganwyd<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 21,452 | 19,132 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,993 | 6,563 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,263 | 3,158 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,182 | 2,029 |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,750 | 1,830 |
| Trwyddedau pysgota | 1,026 | 1,166 |
| Rheoleiddio niwclear | 781 | 1,375 |
| Gwastraff peryglus | 1,389 | 979 |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 698 | 684 |
| Trwyddedu Morol | 351 | 300 |
| Masnachu allyriadau | 143 | 95 |
| **Incwm taliadau** | **40,028** | **37,311** |
| Incwm o bren | 33,652 | 36,944 |
| Incwm o ynni adnewyddadwy[1.] | 9,688 | 5,166 |
| Incwm o ardaloedd draenio mewnol | 1,462 | 1,611 |
| Incwm o ystadau | 2,686 | 2,966 |
| Costau cyfreithiol a adenillwyd ac incwm Deddf Elw Troseddau | 101 | 283 |
| Darparu gwybodaeth a gwasanaethau | 1,492 | 882 |
| Incwm amrywiol | 51 | 188 |
| Llog derbyniadwy | - | 32 |
| **Incwm masnachol ac arall** | **49,132** | **48,072** |
| **Grantiau Llywodraeth Cymru** | **22,234** | **16,306** |
| Incwm Ewropeaidd [2.] | 3,773 | 1,773 |
| Grantiau a chyfraniadau | 977 | 425 |
| **Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall** | **4,750** | **2,198** |
| **Cyfanswm incwm** | **116,144** | **103,887** |

1. Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag incwm ynni gwynt. Mae'r balans o £9,688k (£5,166k yn 2021/22) yn cynrychioli incwm gwerth £18,286k (£12,900k yn 2021/22) ar ôl didynnu'r taliad ffioedd i Lywodraeth Cymru o £8,597k (£7,734k yn 2021/22).

2. Gan gynnwys incwm a hawlir trwy Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

## 6.1 Dadansoddi ffioedd a thaliadau

| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Incwm wedi'i filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged / (diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 20,497 | 21,452 | **(955)** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,748 | 6,993 | **(245)** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: gosodiadau | 3,471 | 3,263 | **208** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: gwastraff | 2,002 | 2,182 | **(180)** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,562 | 1,750 | **(188)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,026 | 1,026 | **0** |
| Rheoleiddio niwclear | 735 | 781 | **(46)** |
| Gwastraff peryglus | 1,328 | 1,389 | **(61)** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 698 | 698 | **0** |
| Trwyddedu morol | 348 | 351 | **(3)** |
| Masnachu allyriadau | 143 | 143 | **0** |
| **Cyfanswm** | **38,558** | **40,028** | **(1,470)** |

| Ffigurau cymharol – y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | Incwm wedi'i filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged / (diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 19,827 | 19,132 | **695** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,506 | 6,563 | **(57)** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: gosodiadau | 3,498 | 3,158 | **340** |
| Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: gwastraff | 2,106 | 2,029 | **77** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,599 | 1,830 | **(231)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,166 | 1,166 | **0** |
| Rheoleiddio niwclear | 1,339 | 1,375 | **(36)** |
| Gwastraff peryglus | 1,003 | 979 | **24** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 684 | 684 | **0** |
| Trwyddedu morol | 300 | 300 | **0** |
| Masnachu allyriadau | 94 | 95 | **(1)** |
| **Cyfanswm** | **38,122** | **37,311** | **811** |

Cydnabyddir refeniw ar sail yr ystyriaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae CNC yn cydnabod refeniw yn unol â'r pum cam a nodir yn IFRS 15 refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid. Cydnabyddir refeniw pan fydd CNC yn cyflawni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Gellir rhannu incwm taliadau i ddau brif gategori: cais am drwydded neu hawlen y cydnabyddir refeniw ar ei chyfer ar adeg y cais, a'r tâl cynhaliaeth sy'n gysylltiedig â thrwyddedau a hawlenni, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad am gyfnod o amser o dan reoliad CNC. Cydnabyddir incwm cynhaliaeth o'r fath wrth gael ei filio ar yr adeg y mae cyfnod y drwydded newydd yn cychwyn.

Ar gyfer trafodion masnachol, mae'r cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd, a chydnabyddir y refeniw ar adeg benodol.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae ffioedd a thaliadau yn cael eu pennu ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau'r cynllun. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n ymwneud â'n cynlluniau taliadau yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Dim ond pan fyddant wedi codi ar ddamwain o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig a chronedig wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, nad yw, oherwydd gwahaniaethau amseru, yn cael ei ystyried yn briodol o fewn un flwyddyn ariannol.

Mae gennym drefniant trosiannol lle bydd balansau materol heb gynllun yn cael eu lleihau erbyn 31 Mawrth 2024. Mae'r driniaeth hon yn mynd y tu hwnt i'r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

**Dyfarniad arwyddocaol**

Gwneir dyfarniad ynghylch bodloni rhwymedigaethau perfformiad ar ffioedd a thaliadau ac incwm masnachol yn unol ag IFRS15. O fewn symiau derbyniadwy (nodyn 11) a symiau taladwy (nodyn 13), mae balansau incwm cronedig a gohiriedig ar gyfer ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Fel y soniwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau codi tâl adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, ac mae angen barnu wrth asesu'r ffactorau y tu ôl a fydd y gwarged neu'r diffyg yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn (a adroddir yn nodiadau 11 a 13).

Mae gwariant a ariennir gan gymorth grant wedi'i eithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19, ond mae'n cynnwys cyfraniadau cyflogwyr yn ystod y flwyddyn i'r cynlluniau pensiwn, sy'n cael eu trosglwyddo i dalwyr taliadau. Yr amcan ariannol ar gyfer y cynlluniau codi tâl yw adennill costau yn llawn gan gynnwys dibrisiant cost cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Caiff gweithgareddau allweddol pob maes eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu – codi tâl ar fusnesau sy'n tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddir hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano – incwm i adfer ymdrech adnoddau dŵr CNC ar lawr gwlad, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau pysgota – codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: ansawdd dŵr – codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: gosodiadau – caniatáu rheoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Rheoliadau caniatáu amgylcheddol: rheoli gwastraff – trwyddedu ac eithriadau.
- Gwastraff peryglus – trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Ymrwymiad masnachu allyriadau a lleihau carbon – rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear – rheoleiddio safleoedd niwclear a rhai nad ydynt yn niwclear a safleoedd niwclear sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symudiadau, prosiectau adeiladu ar wely'r môr neu oddi tano a phob math o lusgrwydo.
- Diogelu'r amgylchedd mewn ffordd arall – trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr gwastraff a broceriaid, llwythi trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb cynhyrchwyr am offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig, cydsyniadau amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau anghyfredol

Mae dau gategori o asedau anghyfredol – asedau diriaethol a ddangosir yn nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn nodyn 7.2.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth fo'i werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gellir grwpio eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000, a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, ei bod hi'n debygol y bydd manteision economaidd ychwanegol i CNC ac y gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy. Mae costau dilynol wedi'u cynnwys yn swm cario'r ased neu'n cael eu cydnabod fel ased ar wahân, os yw'n briodol.

Mae asedau ar brydles i bartïon allanol o dan brydles weithredol yn cael eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol.
Gwneir dyfarniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a godir yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

**Mesur**

Adroddir ar yr holl asedau anghyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu naill ai ar werth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau a ddosberthir fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw i gefnogi diben CNC. Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario. Ceir rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn nodyn 7.1.3.

Mae peiriannau, offer technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol oll yn asedau tymor byr a defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cludo ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac i'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori asedau anghyfredol priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

<u>Mynegeio ac Ailbrisio</u>

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fethodolegau prisio a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau a adroddir amdanynt yn nodyn 7.1

Sicrhawyd ansawdd y prisiadau a'r mynegeion a gymhwyswyd gan brif syrfëwr CNC. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol o'r farchnad, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni'r prisiad yn gymwys.

Ymgymerwyd â'r holl brisiadau yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS.

Rhaglen Dreigl

| Colofn Adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarthiad Ased | Methodoleg Brisio | Dyddiad y prisiad llawn blaenorol | Proses ar gyfer 2022/23 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystâd y Goedwig** | Ystâd y Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Tir Rhydd-ddaliadol** | Tir Amaethyddol – Ased ag Adeiladau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Tir Amaethyddol - Heb Gyfarpar | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Tir arall ar Ystâd y Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| | Tir Rhydd-ddaliadol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Tir Arall** | Ffermydd gwynt | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cynlluniau hydro | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mynediad Trydydd Parti | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mastiau telegyfathrebu | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Lesoedd mwynau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cytundebau eraill | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Gwyliau coedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Avison Young |
| **Adeiladau** | Anheddau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Swyddfeydd a masnachol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Adeiladau eraill (Anarbenigol) | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Prif swyddfeydd (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Siediau ceirw (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Toiledau (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Cuddfannau adar | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Canolfannau Ymwelwyr a Gwybodaeth (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Arall (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Amaethyddol (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |

| Colofn Adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarthiad Ased | Methodoleg Brisio | Dyddiad y prisiad llawn blaenorol | Proses ar gyfer 2022/23 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Strwythurau Gweithredol** | Dyfrdyllau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Gorsaf fesur | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Lociau a choredau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Strwythurau afonydd a'r mo | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Llifddorau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Arall | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Gorsafoedd pwmpio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Tramwyfeydd pysgod | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Amherthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| **Strwythurau gweithredol (strwythurau cyhoeddus)** | Llwybrau pren | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau beicio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Arall | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Meysydd parcio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau cerdded | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Asedau Biolegol** | Asedau biolegol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Asedau Treftadaeth** | Asedau Treftadaeth | Cost hanesyddol | Amherthnasol | Cedwir am gost | Amherthnasol |
| **Ased hawl i ddefnyddio (lesoedd hedyn pupur)** | Ystâd y Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |

* SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Ystâd y Goedwig, tir, adeiladau a strwythurau cyhoeddus wedi cael eu prisio'n llawn yn broffesiynol bob pum mlynedd yn y gorffennol yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer prisiadau llawn.  Darperir y prisiadau ar 31 Mawrth 2023 gan gwmnïau perthnasol y Syrfewyr Siartredig neu gan briswyr mewnol. Lle cynhaliwyd prisiad llawn, nodir hyn yn y tabl uchod.  Rhwng y prisiadau llawn hyn, mae asedau'n cael eu prisio'n rheolaidd bob blwyddyn.

Lle cynhaliwyd prisiadau mewnol, fe'u cyflawnwyd gan ein tîm mewnol o syrfewyr siartredig, o dan gyfarwyddyd y prif syrfëwr.

Lle nad oes prisiad wedi'i gynnal, cyflwynwyd y cyfraddau mynegeio priodol gan y prif syrfëwr.

Ar gyfer strwythurau gweithredol, byddai FReM yn disgwyl i ni ddefnyddio'r dull cost amnewid dibrisiedig. Ar gyfer CNC, mae hynny'n anymarferol ac nid yw'n gost-effeithiol, felly rydym wedi defnyddio cost hanesyddol wedi'i haddasu fel procsi ar gyfer cost amnewid dibrisiedig i roi gwerth teg i ni.

Mae addasiadau sy'n codi o fynegeio ac ailbrisiadau yn mynd i'r gronfa ailbrisio oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi'i ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisiad disgynnol, ac os felly, cydnabyddir y symudiad yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (ystâd y goedwig a thir heblaw coedwig) a hawliau anniriaethol i dir yn cael eu dibrisio, oni bai bod y tir yn elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Mae cerbydau a ddangosir yn y categori peiriannau yn cael eu dibrisio ar sail cydbwysedd sy'n lleihau ar gyfradd o 21%. Mae pob ased arall yn cael ei ddibrisio/amorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig. Codir dibrisiant ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mis ei waredu, ond nid ym mis ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar yr oes economaidd ddefnyddiol sy'n ffurfio sylfaen i'r cyfnod y mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio. Mae amcangyfrif o oes asedau yn cael ei hadolygu a'i haddasu os yw'n briodol ar bob dyddiad adrodd. Y prif oesoedd defnyddiol a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant yw:

| **Categori ased** | **Prif oes ddefnyddiol** |
|---|---|
| **Asedau diriaethol** | |
| Adeiladau ac Anheddau | 10 - 60 mlynedd |
| Peiriannau | 4 - 25 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 - 10 mlynedd |
| Strwythurau Gweithredol | 5 - 100 mlynedd |
| **Asedau anniriaethol** | |
| Trwyddedau Meddalwedd | 5 - 25 mlynedd |
| Trwyddedau eraill | 5 - 50 mlynedd |
| Datblygiadau Meddalwedd | 3 - 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 - 10 mlynedd |

Mae'r ystod yn yr oesoedd defnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau yn y categorïau asedau.
Byddai asedau gwella lesddaliad yn eithriad, sydd â’r un oes â'r les gymharol.
Mae trwyddedau eraill hefyd yn cynnwys asedau a ddelir am byth.
Mae gan y mwyafrif o asedau yn y categorïau hyn oesoedd defnyddiol yn yr ystodau hyn.

**Gwarediadau**

Pan waredir ar ased, caiff ei swm cario ei ddileu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) hefyd yn cael eu credydu i'r enillion neu'r colledion wrth eu gwaredu. Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Cronfa ailbrisio wrth gefn**

Mae'r gronfa ailbrisio yn dangos yr enillion a wnaed gan CNC sy'n deillio o godi gwerth asedau anghyfredol. Mae'r balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion cronnus:

- Yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu wedi'u gwanhau a chollir yr enillion.
- Yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio trwy ddibrisiant.
- Yn cael eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Mae swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar swm cario ailbrisio'r asedau a dibrisiant yn seiliedig ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Amhariadau**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu hadolygu o ran amhariad bob blwyddyn. Cydnabyddir amhariadau pan fydd swm adferadwy asedau anghyfredol yn disgyn yn is na'u gwerth llyfr net, o ganlyniad naill ai i gwymp mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad, colled mewn budd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau disgynnol sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn arwain at amhariad pan fydd yr ased yn cael ei ailbrisio yn is na'i swm cario cost hanesyddol yn unig. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol mai'r colledion amharu hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig y dylid eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisio. Cydnabyddir unrhyw swm yn ychwanegol at hyn yn amhariad trwy'r datganiad o wariant net cynhwysfawr. Dylid cymryd colledion amhariad sy'n codi o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn llawn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

**Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu os bydd y swm cario yn cael ei adfer yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus, ac ystyrir bod gwerthiant o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd yn debygol iawn, bod y rheolwyr wedi ymrwymo i werthu a bod yr ased yn cael ei farchnata'n weithredol yn ei gyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i gyflwr presennol.
Daw dibrisiant i ben ar unwaith wrth ddosbarthu'r asedau fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Fe'u nodir ar y lefel isaf o'u swm cario a'u gwerth teg llai costau i'w gwerthu, ac fe'u cofnodir fel asedau cyfredol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau anghyfredol diriaethol

| | Ystâd y Goedwig | Tir Arall | Adeiladau | Peiriannau a pheirianwaith | Technoleg Gwybodaeth | Strwythurau Gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, offer a chyfarpar | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 1,723,640 | 204,473 | 14,570 | 26,231 | 13,709 | 87,592 | 3,335 | **2,073,550** | 457,790 | 7,403 | **2,538,743** |
| Trosglwyddwyd i ased hawl i ddefnyddio | (48,317) | (4,093) | - | - | - | - | - | **(52,410)** | - | - | **(52,410)** |
| Ychwanegiadau | 1,858 | 201 | - | 1,657 | - | 167 | 2,414 | **6,297** | - | 71 | **6,368** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 395 | 324 | - | 1,142 | - | 348 | (2,209) | **-** | - | - | **-** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | (209) | (788) | (2,117) | (7) | (157) | (16) | **(3,294)** | - | - | **(3,294)** |
| Symud o/(i) i'w werthu | (9) | 217 | 254 | 79 | - | - | - | **541** | - | - | **541** |
| Torri coed | (19,218) | - | - | - | - | - | - | **(19,218)** | (7,290) | - | **(26,508)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 129,093 | 45,065 | 463 | - | - | 6,606 | 1 | **181,228** | (2,636) | - | **178,592** |
| Ailddosbarthiad | - | 133 | (133) | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 1,787,442 | 246,111 | 14,366 | 26,992 | 13,702 | 94,556 | 3,525 | **2,186,694** | 447,864 | 7,474 | **2,642,032** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | 105 | 16,748 | 12,805 | 23,536 | - | **53,194** | - | - | **53,194** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 944 | 1,690 | 149 | 3,403 | - | **6,186** | - | - | **6,186** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | - | (5) | (1,685) | (7) | (31) | - | **(1,728)** | - | - | **(1,728)** |
| Symud o/(i) i'w werthu | - | - | 108 | 43 | - | - | - | **151** | - | - | **151** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | (2) | 6 | - | - | 1,668 | - | **1,672** | - | - | **1,672** |
| Ailddosbarthiad | - | 2 | (2) | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | - | - | 1,156 | 16,796 | 12,947 | 28,576 | - | **59,475** | - | - | **59,475** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ymlaen ar 1 Ebrill 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **1,787,442** | **246,111** | **13,210** | **10,196** | **755** | **65,980** | **3,525** | **2,127,219** | **447,864** | **7,474** | **2,582,557** |

**Cyllid asedau**

Mae asedau y penderfynwyd eu bod yn cael eu dal dan brydles wedi'u trosglwyddo i nodyn 8.1 ar ôl gweithredu IFRS 16. Gweler nodyn 8 am fanylion pellach.

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau sydd â swm cario o £344k.  Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2023 oedd £2,028,174k.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Ystâd y Goedwig | Tir Arall | Adeiladau | Peiriannau a pheirianwaith | Technoleg Gwybodaeth | Strwythurau Gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, offer a chyfarpar | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 1,411,996 | 184,549 | 16,836 | 25,263 | 13,990 | 83,816 | 5,098 | **1,741,548** | 360,940 | 7,403 | **2,109,891** |
| Ychwanegiadau | - | 4,635 | - | 688 | 29 | 161 | 2,641 | **8,154** | - | - | **8,154** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 1,411 | 198 | 2,169 | (3,778) | **-** | - | - | **-** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | (625) | (2,151) | (1,509) | (508) | (2,817) | - | **(7,610)** | - | - | **(7,610)** |
| Symud o/(i) i'w werthu | - | 280 | (54) | 259 | - | - | - | **485** | - | - | **485** |
| Torri coed | (20,557) | - | - | - | - | - | - | **(20,557)** | (7,797) | - | **(28,354)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 332,201 | 15,653 | (254) | - | - | 3,949 | - | **351,549** | 104,647 | - | **456,196** |
| Ailddosbarthu | - | (19) | 193 | 119 | - | 314 | (626) | **(19)** | - | - | **(19)** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 1,723,640 | 204,473 | 14,570 | 26,231 | 13,709 | 87,592 | 3,335 | **2,073,550** | 457,790 | 7,403 | **2,538,743** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | - | - | 3,157 | 16,085 | 13,182 | 21,034 | - | **53,458** | - | - | **53,458** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 604 | 1,685 | 131 | 3,483 | - | **5,903** | - | - | **5,903** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | - | (377) | (1,321) | (508) | (104) | - | **(2,310)** | - | - | **(2,310)** |
| Symud o/(i) i'w werthu | - | - | (87) | 268 | - | - | - | **181** | - | - | **181** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | (3,192) | 7 | - | (853) | - | **(4,038)** | - | - | **(4,038)** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | 24 | - | (24) | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | - | - | 105 | 16,748 | 12,805 | 23,536 | - | **53,194** | - | - | **53,194** |
| **Swm cario ymlaen ar 1 Ebrill 2021** | **1,411,996** | **184,549** | **13,679** | **9,178** | **808** | **62,782** | **5,098** | **1,688,090** | **457,790** | **7,403** | **2,056,433** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |
| **Cyllid asedau** | | | | | | | | | | | |
| Yn eiddo | 1,675,323 | 200,380 | 14,465 | 9,483 | 904 | 64,056 | 3,335 | **1,967,946** | 457,790 | 7,403 | **2,433,139** |
| Ar brydles | 48,317 | 4,093 | - | - | - | - | - | **52,410** | - | - | **52,410** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau sydd â swm cario o £788k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2022 oedd £1,925,564.

### 7.1.1 Ystâd y goedwig gan gynnwys asedau biolegol

Mae perchnogaeth gyfreithiol dros ystâd coetir Llywodraeth Cymru wedi'i breinio gyda Gweinidogion Cymru. Fe'i cynhwysir yn Natganiad Sefyllfa Ariannol CNC gan fod CNC yn gyfrifol am y risgiau a'r gwobrau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ystâd, ac sy'n ymgymryd â phob gweithgaredd mewn perthynas â rheoli'r ystâd. Mae'r ystâd yn yn cynnwys tir a phren sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol ar bren, gan gynnwys coed heb eu torri, wedi'i freinio yn CNC.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu cadw a'u rheoli'n bennaf i gyflawni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd Cymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gellir rhannu eu diben rhwng economaidd (cyfraniad at economi ffyniannus a chynaliadwy Cymru) ac eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan safon cyfrifeg ryngwladol 41 (amaethyddiaeth), rhaid dosbarthu pren a dyfir at bwrpas economaidd fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir sylfaenol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, peiriannau ac offer a chyfeirir ato fel ystâd y goedwig.

Mae addasiadau sy'n codi o ailbrisio ystâd y goedwig yn cael eu cludo i'r gronfa ailbrisio a'u rhyddhau i'r gronfa gyffredinol pan wireddir enillion wrth dorri coed. Cydnabyddir addasiadau sy'n codi o ailbrisio asedau biolegol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn ailbrisio.

**Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a dyfarniadau**

Mae elfennau o'r prisiad ac felly cyfrifo'r asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Nid yw'n cael ei ystyried yn gost-effeithiol i gynnal prisiad proffesiynol allanol llawn, gan gynnwys pob rhan o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr cymwys, bernir y gellir cael prisiad rhesymol trwy gynnal prisiadau o sampl ar hap o safleoedd sy'n cynrychioli rhwng 8% a 10% o'r ystâd ac yna allosod y rhain ar gyfer yr ystâd gyfan, gan ddefnyddio'r ffactorau lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd fod y dystiolaeth fwyaf priodol o werth yn seiliedig ar y farchnad yn deillio o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd dros 50 hectar mewn arwynebedd. Cydnabyddir y gall fod ystod eang o werthoedd o hyd a gall y rhain fod yn ddyfarniadau ychydig yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu rhywfaint ar farn broffesiynol. Yn dilyn hynny, mae'r priswyr allanol yn dosrannu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir bod gwerth tir ar les 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Rhannwyd coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, offer a chyfarpar gan staff CNC, gan ddefnyddio dyfarniadau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a gedwir yn bennaf at ddibenion economaidd, a defnyddiwyd y ganran hon i bennu gwerth coed a ddosbarthwyd fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn yr ystâd goedwig sydd gennym o ddeg y cant neu fwy, byddai adolygiad dros dro o'r asesiad yn cael ei gynnal. Ni fu unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 27.5% ar gyfer asedau biolegol a 72.5% ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau yn ôl y costau amcangyfrifedig i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn 10% o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu'r goedwig.

### 7.1.2 Ffermydd gwynt

Mae rhywfaint o dir ystâd y goedwig yn cael ei brydlesu i bartïon allanol fel safleoedd fferm wynt. Rhennir datblygiad fferm wynt yn dri cham. Mae angen math gwahanol o gytundeb lesddaliad ar bob cam.

- Y cam cyntaf yw'r Cytundeb Les Opsiwn. Mae hyn yn rhoi'r hawl i ddatblygwr y fferm wynt arfer yr opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Yr ail gam yw'r Cytundeb Les Datblygu. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Les Weithredol. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae CNC yn cael dwy elfen o incwm; rhent sylfaenol gwarantedig a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Mae lesoedd ar gyfer ffermydd gwynt sydd yn y cyfnod datblygu neu weithredu yn cael eu cyfalafu fel ased tir o fewn tir arall yn nodyn 7.1. Mae pedair (2021/22 : pedair) fferm wynt wedi'u cynnwys o fewn eiddo, offer a chyfarpar. Ar y pwynt cyfalafu, mae gwerth y tir yn cael ei dynnu o brisiad Ystâd y Goedwig a ddatgelir o fewn Tir Arall ac sydd wedi'i gynnwys gyda phrisiad y fferm wynt. Cynhelir prisiad llyfr coch RICS ar y pwynt cydnabod. Ar 31 Mawrth 2023, darparwyd prisiad llawn ar gyfer y pedair fferm wynt yn unol a'r rhaglen dreigl a amlinellwyd yn nodyn 7.

Dangosir gwerthoedd unigol y ffermydd gwynt isod.

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Cefn Croes | 12,068 | 6,960 |
| Pen y Cymoedd | 86,004 | 88,645 |
| Gorllewin Brechfa | 44,284 | 17,235 |
| Clocaenog | 32,211 | 34,805 |
| **Cyfanswm** | **174,567** | **147,645** |

Mae dwy fferm wynt arall yn y cam Cytundeb Les Opsiwn ar hyn o bryd. Dim ond dau gam fydd ar gyfer y ffermydd gwynt hyn wrth i'r cam datblygu a'r cam gweithredu gael eu huno. Bydd y rhain yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn symud i'r cam nesaf.

### 7.1.3 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cadw a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Y bwriad yw eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein gwarchodfeydd natur cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir anweithredol mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (eiddo, offer a chyfarpar), mae'r asedau hyn wedi'u cyfalafu ar gost.

Ar 31 Mawrth 2023, mae CNC yn rheoli 56 o warchodfeydd natur cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un warchodfa natur forol (MNR). Prynwyd un ased treftadaeth am £71k (2021/22: £dim) yn ystod y flwyddyn.

Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario.

**Symudiadau asedau treftadaeth dros bedair blynedd**

| | 2019/20<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 | 2021/22<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 7,000 | 7,099 | 7,403 | 7,403 |
| Ychwanegiadau | - | 304 | - | 71 |
| Ailddosbarthiadau | 99 | - | - | - |
| **Balans terfynol** | **7,099** | **7,403** | **7,403** | **7,474** |

Mae rhagor o wybodaeth am asedau a pholisïau treftadaeth CNC ar gaffael, cadw, rheoli, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth ar wefan CNC yn:

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

## 7.2 Asedau anghyfredol diriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 5,722 | 2,356 | 32,971 | 486 | 8,792 | **50,327** |
| Ychwanegiadau | - | - | 374 | - | 6,746 | **7,120** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 81 | - | 4,977 | - | (5,058) | **-** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | - | (42) | - | - | **(42)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiad | - | - | - | - | | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 5,803 | 2,356 | 38,280 | 486 | 10,480 | **57,405** |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 3,964 | 60 | 16,215 | 486 | - | **20,725** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 530 | 12 | 4,532 | - | - | **5,074** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | - | (41) | - | - | **(41)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiad | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 4,494 | 72 | 20,706 | 486 | - | **25,758** |
| **Swm cario ymlaen ar 1 Ebrill 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **-** | **8,792** | **29,602** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **1,309** | **2,284** | **17,574** | **-** | **10,480** | **31,647** |

**Cyllid asedau**

Mae asedau y penderfynwyd eu bod yn cael eu dal dan brydles wedi'u trosglwyddo i nodyn 8.1 ar ôl gweithredu IFRS 16. Gweler nodyn 8 am fanylion pellach.

Y swm a gedwir yn y gronfa ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2023 oedd £601k

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 9,581 | 2,337 | 24,610 | 477 | 9,992 | **46,997** |
| Ychwanegiadau | 298 | - | 1,239 | - | 6,168 | **7,705** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | 5,746 | 9 | (5,755) | **-** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | (504) | - | (2,277) | - | (1,613) | **(4,394)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiad | (3,653) | 19 | 3,653 | - | - | **19** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 5,722 | 2,356 | 32,971 | 486 | 8,792 | **50,327** |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 7,021 | 48 | 12,186 | 434 | - | **19,689** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 453 | 12 | 3,280 | 52 | - | **3,797** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | (490) | - | (2,271) | - | - | **(2,761)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthiad | (3,020) | - | 3,020 | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 3,964 | 60 | 16,215 | 486 | - | **20,725** |
| **Swm cario ymlaen ar 1 Ebrill 2021** | **2,560** | **2,289** | **12,424** | **43** | **9,992** | **27,308** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **-** | **8,792** | **29,602** |
| **Cyllid asedau** | | | | | | |
| Yn eiddo | 1,758 | 2,296 | 16,756 | - | 8,792 | **29,602** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **-** | **8,792** | **29,602** |

Y swm a gedwir yn y gronfa ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2022 oedd £625k.

## 8. Lesoedd

Mae “Lesoedd” IFRS 16 wedi’u rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022; mae hyn yn cyflwyno model cyfrifyddu lesddeilliad sengl sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les (ac eithrio'r eithriadau a amlinellir isod).

Mewn perthynas â lesddeiliaid, mae IFRS 16 yn dileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu a chyllid ac yn cyflwyno model cyfrifyddu sengl sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau lesoedd ('hawl i ddefnyddio').

Mae’r diffiniad o les wedi’i ddiweddaru o dan IFRS 16, mae mwy o bwyslais ar allu rheoli’r defnydd o ased a nodir mewn contract.

**Gweithredu a Rhagdybiaethau**

Mae CNC wedi gweithredu IFRS 16 gan ddefnyddio’r dull ôl-weithredol addasedig ac felly nid yw gwybodaeth gymharol wedi’i hailddatgan ac mae’n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17, “Lesoedd”. Mae effaith gronnol mabwysiadu IFRS 16 wedi'i chynnwys fel addasiad i ecwiti ar ddechrau'r cyfnod cyfredol. Mae lesoedd gweithredu IAS 17 wedi’u cynnwys yn y SoFP fel ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les am y tro cyntaf gyda newidiadau’n cael eu gwneud drwy’r gronfa gyffredinol fel addasiad dal i fyny cronnol. Mae cyfrifiad yr ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les wedi'i nodi isod.

Mae CNC wedi ehangu’r diffiniad o les i gynnwys trefniadau heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae lesoedd hedyn pupur yn enghreifftiau o'r rhain; cânt eu diffinio gan Drysorlys EM fel taliadau les sy’n sylweddol is na gwerth y farchnad. Mae'r asedau hyn yn cael eu prisio'n deg ar gydnabyddiaeth gychwynnol. Wrth drosglwyddo, mae unrhyw wahaniaethau rhwng y rhwymedigaeth les ddisgowntedig a'r ased hawl i ddefnyddio yn cael eu cynnwys trwy ddal i fyny cronnol. Mae unrhyw wahaniaethau rhwng ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar gyfer lesoedd newydd ar ôl gweithredu IFRS 16 yn cael eu cofnodi o fewn incwm yn y SoCNE.

Yn unol ag FReM, nid yw CNC wedi cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd ar gyfer y lesoedd canlynol:

- asedau anniriaethol;
- elfennau nad ydynt yn lesoedd o gontractau lle bo'n berthnasol;
- asedau gwerth isel (pennir y rhain i fod yn unol â throthwyon cyfalafu ar Eiddo, Offer a Chyfarpar ac eithrio cerbydau y tybiwyd nad ydynt o werth isel); a
- lesoedd sydd â chyfnod lesoedd o 12 mis neu lai.

Mae CNC wedi asesu’r holl gontractau yr ymrwymwyd iddynt, ac nad oeddent wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2022.

**Polisi yn berthnasol o 1 Ebrill 2022**

Ar ddechrau contract, mae CNC yn asesu a yw contract yn les, neu’n cynnwys les. Mae contract yn les, neu’n cynnwys les os yw’r contract yn cyfleu'r hawl i reoli’r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser. Mae hyn yn cynnwys asedau nad oes unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Er mwyn asesu a yw contract yn cyfleu’r hawl i reoli’r defnydd o ased a nodwyd, bydd CNC yn ystyried:

- A yw'r contract yn ymwneud â defnyddio ased a nodwyd;
- A oes gan CNC yr hawl i gael y rhan fwyaf o’r budd economaidd o ddefnyddio’r ased drwy gydol y cyfnod defnyddio; ac
- A oes gan CNC yr hawl i gyfarwyddo’r defnydd o’r ased.

Cymhwysir y polisi i gontractau yr ymrwymir iddynt, neu a newidiwyd, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022.

Bydd CNC yn asesu a yw’n weddol sicr y bydd yn arfer opsiynau toriad neu opsiynau estyniad ar ddyddiad cychwyn y les. Bydd hyn yn cael ei ailasesu os bydd digwyddiadau arwyddocaol neu newidiadau mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

**<u>Fel Lesddeiliad</u>**

**Asedau hawl i ddefnyddio**

O dan IFRS 16 mae CNC yn cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar y dyddiad cychwyn. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol y rhwymedigaeth les wedi'i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau neu gymhellion, a chostau sy'n ymwneud ag adfer ar ddiwedd les.

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur naill ai ar werth teg neu werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol ag asedau eiddo, offer a chyfarpar. Defnyddir y model mesur costau yn IFRS 16 fel procsi priodol ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol neu werth teg ar gyfer y mwyafrif o lesoedd.

Mae'r ased hawl i ddefnyddio'n cael ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at dddiwedd cyfnod y les.

Mae CNC yn cymhwyso IAS 36 Amhariad ar Asedau i bennu a oes amhariad ar yr ased hawl i ddefnyddio ac i roi cyfrif am unrhyw golled amhariad a nodwyd. Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i gydnabod darpariaeth ar gyfer contractau les beichus.

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio, gan gynnwys addasiadau trosiannol, yn nodyn 8.1.

**Rhwymedigaethau lesoedd**

Mae rhwymedigaeth les yn cael ei mesur i ddechrau ar werth presennol y taliadau les nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn les, neu os na ellir pennu hynny'n rhwydd, gan ddefnyddio'r gyfradd a bennir ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus (SGC) a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Fawrhydi. Cyhoeddir cyfraddau SGC yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y gyfradd ddisgownt a gymhwyswyd adeg y cyfnod trosiannol, ac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, oedd 0.95%.

Mae taliad y les yn cael ei fesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ail-fesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid yn y mynegai neu'r gyfradd, os oes newid yn amcangyfrifon y grŵp o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, neu os oes newid taliad les sefydlog diwygiedig mewn sylwedd.

Mae taliadau lesoedd sydd wedi'u cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y les yn cynnwys y canlynol:

- Taliadau sefydlog, gan gynnwys taliadau sefydlog mewn sylwedd;
- Taliadau les amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, a fesurwyd i ddechrau gan ddefnyddio'r gyfradd fynegai ar y dyddiad cychwyn;
- Cosbau am derfynu les yn gynnar, oni bai ei bod yn rhesymol sicr na chaiff ei therfynu'n gynnar.

Pan fydd rhwymedigaeth y les yn cael ei hail-fesur, caiff addasiad cyfatebol ei wneud i'r ased hawl i ddefnyddio neu ei gofnodi yn y SoCNE os yw swm cario mlaen yr ased hawl i ddefnyddio yn sero.

Cyflwynir rhwymedigaethau lesoedd, gan gynnwys addasiadau trosiannol, yn nodyn 8.2

**Fel lesydd**

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd, mae’n penderfynu ar ddechrau’r les a yw pob les yn les ariannol neu’n les weithredol. Er mwyn dosbarthu pob les, bydd CNC yn gwneud asesiad cyffredinol i weld a yw’r les yn trosglwyddo’r holl risgiau a’r buddion sy’n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased sylfaenol i bob pwrpas. Os felly, yna mae'r les yn les gyllid, os na, yna mae'n les weithredol.

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd canolradd, mae’n rhoi cyfrif am ei fuddiant yn y brif les a’r is-les ar wahân. Os yw prif les yn les tymor byr y mae CNC yn cymhwyso’r eithriad uchod iddi, yna mae’r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol. Bydd CNC yn cydnabod taliadau les o dan lesoedd gweithredu fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Nid yw’r polisïau cyfrifyddu sy’n gymwys i CNC fel lesydd wedi’u newid i raddau helaeth gan IFRS 16 ac eithrio adolygiadau o drefniadau lesydd canolradd. Nid oedd y newidiadau ar gyfer IFRS 16 yn berthnasol i drefniadau lesydd.

**Effaith ar ddatganiadau ariannol**

Wrth drosglwyddo i IFRS 16, cydnabu CNC £65.2m ychwanegol o asedau hawl i ddefnyddio ac £13.5m o rwymedigaethau lesoedd.

Mae £52.4m o asedau a gydnabuwyd yn flaenorol fel lesoedd cyllid wedi'u trosglwyddo o asedau anghyfredol fel rhan o'r addasiad hwn. Mae’r lesoedd hyn wedi’u cyfrifo’n flaenorol fel lesoedd cyllid ac wedi’u cofnodi yn nodyn 7.1 y datganiadau ariannol. Ni fu unrhyw newid i'r fethodoleg brisio a ddefnyddiwyd fel y manylir yn nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Mae unrhyw wahaniaethau rhwng yr ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth hawl i ddefnyddio wrth drosglwyddo wedi’u cydnabod yng nghyfrif y gronfa gyffredinol.

## 8.1 Asedau hawl i ddefnyddio

| | Tir ystâd y goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau a pheirianwaith | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau Hawl i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddwyd o asedau anghyfredol ar 1 Ebrill 2022 | 52,410 | - | - | - | - | **52,410** |
| Trosglwyddwyd ar 1 Ebrill 2022 | - | 579 | 8,080 | 2,856 | 1,278 | **12,793** |
| Ychwanegiadau | - | - | 133 | 548 | - | **681** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | (71) | - | - | (18) | - | **(89)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 7,468 | (195) | (635) | - | - | **6,638** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 59,807 | 384 | 7,578 | 3,386 | 1,278 | **72,433** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddwyd o asedau anghyfredol ar 1 Ebrill 2022 | - | - | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddwyd ar 1 Ebrill 2022 | - | - | - | - | - | **-** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 4 | 57 | 1,530 | 972 | 58 | **2,621** |
| Gwarediadau, dad-gydnabod a dileadau | - | - | - | (3) | - | **(3)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 4 | 57 | 1,530 | 969 | 58 | **2,618** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ymlaen ar 1 Ebrill 2022** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Swm cario ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **59,803** | **327** | **6,048** | **2,417** | **1,220** | **69,815** |

Mae hwn yn nodyn newydd ar gyfer 2022/23 gan mai hon yw blwyddyn gyntaf mabwysiadu IFRS 16. Felly ni chyflwynir gwybodaeth gymharol.

## 8.2 Rhwymedigaethau Lesoedd

| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesoedd (cyfredol) | 2,367 | - |
| **Cyfanswm** | **2,367** | **-** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd (anghyfredol) | 8,276 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **10,643** | **-** |

Mae IFRS 16 wedi'i gweithredu gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig ac felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi'i hailddatgan ac mae'n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17. Mae lesoedd gweithredu IAS 17 wedi'u cynnwys yn ein datganiad o sefyllfa ariannol fel rhwymedigaeth les ac ased hawl i ddefnyddio am y tro cyntaf, gyda newidiadau'n cael eu gwneud drwy'r gronfa gyffredinol fel addasiad dal i fyny cronnol.

| Lesoedd o dan IFRS 16 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd | 117 | - |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (ac eithrio asedau gwerth isel) | 268 | - |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesoedd asedau gwerth isel | - | - |
| | **385** | **-** |

Cynhwyswyd rhwymedigaethau yn ymwneud â lesoedd a gydnabuwyd yn flaenorol fel lesoedd cyllid yn nodyn 12 a nodyn 16.2 yn 21/22. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn yn y flwyddyn gyfredol i adlewyrchu'r rhwymedigaeth lawn o dan IFRS 16. Nid yw'r ffigurau cymharol wedi'u trosglwyddo i'r nodyn hwn.

**Dadansoddiad aeddfedrwydd lesoedd a ddelir o dan IFRS 16**

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 2,367 | - |
| Yn ddyledus ymhen 2-5 mlynedd | 4,240 | - |
| Yn ddyledus ymhen mwy na 5 mlynedd | 4,036 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **10,643** | **-** |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effaith drosiannol mabwysiadu IFRS 16 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023:

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | Addasiadau - lesoedd gweithredu £'000 | Addasiadau - lesoedd cyllid £'000 | 1 Ebrill 2022 ar ôl Addasiad IFRS 16 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol yn unol â nodyn 7.1 | 2,485,549 | - | (52,410) | 2,433,139 |
| Ased hawl i ddefnyddio | - | 12,793 | 52,410 | 65,203 |
| Rhagdaliad/croniad rhent | 358 | (358) | - | - |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill (Dyledus o fewn blwyddyn) | (20) | - | 20 | - |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill (Dyledus ar ôl blwyddyn) | (452) | - | 452 | - |
| Atebolrwydd les (cyfredol) | - | (2,564) | (3) | (2,567) |
| Atebolrwydd les (anghyfredol) | - | (9,871) | (1,074) | (10,945) |
| Addasiad i gronfeydd wrth gefn (oherwydd addasiadau cyfradd ddisgownt i lesoedd cyllid a drosglwyddwyd i ased Hawl i Ddefnyddio) | | | 605 | 605 |
| **Cyfanswm** | **2,485,435** | **-** | **-** | **2,485,435** |

| | 1 Ebrill 2022 £'000 |
|---|---|
| Les weithredol ar 31 Mawrth 2022 fel y datgelwyd o dan IAS 17 | 12,447 |
| Rhagdaliad/croniad rhent | 358 |
| Disgownt gan ddefnyddio cyfradd fenthyca gynyddrannol ar 1 Ebrill 2022 | (1,823) |
| Cynnydd oherwydd dyddiadau gorffen diwygiedig | 2,094 |
| Lesoedd a eithriwyd yn flaenorol | 3 |
| Lesoedd gyda llai na 12 mis o dymor/gwerth isel | (225) |
| Eithriadau eraill (trwyddedau, hawliau llifogydd ac ati.) | (61) |
| **Cyfanswm** | **12,793** |

# 9. Atebolrwydd ac offerynnau ariannol

## 9.1 Atebolrwydd ariannol

Mae'r atebolrwydd ariannol o £39,435 a adroddwyd yn y datganiad sefyllfa ariannol yn cynnwys atebolrwydd o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Yn 1989, er mwyn preifateiddio, trafododd Llywodraeth Ei Mawrhydi gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeio'n flynyddol ar y mynegai prisiau manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Mae CNC bellach yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru.

Gan fod cyfanswm yr atebolrwydd am byth ar sail cost amorteiddiedig, ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio os bydd cytundeb yn dod i ben, sy’n annhebygol. Mae CNC yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gan gynnwys y mynegeio blynyddol trwy ei daliadau tynnu dŵr.

Talwyd £7,173 i Dŵr Cymru yn ystod 2022/23 (2021/22: £6,282) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi’u mynegeio. Mae'r rhain wedi'u cynnwys gyda thaliadau eraill o dan gytundebau gweithredu'r gronfa ddŵr yn nodyn 5.

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â safonau uwch ar gyfer gorlifdiroedd, pibellau ac argaeau ynghyd ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol wedi arwain at Dŵr Cymru yn gweithredu rhaglen gyfalaf ar draws dalgylchoedd Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Gwy a Tywi.  Disgwylir i'r gwaith, a ddechreuodd yn 2018/19, gymryd 10 mlynedd a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2027/28.  Mae cyfanswm cost amcanol y rhaglen hon wedi cynyddu ers dechrau'r rhaglen.  Mae amcangyfrifon diweddaraf Dŵr Cymru yn nodi y bydd y rhaglen yn costio £51.2m.  Mae CNC wedi cytuno ar amserlen taliadau cynyddrannol gyda Dŵr Cymru i ddosbarthu’r gost yn esmwyth gan arwain at daliadau uwch y gellir eu rheoli ar gyfer yr echdynnwr.  Mae’r cyfleuster hwn wedi galluogi CNC i ragweld Cyfrif Tâl Uned Safonol cynaliadwy dros oes y rhaglen hon.

Adroddir ar y gost mewn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr yn nodyn 5, ac mae'r diffyg yn ystod y flwyddyn wedi'i ychwanegu i'r symiau taladwy hirdymor yn nodyn 13.  Adroddir am y cynnydd cyfatebol yn yr incwm y gellir ei briodoli o fewn costau tynnu yn nodyn 6.1 a symiau derbyniadwy hirdymor yn nodyn 11.

## 9.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod CNC yn cael ei fodloni yn bennaf trwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risgiau nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig CNC, ac felly nid yw CNC yn agored i risgiau mawr o ran credyd, hylifedd na’r farchnad.

O dan IFRS 9, defnyddir model Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) i amcangyfrif a rhoi cyfrif am golledion credyd disgwyliedig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif CNC yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd a ddiwedderir ar gyfer problemau credyd hysbys yn y dyfodol.

## 10. Asedau ariannol

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| **Anghyfredol** | **£'000** | **£'000** |
| Coedwig Llyn Efyrnwy | 16,358 | 16,807 |
| | | |
| **Ased cyfredol ar werth** | | |
| Forest Holidays | - | 1,475 |
| | 16,358 | 18,282 |

**Coedwig Llyn Efyrnwy**
Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am reoli'r goedwig yn Llyn Efyrnwy, casglu'r incwm a thalu'r costau cymharol. Mae gan CNC rôl ymgynghorol o dan y cytundeb cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy.

**Forest Holidays**
Roedd gan CNC yn flaenorol gyfranddaliadaeth leiafrifol yn Forest Holidays drwy Forest Holidays LLP; sefydliad partneriaeth rhwng CNC, Forestry England a Forestry Land Scotland. Yn ystod 2021/22 cytunwyd y byddai Forest Holidays yn gwaredu ar Forest Holidays LLP. Cynhaliwyd y gwerthiant yn ystod 2022/23 a diddymwyd Forest Holidays LLP. Wrth symud ymlaen, y berthynas rhwng y tri sefydliad sector cyhoeddus a Forest Holidays fydd y landlord a'r tenant ac mae'r tâl presennol ar y lesoedd wedi'i drosglwyddo i'r perchennog newydd.

## 11. Symiau Masnach ac eraill yn dderbyniadwy

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Symiau derbyniadwy masnach | 10,009 | 5,538 |
| Colled credyd disgwyliedig | (174) | (93) |
| Asedau contract - Masnachol ac eraill | 5,293 | 4,502 |
| Incwm cronedig - Ffioedd a thaliadau | 2,812 | 1,976 |
| Incwm cronedig - Arall | 13,214 | 6,881 |
| Incwm cronedig - Incwm Ewropeaidd | 1,260 | 1,746 |
| TAW derbyniadwy | 4,116 | 2,982 |
| Cyn-daliadau | 2,275 | 2,273 |
| Blaendal | 59 | 713 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 25 | 18 |
| **Cyfanswm** | **38,889** | **26,536** |
| | | |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 3,462 | 3,451 |
| | | |
| **Cyfanswm masnach a symiau derbyniadwy eraill** | **42,351** | **29,987** |

## 12. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Balans agoriadol | 8,993 | 7,855 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | (3,916) | 1,138 |
| **Cyfanswm** | **5,077** | **8,993** |
| | | |
| Cadwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth | | |
| Gwasanaeth bancio'r Llywodraeth | 5,075 | 4,201 |
| Cyfrifon banc eraill | 0 | 4,790 |
| Arian parod mewn llaw | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **5,077** | **8,993** |

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler nodyn 1.10) a balansau cyfredol a gedwir yng nghyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn caewyd cyfrifon banc Barclays, a oedd wedi eu cynnwys yn flaenorol mewn cyfrifon banc Eraill. Gellir trosi'r balansau hyn yn hawdd i symiau hysbys o arian parod, ac nid oes risg mawr iddynt o ran newidiadau mewn gwerth. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan CNC. Dim ond pan fydd gweithredwr y safle tirlenwi yn torri amodau'r drwydded y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi ystyriaeth ddyledus i dynnu'r ddarpariaeth sydd ar waith.

## 13. Symiau Masnach ac eraill yn daladwy

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Symiau taladwy masnach | 9,505 | 1,943 |
| Croniad symiau taladwy masnach | 21,304 | 18,986 |
| Incwm Gohiriedig - Ffioedd a Thaliadau | 3,315 | 4,546 |
| Incwm Gohiriedig - cyllid yr UE a chyllid arall | 6,934 | 7,148 |
| Rhwymedigaethau Contract - Ffioedd a Thaliadau | 536 | 144 |
| Rhwymedigaethau Contract - Masnachol | 955 | 426 |
| Tâl gwyliau | 3,605 | 3,467 |
| Bondiau a blaendaliadau | 2,895 | 1,301 |
| Lesoedd cyllid (cyfredol)* | - | 20 |
| Symiau taladwy eraill | 19 | 215 |
| Trethi a diogelwch cymdeithasol | 9 | 10 |
| **Cyfanswm** | **49,077** | **38,206** |
| | | |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy hirdymor | 2,680 | 2,874 |
| Lesoedd cyllid (anghyfredol)* | - | 452 |
| Incwm gohiriedig hirdymor | 253 | 217 |
| Bondiau a blaendaliadau hirdymor | 121 | 190 |
| **Cyfanswm** | **3,054** | **3,733** |
| | | |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **52,131** | **41,939** |

*Mae IFRS 16 wedi'i weithredu o fewn 2022-23, mae manylion penodol ynghylch rhwymedigaethau lesoedd wedi'u cynnwys yn nodyn 8.2. Ni fu unrhyw newidiadau i ddata cymharol.

## 14. Darpariaethau

| | Grantiau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | 91 | 175 | 266 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 82 | 982 | 1,064 |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | | | - |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (91) | (156) | (247) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **82** | **1,001** | **1,083** |
| | | | |
| **Amseru amcangyfrifedig llif arian gostyngedig** | | | |
| Dyledus o fewn blwyddyn | 82 | 1,001 | 1,083 |
| Dyledus rhwng un a phum mlynedd | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **82** | **1,001** | **1,083** |

Yn unol â gofyniad IAS 37 (darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn), lle bo angen, mae CNC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd ac mae'n debygol y bydd gofyn i CNC setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy. Mae cyfanswm y darpariaethau yr adroddir arnynt uchod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol o dan rwymedigaethau.

Mae darpariaethau ar gyfer taliadau grant wedi’u cynnwys pan fo’r gwaith a wnaed gan y partneriaid grant wedi’i gwblhau ar neu cyn 31 Mawrth 2023, ond na fydd yr hawliad yn cael ei ei gyflwyno i CNC tan fis Mehefin 2023.  Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar y llythyr cynnig grant.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys ad-daliad sy'n ddyledus i gwsmer mewn perthynas â darpariaethau gwastraff peryglus a dadfeiliadau mewn perthynas â swyddfeydd Tŷ Cambria a Phlas yr Afon.  Yn ystod y flwyddyn, rhyddhawyd y ddarpariaeth a ddygwyd ymlaen mewn perthynas â thaliadau iawndal sy'n ddyledus i weithwyr y mae eu contractau cyflogaeth wedi'u diwygio mewn perthynas â dyletswyddau rota digwyddiadau.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill yn nodyn 5. Dangosir y symudiad mewn colled credyd disgwyliedig hefyd yn nodyn 5, a dangosir cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwyliedig yn nodyn 11 a'i chynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol o dan Masnach a symiau derbyniadwy eraill.

## 15. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### 15.1 Cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae CSPS yn agored i bob gweithiwr newydd.

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: tair sy’n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol plws) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu gyda chost y buddion a delir gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasur, premiwm, clasurol plws, Nuvos ac Alpha yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i Alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gall aelodau cymwys sydd wedi cwblhau gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 gael hawl i fuddion pensiwng gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw. Mae buddion PCSPS pob aelod sy’n newid i Alpha yn cael eu ‘bancio’, gyda’r rheini â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael Alpha. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniant buddion priodol wedi’u diffinio neu bensiwn rhanddeiliaid ‘prynu arian’ gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol plws, Nuvos ac Alpha. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae clasurol plws yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r clasurol a chyfrifwyd y buddion am wasanaeth o Hydref 2002 fel mewn cynllun premiwm. Yn Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod o fod yn aelod o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae’r pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion mewn cynllun Alpha yn cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol, sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oed pensiwn neu dros oed. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a chlasurol plws, 65 ar gyfer aelodau Nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn cynlluniau PCSPS neu Alpha, fel sy'n briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddion yn y cynlluniau PCSPS ac Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun ond gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan. www.civilservicepensionscheme.org.uk

## 15.2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) i CNC yn unol â chynllun trosglwyddo corff Cyfoeth Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i fod yn aelodau o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff derbyn.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion statudol wedi'u diffinio, a lywodraethir yn bennaf gan reoliadau LGPS 2013 a rheoliadau LGPS (darpariaethau trosiannol, cynilion a diwygio) 2014. Gall y rhain newid dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk

Cyfanswm tâl pensiwn LGPS ar gyfer CNC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £14,855 (£16,353 yn 2021/22). Aseswyd y tâl pensiwn sy'n ymwneud â'r cynllun yn unol â chyngor actiwari cymwys annibynnol gan ddefnyddio'r dull prisio uned amcanol i gyfrifo'r costau gwasanaeth. Trefniadau cyllido CNC yw talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn naill ai bob mis neu fel taliadau cyfandaliad.

Roedd y prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraf o'r EAPF ar 31 Mawrth 2022. Roedd yr asedau a gymerwyd am werth y farchnad (£4.5 biliwn) yn ddigonol i gynnwys 103% o werth rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth yn y gorffennol a oedd wedi cronni i aelodau. Derbyniodd CNC argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025 a chaiff ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr am y cyfnod tair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2026.

Amcangyfrifodd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF fod ganddo ddigon o asedau i fodloni 142% o'i rwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2023 ar sail ariannu barhaus. Mae cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel y'i hadroddir yn y datganiadau ariannol hyn yn cael ei chyfrifo ar sail cyfrifyddu gan ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau actiwaraidd, sy'n ofynnol gan IAS19.

Mae dau brif wahaniaeth yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn o dan sail cyfrifyddu (IAS 19) a'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido, fel yr adroddwyd gan EAPF. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt a'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF at ddibenion cyllido yn seiliedig ar ddisgwyliad darbodus o'r enillion a gynhyrchir o'r portffolio o asedau sy'n eiddo i'r EAPF. Ar 31 Mawrth 2022, y gyfradd ddisgownt hon oedd 3.1% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn natganiadau ariannol CNC (4.75% y flwyddyn) fel sy'n ofynnol gan IAS 19, yn seiliedig ar gynnyrch bondiau corfforaethol o ansawdd uchel heb unrhyw ragdybiaeth perfformiad ased ychwanegol.

Gwneir nifer o ragdybiaethau fel rhan o'r broses brisio actiwaraidd. Nid yw'r rhagdybiaethau actiwaraidd darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn ar symudiadau cyflog posibl yn y dyfodol. Tybiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2022 y bydd taliadau pensiynau nawr ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 3% y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniad sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 oddeutu £0 gan ei fod wedi talu ei holl gyfraniadau cyflogwr arferol ym mis Mawrth 2023.

Mae prisiad 2022 yn cwmpasu'r profiad o bandemig COVID-19. Ni chafodd y sefyllfa gyllido ei heffeithio'n sylweddol gan y pandemig gan fod rhoi'r gorau i bensiwn yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau. Yn gyffredinol, ychydig iawn o effaith a gafodd y profiad o farwolaethau ar y sefyllfa ariannu. Mae'r prisiad yn nodi bod y profiad ariannol wedi rhagori ar ddisgwyliadau (7.5% o enillion buddsoddi blynyddol o gymharu â'r 3.1% disgwyliedig) ac felly wedi gwella'r sefyllfa ariannu. Mae actiwari EAPF yn parhau i fonitro'r lefel ariannu a'r rhagolygon ar gyfer yr economi hirdymor ac enillion ar asedau'r Gronfa Weithredol yn rheolaidd.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad CNC yn yr EAPF. Mae'r holl gyfrifiadau wedi'u gwneud gan actiwari annibynnol cymwys. Dim ond ar gyfer cyfrifyddu y defnyddir y rhagdybiaethau sy'n sail i gyfrifo gwarged net ar 31 Mawrth 2023 fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Mae CNC yn cydnabod ased gan bod hawl di-amod i'r gwarged gan CNC ond gosodir terfyn ar werth yr ased i gynrychioli'r mwyafswm o fudd sydd ar gael i CNC naill ai drwy ad-daliadau neu gyfraniadau gostyngol. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu pennu trwy gyfeirio at ragdybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd tair blynedd o'r cynllun.

## 15.2.1 Rhagdybiaethau hirhoedledd ac ariannol

| Cyfnod a ddaeth i ben | 31 Mar 2023<br>% y flwyddyn | 31 Mar 2022<br>% y flwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfradd cynyddu pensiynau | 2.95% | 3.20% |
| Cyfradd cynyddu cyflogau | 3.45% | 3.70% |
| Cyfradd ddisgowntio | 4.75% | 2.70% |

Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, hyd rhwymedigaethau a ariennir gan y cyflogwr yw 20 mlynedd.

| | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 21.2 o flynyddoedd | 23.8 o flynyddoedd |
| Pensiynwyr y dyfodol* | 22.4 o flynyddoedd | 25.7 o flynyddoedd |

* mae ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 mlynedd oed ar y dyddiad prisiad ffurfiol diwethaf

## 15.2.2 Dadansoddiad sensitifrwydd

| Newid mewn rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2023: | Cynnydd % bras i atebolrwydd y cyflogwr | Swm ariannol bras (£000) |
|---|---|---|
| Gostyngiad 0.1% yn y gyfradd ddisgowntio wirioneddol | 2% | 7,169 |
| Cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4% | 14,098 |
| Cynnydd 0.1% yn y gyfradd cynyddu cyflogau | 0% | 1,501 |
| Cynnydd 0.1% yn y gyfradd cynyddu pensiynau | 2% | 5,763 |

## 15.2.3 Hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio

Cyfrifwyd hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser nes talu llif arian yn y dyfodol) ar gyfer aelodau'r cynllun a gyfrifwyd ar y prisiad teirblwydd diwethaf ar 31 Mawrth 2022 gan yr actiwari fel 20 mlynedd.

## 15.2.4 Gwerth Teg Asedau

### Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| Categori ased | 31 Mawrth 2023 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Heb ei bennu | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 52,330 | - | - | 52,330 | 12% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 359 | - | - | 359 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| **Cerbydau Buddsoddi Cyfun:** | | | | | |
| Ecwitïau | - | 117,549 | - | 117,549 | 27% |
| Bondiau | - | 166,584 | - | 166,584 | 39% |
| Cronfeydd – Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd – Eiddo Tirol | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd – Cyfalaf Menter | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | - | 80,790 | - | 80,790 | 19% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau Dwbl | - | - | - | - | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deilliadol – Dyfodol | 44 | - | - | 44 | 0% |
| Contractau FX ymlaen | - | 1,087 | - | 1,087 | 0% |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian** | | | | | |
| Pob un | - | - | 14,550 | 14,550 | 3% |
| **Cyfansymiau** | 52,733 | 366,010 | 14,550 | 433,293 | 100% |

### Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| Categori ased | 31 Mawrth 2022 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Heb ei bennu | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 65,730 | - | - | 65,730 | 14% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 1,273 | - | - | 1,273 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| **Cerbydau Buddsoddi Cyfun:** | | | | | |
| Ecwitïau | - | 141,237 | - | 141,237 | 30% |
| Bondiau | - | 160,377 | - | 160,377 | 35% |
| Cronfeydd – Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd – Eiddo Tirol | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd – Cyfalaf Menter | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | - | 72,687 | - | 72,687 | 16% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau Dwbl | - | - | - | - | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deilliadol – Dyfodol | - | - | - | - | 0% |
| Contractau FX ymlaen | - | (124) | - | (124) | 0% |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian** | | | | | |
| Pob un | - | - | 22,255 | 22,255 | 5% |
| **Cyfansymiau** | 67,003 | 374,176 | 22,255 | 463,434 | 100% |

## 15.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau plaen, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio ac atebolrwydd net

| Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Asedau £(000) | Rhwymedig-aethau £(000) | (Atebolrwydd) net/ased £(000) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 463,434 | | 463,434 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | | 517,808 | (517,808) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022** | **463,434** | **517,808** | **(54,374)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost presennol y gwasanaeth* | - | 14,855 | (14,855) |
| - Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | - | - | - |
| - Effaith setliadau | - | - | - |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **14,855** | **(14,855)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog asedau plaen | 12,416 | - | 12,416 |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 14,083 | (14,083) |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | - |
| **Cyfanswm llog net** | **12,416** | **14,083** | **(1,667)** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn elw neu** | **12,416** | **28,938** | **(16,522)** |
| Llifoedd arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,197 | 2,197 | - |
| - Cyfraniadau'r cyflogwr | 6,816 | - | 6,816 |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | - |
| - Buddion a dalwyd | (8,722) | (8,722) | - |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | - |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig ddisgwyliedig** | **476,141** | **540,221** | **(64,080)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (223,729) | 223,729 |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | 972 | (972) |
| - Profiad arall | (5,230) | 34,980 | (40,210) |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | (37,618) | - | (37,618) |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | (15,504) | - | (15,504) |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn yr incwm cynhwysfawr arall Incwm Cynhwysfawr** | **(58,352)** | **(187,777)** | **129,425** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | - |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 417,789 | - | 417,789 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 352,444 | (352,444) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd 31 Mawrth 2023** | **417,789** | **352,444** | **65,345** |

*Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £168,300,000, £49,777,000 ac £134,367,000 mewn perthynas ag aelodau sy'n weithwyr, pensiynwyr gohiriedig a phensiynwyr yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2023. Mae gwerth teg asedau'r cynllun gan y cyflogwr tua 10% o cyfanswm y gronfa.

## 15.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau plaen, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio ac atebolrwydd net (parhad)

| Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | Asedau £(000) | Rhwymedig-aethau £(000) | (Atebolrwydd) net/ased £(000) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 435,219 | - | 435,219 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 541,863 | (541,863) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021** | **435,219** | **541,863** | **(106,644)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost presennol y gwasanaeth* | - | 16,182 | (16,182) |
| - Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | - | 171 | (171) |
| - Effaith setliadau | - | - | - |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **16,353** | **(16,353)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog asedau plaen | 8,637 | - | 8,637 |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 10,931 | (10,931) |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | - |
| **Cyfanswm llog net** | **8,637** | **10,931** | **(2,294)** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn elw neu** | **8,637** | **27,284** | **(18,647)** |
| Llifoedd arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,132 | 2,132 | - |
| - Cyfraniadau'r cyflogwr | 6,909 | - | 6,909 |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | - |
| - Buddion a dalwyd | (8,345) | (8,345) | - |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | - |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig ddisgwyliedig** | **444,552** | **562,934** | **(118,382)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (42,935) | 42,935 |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | (3,083) | 3,083 |
| - Profiad arall | - | 892 | (892) |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | 18,882 | - | 18,882 |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | - | - | - |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn yr incwm cynhwysfawr arall Incwm Cynhwysfawr** | **18,882** | **(45,126)** | **64,008** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | - |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 463,434 | - | 463,434 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 517,808 | (517,808) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd 31 Mawrth 2022** | **463,434** | **517,808** | **(54,374)** |

*Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

Lle mae gan CNC ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na ddarperir ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol, fe'u datgelir yn y tabl isod. Dangosir yr ymrwymiadau sy'n ymwneud â Gwaith Cyfalaf a Dreuliwyd yn y Flwyddyn yn nodyn 4.

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Eiddo, offer a chyfarpar** | | |
| Peiriannau a pheirianwaith | 296 | 553 |
| Offer trafnidiaeth | 11 | 728 |
| Strwythurau Gweithredol | 621 | 439 |
| Strwythurau cyhoeddus | 156 | 125 |
| Technoleg gwybodaeth - caledwedd | 787 | - |
| **Cyfanswm** | **1,871** | **1,845** |
| | | |
| **Asedau anniriaethol** | | |
| Technoleg gwybodaeth – trwyddedau meddalwedd | 18 | 14 |
| Technoleg gwybodaeth – datblygu meddalwedd | 787 | 151 |
| **Cyfanswm** | **805** | **165** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **2,676** | **2,010** |

## 17. Ymrwymiadau o dan lesoedd

### Gweithredu IFRS16

Ar gyfer cyrff y llywodraeth sy'n adrodd o dan FReM, daeth IFRS 16 i rym ar 1 Ebrill 2022 ac mae'n disodli IAS 17 (Lesoedd). Mae CNC wedi gweithredu IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig ac felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi'i hailddatgan ac mae'n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17. Mae lesoedd gweithredu IAS 17 wedi'u cynnwys yn ein datganiad o sefyllfa ariannol fel rhwymedigaeth les ac ased hawl i ddefnyddio am y tro cyntaf gyda newidiadau'n cael eu gwneud drwy'r gronfa gyffredinol fel addasiad dal i fyny cronnol. Ceir manylion pellach yn nodyn 8.

Ar gyfer lesoedd tymor byr (tymor les o 12 mis neu lai) a lesoedd asedau gwerth isel, bydd CNC yn dewis cydnabod traul les ar sail llinell syth fel y caniateir gan IFRS 16. Mae rhwymedigaethau o dan lesoedd gweithredu (17.1 isod) yn ymwneud â'r cytundebau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn IFRS 16.

Mae rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid (17.2 isod) bellach wedi'u datgelu yn nodyn 8.2, ac felly nid ydynt wedi'u datgelu uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

### 17.1 Lesoedd gweithredu

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 31 Mawrth 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan lesoedd gweithredu:** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 14 | - | - | 14 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 3 | - | - | 3 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 22 | - | - | 22 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **39** | **0** | **0** | **39** |

| | 31 Mawrth 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan lesoedd gweithredu:** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 156 | 1,653 | 1,125 | 2,934 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 250 | 4,555 | 2,237 | 7,042 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,870 | 601 | 0 | 2,471 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **2,276** | **6,809** | **3,362** | **12,447** |

### 17.2 Lesoedd cyllid

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan lesoedd gweithredu:** | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | - | 20 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | - | 47 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | 405 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **-** | **472** |

### 18. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae CNC wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo na chawsant eu nodi yn nodyn 4 – Gwaith Cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn, nodyn 16 – Ymrwymiadau cyfalaf neu nodyn 17 – Ymrwymiadau o dan lesoedd. Mae'r costau hyn yn cynnwys contractau na ellir eu canslo megis cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau rheoli tiroedd yn ogystal ac archebion prynu agored ar gyfer busnes parhaus:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 26,973 | 24,681 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 5,181 | 16,700 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 140 | 1,390 |
| **Cyfanswm** | **32,294** | **42,771** |

## 19. Symiau derbyniadwy o dan lesoedd

Mae asedau (tir ac adeiladau) sy'n cael eu lesio i bartïon allanol o dan les weithredol yn cael eu cyfalafu yn unol â'r polisi asedau anghyfredol a amlinellir yn nodyn 7. Rhoddir cyfrif am incwm les weithredol ar sail llinell syth a'r isafswm yn y dyfodol. Dangosir taliadau les sy'n dderbyniadwy o dan lesoedd gweithredu na ellir eu canslo yn y tabl isod. Amcangyfrifir taliadau prydles y dyfodol gan ddefnyddio'r 12 mis diweddaraf o incwm a anfonebwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r tabl yn cynnwys incwm a ragwelir o ffermydd gwynt, gan fod CNC yn rheoli'r lesoedd hyn ar ran Llywodraeth Cymru a breindaliadau o'r rhaglen darparu ynni, mynediad trydydd parti, hydro a lesoedd eraill.

| | 1 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 18,798 | 14,076 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 73,030 | 54,679 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 262,104 | 205,465 |
| **Cyfanswm** | **353,932** | **274,220** |

Mae'r incwm o lesoedd fferm wynt yn cynrychioli rhan fawr o'r gwerthoedd a ddatgelir yn y tabl uchod. Lle mae ffermydd gwynt yn ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8), nid yw'r incwm yn cael ei gadw gan CNC, ac mae'n yn cael ei ildio i Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am yr incwm hwn ar gael yn nodyn 1.4.

## 20. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae CNC yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol ag IAS 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli, yn dibynnu a yw rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nid yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan CNC y rhwymedigaethau digwyddiadol fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Hawliadau gwerthu pren | 60 | 60 |
| Hawliadau difrod i eiddo | 802 | 802 |
| Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr | 37 | 94 |
| **Cyfanswm** | 899 | 956 |

**Hawliadau gwerthu coed**
Mae CNC wedi derbyn hawliadau gan gwmni coed mewn perthynas â'u contract gyda CNC. Mae'r swm a ddatgelir yn y tabl uchod yn ymwneud ag un hawliad.

**Hawliadau difrod i eiddo**
Difrod i eiddo yn dilyn methiant draeniau storm a chwlfertau o ganlyniad i Stormydd Ciara, Dennis ac Arwen.

**Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr**
Mae gwerth tri hawliad atebolrwydd cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae'r hawliadau hyn ar gyfer anaf personol, difrod arall i eiddo a chwynion gweithwyr.

### Rhwymedigaethau digwyddiadol heb eu mesur

Yn unol ag IAS 37, mae CNC yn datgelu'r rhwymedigaethau digwyddiadol heb eu mesur canlynol. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol:

**Hawliadau llifogydd a difrod stormydd**
Mae pum deg dau o hawliadau wedi'u derbyn lle nad yw'r gwerthoedd wedi'u mesur eto. O fewn hyn mae un honiad a allai fod yn sylweddol oherwydd difrod i wal llifogydd. Mae CNC yn y broses o negodi setliad, ond ar ddiwedd y flwyddyn mae'r swm hwn heb ei fesur.

**Hawliadau colled ariannol**
Mae hawliad parhaus ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r posibilrwydd o golli incwm oherwydd amrywiad a osodwyd i'r drwydded tynnu dŵr i warchod Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Bydd y cais hwn yn cael ei gwmpasu hyd at £660k gan gynllun Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC) CNC. Ar y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, nid yw'r rhwymedigaeth bosibl wedi'i mesur oherwydd y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt.

**Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr**
Derbyniwyd un hawliad mewn perthynas ag anaf a gafwyd wrth feicio ar ein hystad.

**Adolygiad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)**
Rydym wedi derbyn barn CThEF ar rwymedigaeth bosibl mewn perthynas ag IR35 a chontractwyr yr ydym wedi ymateb iddynt. Mae trafodaethau yn parhau ar yr adeg y llofnodir y cyfrifon blynyddol. Gall rhwymedigaeth ddod i'r amlwg ac mae ystod eang o werthoedd yn bosibl. Felly datgelir rhwymedigaeth digwyddiadol anfesuradwy.

**Planhigyn Clymog Japan**
Mae wyth hawliad am ddifrod a achoswyd gan blanhigyn Clymog Japan yn aros am farn arbenigol am gostau posib difrod a thrwsio**.**

### 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes digwyddiadau i'w hadrodd ar ôl y cyfnod adrodd.

### 22. Dyddiad awdurdodi ar gyfer cyhoeddi

Mae Datganiadau Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gosod gerbron y Senedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS. Mae IAS 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu ddatgelu'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Y dyddiad cyhoeddi awdurdodedig yw dyddiad adroddiad archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

## 23. Partïon cysylltiedig

Mae CNC yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CNC wedi cael trafodion perthnasol sylweddol gyda Llywodraeth Cymru yn ystod busnes arferol (adroddir ar y cymorth grant a'r grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae CNC hefyd wedi cael trafodion gydag endidau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel yr adran riant yn ogystal a thrafodion gyda chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, a CThEF.

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd CNC, yn ystod ei fusnes arferol, y trafodion canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr oedd gan aelodau'r bwrdd ac aelodau gweithredol neu bartïon cysylltiedig eraill ddiddordeb ynddynt. Nid oes gan y bwrdd na'r aelodau gweithredol unrhyw ran uniongyrchol yn y trafodion gyda'r partïon cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion am y flwyddyn lawn gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm taliadau £'000 | Cyfanswm incwm £'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Rhys Jones a'i Briod | Cyflogeion | 17 | 3 | 0 | 1 |
| Glandŵr Cymru | Priod Julia Cherrett | Ymddiriedolwr | 0 | 26 | 0 | 2 |
| Prifysgol Caerdydd<br><br>Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Prifysgol Caerdydd<br><br>Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod<br><br>Steve Ormerod<br><br>Steve Ormerod a'i Briod | Athro<br><br>Cyd-gyfarwyddwr<br><br>Prif ymchwilwyr | 36 | 10 | 0 | 0 |
| Cartrefi Conwy | Helen Pittaway | Cyfarwyddwr anweithredol | 0 | 1 | 0 | 0 |
| DEFRA gan gynnwys: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chwmni cefnogi | Karen Balmer<br><br>Syr David Henshaw<br><br>Steve Ormerod | Aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Risg JNCC<br><br>Aelod bwrdd yn cynrychioli CNC<br><br>Aelod bwrdd yn cynrychioli CNC | 25 | 50 | 0 | 13 |
| Prosiect Down to Earth | Mark McKenna a'i Briod | Cyfarwyddwyr | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | Steve Ormerod | Aelod o'r Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth | 3,720 | 1,660 | 624 | 841 |
| Groundwork Gogledd Cymru | Karen Balmer | Prif Weithredwr y Grŵp | 34 | 0 | 26 | 0 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | Sarah Jennings | Ymddiriedolwr | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Rosie Plummer | Aelod o'r Bwrdd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 249 | 1 | 20 | 0 |
| Plantlife International | Rosie Plummer | Ymddiriedolwr | 186 | 0 | 35 | 0 |
| RSPB | Steve Ormerod | Is-lywydd | 763 | 2 | 567 | 0 |
| Llywodraeth Cymru | Calvin Jones | Cyflogai (ar secondiad) | 9,247 | 140,110 | 8,680 | 13,631 |
| Wild Ground | Karen Balmer | Prif Weithredwr y Grŵp | 21 | 0 | 0 | 0 |

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd CNC, yn ystod ei fusnes arferol, i'r trafodiad uniongyrchol canlynol gyda'r aelod canlynol o'r bwrdd:

| Aelod | Natur y trafodion | Cyfanswm taliadau<br>£'000 | Cyfanswm incwm<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2023<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Geraint Davies | Cytundebau adran 16 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 9 | 0 | 0 | 0 |